



RHIF YMCHWILIAD CYMDEITHASOL:

56/2016

DYDDIAD CYHOEDDI:

23/08/2016

Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2015: Adroddiad Cymru



Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg hefyd.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-4734-7347-8

Arolwg Sgiliau Cyflogwr 2015: Adroddiad Cymru

**Mark Winterbotham, Rowan Foster, Andrew Skone James,
Jessica Huntley Hewitt, Mark Tweddle a Christabel Downing
IFF Research**



Barnau'r ymchwilydd yw'r barnau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o anghenraid farnau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:

James Carey

Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 01443 663811

Ebost: LMI@Cymru.gsi.gov.uk

Cydnabyddiaethau

Mae nifer o unigolion a sefydliadau wedi cymryd rhan yn y gwaith o lunio a gweithredu'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2015 gan Gomisiwn y Deyrnas Unedig a chynhyrchiad dilynol yr adroddiad hwn sy'n canolbwyntio ar y canfyddiadau a gafwyd yng Nghymru. Diolchir yn arbennig i'r 6,000 o gyflogwyr ledled Cymru a gymerodd ran mewn cyfweiliad ffôn.

Mae cynllun a gweithrediad arolwg y Deyrnas Unedig a'i ddadansoddiad dilynol wedi ei oruchwylio gan Gomisiwn y Deyrnas Unedig a rhaid diolch yn fawr i'r staff yno, sy'n cynnwys Carol Stanfield, Richard Garrett, Rosie Sutton, Adam Leach a Marc Bayliss.

Diolch arbennig i reolwr y prosiect yng Nghomisiwn y Deyrnas Unedig drwy gydol yr arolwg, Alex Thornton

Cefnogwyd yr arolwg cenedlaethol gan bob un o bedair llywodraeth y Deyrnas Unedig; arweiniwyd ei ddatblygiad gan grŵp llywio gyda chynrychiolwyr o'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BIS), Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, Adran Cyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon (DELNI), Yr Adran Waith a Phensiynau (DWP), Yr Adran Addysg (DFE) a'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau (SFA).

Yn olaf, rhaid diolch yn arbennig i James Carey a Joanne Corke a Llywodraeth Cymru am oruchwylio cynhyrchiad yr adroddiad hwn a dadansoddiad cysylltiedig data ESS 2015 i Gymru.

Mark Winterbotham
Cyfarwyddwr, IFF Research Ltd.

Tabl o'r cynnwys

Rhestr o dablau	3
Rhestr o'r Ffigurau.....	4
Rhestr Termau	5
Crynodeb Gweithredol.....	7
Cyflwyniad.....	7
1. Cyflwyniad	15
2. Penodi a swyddi gwag lle mae prinder sgiliau	26
3. Y Sialens Sgiliau Mewnol	45
4. Canfyddiadau cyflogwyr o danddefnyddio sgiliau a chymwysterau	65
5. Hyfforddiant a datblygiad y gweithlu	77
6. Arferion gweithio perfformiad uchel a strategaethau marchnad y cynnyrch	105
7. Casgliadau.....	123
Atodiad A: Tablau Atodol.....	128
Atodiad B: Dadansoddiad o'r 'hen' restr o ddisgrifwyr sgiliau '	170
Atodiad C: Codau'r diwydiant.....	173
Atodiad D: Codio Galwedigaethol.....	177
Atodiad E: Gwallau samplu	178
Atodiad F: Nodyn ar Hyfedredd a Bylchau mewn Sgiliau	180
Atodiad G: Llyfryddiaeth	181

Rhestr o dablau

Tabl 2.1 Dwysedd y swyddi gwag yn gyffredinol ac yn ôl y rhanbarth.....	29
Tabl 2.2 Mynychdra a dwysedd swyddi gwag gyda phrinder sgiliau(SgPS) yn gyffredinol ac yn ôl y rhanbarth.....	32
Tabl 3.1 Nifer a dwysedd y bylchau mewn sgiliau yn ôl galwedigaeth	51
Tabl 3.2 Prif achosion bylchau mewn sgiliau (wedi rhoi hwb)	53
Tabl 4.1 Rhesymau am danddefnydd yn ôl galwedigaeth	72
Tabl 5.1 Nifer a chyfran y staff a hyfforddwyd dros y 12 mis diwethaf, yn ôl y rhanbarth a maint y sefydliad.....	81
Tabl 5.2 Cyfanswm y diwrnodau o hyfforddiant a datblygiad, a'r diwrnodau i bob person a hyfforddir ac i bob cyflogai yn ôl maint (2011 – 2015).....	84
Tabl 5.3 Hyfforddiant at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol dros y 12 mis blaenorol.....	88
Tabl 5.4 Y ddarpariaeth hyfforddiant ar-lein neu e-ddysgu dros y 12 mis diwethaf yn ôl y rhanbarth a maint y sefydliad	90
Tabl 5.5 Darpariaeth hunan-ddysgu arall dros y 12 mis blaenorol yn ôl y rhanbarth a maint y sefydliad	92
Tabl 5.6 Cyfanswm y gwariant ar hyfforddiant a'r gwariant ar bob person a hyfforddwyd ac ar bob cyflogai (2011 - 2015).....	94
Tabl 5.7 Cyfanswm y gwariant ar hyfforddiant wedi'i dorri i lawr yn ôl cydrannau unigol (2011 - 2015).....	96
Tabl 5.8: Gwariant ar hyfforddiant yn ôl rhanbarth a maint, y gyfran a wariwyd ar elfennau tu allan i'r swydd, dadansoddiad o'r gwariant cyfan ar hyfforddiant (yn y swydd a'r tu allan i'r swydd) yn ôl yr elfennau allweddol	97
Tabl 6.1 Arferion Gweithio Perfformiad Uchel (GPU) yn ôl y pum factor	107
Tabl 6.2 Sgorau Strategaeth Marchnad y Cynnyrch cyfansawdd cyffredinol	115
Tabl 6.3 Sgiliau Strategaeth Marchnad y Cynnyrch cyfansawdd yn gyffredinol yn ôl maint.....	115
Tabl 6.5 Mynychdra a dwysedd bylchau mewn sgiliau yn ôl categoreiddiad Strategaeth Marchnad y Cynnyrch	118
Tabl 6.6 Prif achosion y bylchau mewn sgiliau (wedi rhoi hwb), yn ôl categoreiddiad Strategaeth Marchnad y Cynnyrch	119

Rhestr o'r Ffigurau

Ffigur 2.3 Sgiliau sy'n brin ymysg ymgeiswyr i sefydliadau gydag o leiaf un swydd wag lle mae prinder sgiliau (wedi rhoi hwb)	37
Ffigur 3.1 Mynychdra a dwysedd y bylchau mewn sgiliau yn ôl y Rhanbarth.....	48
Ffigur 3.2 Dwysedd a nifer y bylchau mewn sgiliau yn ôl y sector (2013 a 2015)	49
Ffigur 3.3 Y sgiliau sy'n brin ymysg staff gyda bylchau mewn sgiliau.....	56
Ffigur 3.4 Effeithiau bylchau mewn sgiliau	58
Ffigur 3.5 Y camau a gymerwyd i gau bylchau mewn sgiliau (wedi rhoi hwb)	60
Ffigur 3.6 Newidiadau yn y nifer o swyddi gyda phrinder sgiliau a bylchau mewn sgiliau dros amser, yn ôl y sector	62
Ffigur 4.1 Un alwedigaeth a effeithiwyd fwyaf gan danddefnyddio	68
Ffigur 4.2 Rhesymau am y tanddefnydd (ddim wedi rhoi hwb).....	70
Ffigur 4.3 Y berthynas rhwng tanddefnydd a heriau eraill	75
Ffigur 5.1 Y ddarpariaeth hyfforddi dros y 12 mis diwethaf	80
Ffigur 5.2: Cyfran y staff a hyfforddwyd dros y 12 mis diwethaf yn ôl galwedigaeth (2011-2015)	83
Ffigur 5.3 Mathau o hyfforddiant a ddarperir dros y 12 mis gan gyflogwyr a fu'n hyfforddi (wedi rhoi hwb).....	85
Ffigur 5.4 Rhwystrau i ddarparu rhagor o Hyfforddiant.....	99
Ffigur 5.5 Rhesymau am beidio darparu hyfforddiant yn y 12 mis blaenorol	100
Ffigur 5.6 Diddordeb cyflogwyr mewn gwneud mwy o hyfforddiant dros y 12 mis diwethaf nag y gallent ei ddarparu	102
Ffigur 6.1 Cyflogwyr yn mabwysiadu arferion Gweithio Perfformiad Uchel (GPU) .	108
Ffigur 6.2 Crynodeb o brofiad cyflogwyr o brinder mewn sgiliau, bylchau mewn sgiliau a hyfforddiant yn dibynnu ar gategoreiddiad Gweithio Perfformiad Uchel (GPU)	110
Ffigur 6.3 Safleoedd Strategaeth Marchnad y Cynnyrch.....	114
Ffigur 6.4 Mynychdra'r swyddi gwag, anodd eu llenwi (SALI) a'r swyddi gwag gyda phrinder sgiliau (SgPS), yn ogystal â Dwysedd SALI, yn ôl categoreiddiad Strategaeth Marchnad y Cynnyrch	117
Ffigur 6.5 Mynychdra'r hyfforddiant fel cyfran o'r gweithlu a hyfforddwyd yn ôl categoreiddiad Strategaeth Marchnad y Cynnyrch	120
Ffigur B.1: Sgiliau sy'n brin ymysg ymgeiswyr yn ôl yr 'hen' restr o ddisgrifwyr sgiliau (wedi rhoi hwb) (2013 a 2015).....	171
Ffigur B.2: Bylchau mewn sgiliau ar gyfer 'hen' ddisgrifwyr sgiliau (wedi rhoi hwb) (2013 a 2015)	172

Rhestr Termau

Mae'r rhestr termau yma'n rhoi arweiniad byr i chi o'r termau allweddol a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad yma:

Sefydliad (cyfeirir at hwn hefyd fel y gweithle, busnes, cyflogwr neu safle)	Lleoliad unigol sefydliad – ar gyfer yr arolwg yma mae gan bob un o leiaf ddau berson yn gweithio yn y lleoliad hwnnw.
Dwysedd swyddi gwag	Nifer y swyddi gwag fel cyfran o'r holl gyflogaeth.
Swyddi gwag anodd eu llenwi	Swyddi gwag y sylweddolir eu bod yn anodd eu llenwi. Fel y maent wedi eu diffinio gan y sefydliad (o'r cwestiwn: "A oes unrhyw rai o'r swyddi gwag yma'n dechrau edrych yn anodd eu llenwi?").
Dwysedd swyddi gwag anodd eu llenwi	Nifer y swyddi gwag anodd eu llenwi fel cyfran o'r holl swyddi gwag.
Swyddi gwag lle mae prinder sgiliau (SgPS)	Swyddi gwag y sylweddolir eu bod yn anodd eu llenwi am nad yw'r sefydliad yn gallu canfod ymgeiswyr gyda'r sgiliau, y cymwysterau neu'r profiad priodol.
Dwysedd swyddi gwag lle mae prinder sgiliau	Nifer y swyddi gwag lle mae prinder sgiliau fel cyfran o'r holl swyddi gwag.
Bylchau mewn sgiliau	Mae "bwllch mewn sgiliau" yn bodoli lle mae'r cyflogwr yn penderfynu nad yw ei g/weithiwr cyflogedig yn gwbl hyfedr h.y. ddim yn gallu gwneud y swydd i'r lefel ofynnol. Gwelwch Atodiad F.
Dwysedd bylchau mewn sgiliau	Y nifer o staff yr adroddir nad ydynt yn gwbl hyfedr fel cyfran o'r holl gyflogaeth.
Tanddefnyddio sgiliau (sgiliau ddim yn cael eu defnyddio'n ddigonol)	Nid yw sgiliau gweithiwr cyflogedig yn cael eu defnyddio'n ddigonol / yn gyfan gwbl os yw'r cyflogwr yn adrodd bod gan rywun sgiliau a chymwysterau sydd ar lefel uwch nag sy'n ofynnol i wneud rôl y swydd y maent ynddi ar hyn o bryd.

**Strategaeth Marchnad
y Cynnyrch (SMC)**

Penderfynir ar sgôr SMC sefydliad o gyfuno'r atebion i bedwar cwestiwn:

- Faint mae eu cynnyrch wedi ei addasu'n benodol;
- Faint mae eu cynnig yn dibynnu ar bris;
- Pa mor arloesol yw'r sefydliad;
- A yw'r cynnyrch o safon sylfaenol neu o'r safon orau.

Mae sgôr uchel i SMC yn arwydd bod cynnyrch wedi ei addasu, nad yw'n dibynnu ar bris, ei fod o safon uchel a bod y sefydliad yn aml yn flaenllaw o ran datblygu'r cynnyrc.

**Cymwysterau Lefel 4
ac uwch**

Cymwysterau ar Lefel 4 neu'n uwch ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Yn cynnwys HND, HNC, graddau sylfaenol a graddau, graddau ôl-raddedig, a rhai cymwysterau galwedigaethol a phroffesiynol.

Sector

I weld diffiniadau o'r gwahanol grwpiau sector a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn, ewch i Atodiad C os gwelwch yn dda.

Swyddi gwag

I weld diffiniadau o'r grwpiau galwedigaethol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn, ewch i Atodiad D os gwelwch yn dda.

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Am ei fod wedi archwilio profiadau ac arferion mwy na 91,000 o gyflogwyr, Arolwg Sgiliau Cyflogwyr Comisiwn y Deyrnas Unedig yw'r ffynhonnell ddiffiniol o wybodaeth am yr heriau sgiliau y mae cyflogwyr drwy'r Deyrnas Unedig gyfan yn eu wynebu a'u hymateb yn nhermau buddsoddiad mewn sgiliau a hyfforddiant. Gwnaethpwyd mwy na 6,000 o gyfweiliadau gyda chyflogwyr yng Nghymru.

Cynhaliwyd yr arolwg yma'n gyntaf fel arolwg ar draws y Deyrnas Unedig gyfan yn 2011, a chafodd ei ddatblygu o gyfres o arolygon a gynhaliwyd ymhob un o wledydd y Deyrnas Unedig yn ystod yr 1990au a'r 2000au. Mae arolwg y Deyrnas Unedig wedi cael ei chynnal bob dwy flynedd, ac mae arolwg 2015 yn cynrychioli'r trydydd yn y gyfres. Mae graddfa'r arolwg yn caniatáu dadansoddiad manwl o is-grwpiau ar lefel rhanbarthol a sector, yn ogystal â chaniatáu cymhariaethau gyda gwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r cyfnod o 2011 yn cyfateb gydag ymadawiad economi'r Deyrnas Unedig â'r dirwasgiad a'i thyfiant economaidd gweddol barhaus. Mae'r arolwg yn archwilio'r heriau o ran sgiliau sy'n wynebu cyflogwyr o fewn eu gweithluoedd presennol ac wrth benodi, y defnydd a wnânt o sgiliau eu staff, lefelau a natur y buddsoddiad mewn hyfforddiant a datbygiad, a'r berthynas rhwng heriau sgiliau, gweithgareddau a hyfforddi a strategaeth fusnes. Yn 2015, mabwysiadwyd fframwaith mwy perthnasol i ganfod pa sgiliau roedd cyflogwyr yn eu gweld yn brin yn y farchnad lafur allanol ac o fewn eu gweithlu presennol.

Mae'r astudiaeth yn adrodd ar brofiadau cyflogwyr ar lefel y sefydliad, yn hytrach nag ar lefel y fenter. Mae'r arolwg yn ymdrin â sefydliadau gydag o leiaf ddau berson ar y gyflogres.

Penodi a swyddi gwag lle mae prinder sgiliau

Gwelwyd **tyfiant sylweddol yn y nifer o gyflogwyr sy'n weithredol yn y farchnad benodi** yn 2015 o'i gymharu â 2013: roedd gan 17 y cant o sefydliadau yng Nghymru o leiaf un swydd wag pan gafwyd gwaith maes ESS 2015 (Mawrth - Gorffennaf 2015), i fyny o 14 y cant yn 2013, ac roedd nifer y swyddi gwag yr adroddwyd amdanynt wedi cynyddu o oddeutu 26,000 yn 2013 (cyfatebol â 2.2 y cant o'r gyflogaeth gyfan) i oddeutu 36,000 yn 2015 (3.1 y cant o'r gyflogaeth gyfan).

Roedd y tyfiant cryf yma mewn gweithgareddau penodi'n amlwg ym mhob gwlad o'r Deyrnas Unedig.

O fewn y farchnad waith ffyniannus hon, roedd swyddi gwag gyda phrinder sgiliau'n dod â sialens gynyddol i gyflogwyr wrth iddynt geisio llenwi eu swyddi gwag. **Roedd gan chwech y cant o gyflogwyr yng Nghymru o leiaf un swydd gyda phrinder sgiliau** ar amser yr arolwg, oedd wedi codi o bedwar y cant yn 2013. Adroddwyd am gyfanswm o oddeutu 9,000 o swyddi gwag gyda phrinder sgiliau yn 2015, sef cynnydd llym o'r 5,000 yr adroddwyd amdanynt yn 2013.

Er bod nifer y swyddi gwag a'r swyddi gwag gyda phrinder sgiliau wedi cynyddu, mae **dwysedd y swyddi gyda phrinder sgiliau** (h.y. y gyfran o swyddi gwag yr oedd cyflogwyr yn cael trafferth eu llenwi oherwydd prinder sgiliau) **wedi cynyddu hefyd ers 2013**: o 20 y cant i 24 y cant. I'r gwrthwyneb, mae dwysedd y prinder sgiliau ar lefel gyffredinol y Deyrnas Unedig wedi parhau'n weddol ddinewid yn y cyfnod yma (23 y cant yn 2015 o'i gymharu gyda 22 y cant yn 2013).

O edrych arnynt yn ôl yr alwedigaeth, roedd **dwysedd y swyddi gwag gyda phrinder sgiliau ar ei uchaf ar gyfer Masnachau Medrus** (roedd 45 y cant o'r holl swyddi gwag ar gyfer yr alwedigaeth yma'n anodd eu llenwi oherwydd prinder sgiliau), yn debyg i ffigur y Deyrnas Unedig (43 y cant). Cafwyd **cynnydd mawr yn nwysedd y swyddi gwag gyda phrinder sgiliau i Weithredwyr Peiriannau** (o 25 y cant yn 2013 i 40 y cant yn 2015).

Cafwyd swyddi gwag gyda phrinder sgiliau o ganlyniad i ddiffyg sgiliau personol/pobl ac hefyd sgiliau technegol ac ymarferol ymysg ymgeiswyr. Y prif sgiliau technegol ac ymarferol oedd yn brin oedd sgiliau sy'n ymwneud ag agweddau gweithredol y rôl (e.e. dywedwyd bod 42 y cant o'r swyddi gyda phrinder sgiliau wedi codi am fod diffyg gwybodaeth ymysg ymgeiswyr o'r ffordd mae'r sefydliad yn gweithio), yn ogystal â sgiliau dadansoddi cymhleth. Soniodd y cyflogwyr hefyd am brinder sgiliau iaith Gymraeg llafar (sy'n un o achosion 15 y cant o'r swyddi cyfan lle mae prinder sgiliau) a sgiliau iaith Gymraeg ysgrifenedig (11 y cant). Roedd y prif sgiliau personol a phobl oedd yn brin yn ymwneud â rheoli amser (57 y cant), sgiliau trin cwsmeriaid (47 y cant) a gweithio mewn tîm (44 y cant).

Cadw staff

Dywedodd bron i un ymhob deg (naw y cant) o sefydliadau yng Nghymru bod swyddi penodol lle'r oeddent yn cael anawsterau cadw staff. Mae hyn yn debyg i'r gyfran ar draws y Deyrnas Unedig gyfan (wyth y cant) ac mae'n cynrychioli cynnydd bychan ers 2011 (saith y cant), y tro diwethaf yr edrychwyd ar anawsterau cadw staff yn y gyfres Arolwg Sgiliau Cyflogwyr.

Sector wrth sector, roedd cyflogwyr o fewn y sector Gwestai a Bwytaï yn fwyaf tebygol o gael anawsterau cadw pobl (20 y cant), sydd yn cyfateb â'r achosion o anawsterau cadw staff yn y sector yma ar lefel y Deyrnas Unedig.

Lle mae cyflogwyr yn cael anawsterau cadw staff, **roedd y rhain yn fwyaf tebygol o ymwneud yn bennaf â Masnachau Medrus (26 y cant)**. Roedd hyn yn uwch na'r gyfran a soniodd am anawsterau cadw staff ymysg y galwedigaethau Masnachau Medrus yn y Deyrnas Unedig (21 y cant).

Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd am anawsterau cadw staff oedd bod staff yn brin o ddiddordeb yn y math o waith a gynigiwyd (65 y cant).

Y bylchau mewn sgiliau yn y gweithle

Dywedodd y mwyafrif llethol o gyflogwyr (86 y cant) bod ganddynt weithlu cwbl hyfedr. Ond, dywedod **14 y cant o gyflogwyr bod ganddynt fylchau mewn sgiliau yn eu sefydliad**, gydag oddeutu 54,000 o staff yn brin o hyfedredd yn eu rôl bresennol (**4.5 y cant o'r gweithu yng Nghymru**). Roedd y cyfrannau yma'n debyg i'r rheiny ar draws y DU (14 y cant a 5.0 y cant yn y drefn honno).

Penderfynwyd bod dwy ran o dair o'r bylchau mewn sgiliau wedi cael eu hachosi, o leiaf yn rhannol, gan y ffaith fod staff yn newydd i'r rôl, tra bo cyfran debyg wedi eu hachosi mae'n debyg gan y ffaith nad oedd hyfforddiant y gweithwyr cyflogedig wedi ei gwblhau. Mae'r ffactorau hyn yn rhai dros dro i raddau mawr: hynny yw, byddai rhywun yn disgwyl i'r bylchau mewn sgiliau sy'n codi o'r achosion hyn gael eu diddymu unwaith mae staff wedi setlo i mewn i'w rolau newydd a/neu mae'r hyfforddiant presennol wedi'i gwblhau.

Gostyngodd y gyfran o gyflogwyr gydag unrhyw fylchau mewn sgiliau, a'r gyfran o'r gweithlu a effeithiwyd, rhwng 2013 a 2015, gan ddychwelyd i lefelau oedd yn fwy cyfatebol â 2011. Yn ôl y rhanbarth, roedd dwysedd y bylchau mewn sgiliau ar ei uchaf yn ne ddwyrain Cymru (4.9 y cant) a'i isaf yng nghanolbarth Cymru (2.5 y cant).

Ar lefel alwedigaethol, roedd bylchau mewn sgiliau'n fwyaf tebygol o ymddangos ymysg Gweithredwyr Peiriannau (7.4 y cant). Dwysedd y bylchau mewn sgiliau ymysg galwedigaethau Masnachau Medrus, lle'r oedd y dwysedd swyddi gwag gyda phrinder sgiliau ar ei uchaf, oedd 5.5 y cant.

Roedd dwysedd y bylchau mewn sgiliau ar ei uchaf yn y sector

Gweithgynhyrchu (er gwaethaf y ffaith fod gostyngiad mewn dwysedd o'i gymharu â 2013), a dyma oedd y sector gyda'r *nifer* uchaf o fylchau mewn sgiliau.

Roedd sgiliau personol a phobl, megis rheoli amser a'r gallu i flaenoriaethu tasgau, yn ogystal â gweithio mewn tîm, yn brin yn gyffredinol ar draws ystod o alwedigaethau lle'r oedd bylchau i'w gweld mewn sgiliau. Gwelwyd hefyd bod prinder yn y sgiliau neu'r wybodaeth arbenigol oedd eu hangen i wneud y rôl, ynghyd â gwybodaeth a dealltwriaeth weithredol da.

Yn unol â chanfyddiadau ehangach yn y Deyrnas Unedig, roedd hi'n ymddangos bod bylchau mewn sgiliau'n cael mwy o effaith ar fusnesau bychain yn arbennig.

Cynnydd yn y llwyth gwaith i staff eraill oedd yr effaith fwyaf cyffredin, a oedd yn effeithio ar oddeutu hanner yr holl sefydliadau oedd â bylchau mewn sgiliau.

Canfyddiadau cyflogwyr o danddefnyddio sgiliau a chymwysterau yn y gweithle

Gallai rhai cyflogwyr weld bod anghydbwysedd mewn sgiliau lle nad yw staff yn cael eu defnyddio'n ddigonol, hynny yw, bod y sgiliau a'r cymwysterau sydd gan y staff yma'n uwch na'r rheiny sydd eu hangen ar gyfer eu rôl gyfredol.

Dywedodd traean (34 y cant) o gyflogwyr yng Nghymru bod ganddynt o leiaf un gweithiwr gyda sgiliau a chymwysterau sy'n uwch na'r rheiny sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl gyfredol, gan adrodd bod **89,000 o weithwyr yn cael eu tanddefnyddio** yn y ffordd yma (wyth y cant o'r holl staff). Rheolwyr oedd yr un alwedigaeth fwyaf cyffredin oedd yn cael eu tanddefnyddio.

Am fod arolwg 2015 yn defnyddio mesuriad gwahanol i fesur tanddefnydd, nid yw'r adroddiad yma'n cyflwyno unrhyw gymhariaethau cyfres amser.

Roedd ychydig dros un ymhob pump (22 y cant) o sefydliadau a soniodd am danddefnyddio sgiliau yn dweud mai'r ffaith nad oedd gan eu staff ddiddordeb mewn cymryd rôl lefel uwch sydd ar fai am hyn, dyma oedd y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd. Mae hyn yn dangos bod cyfran dda o staff wedi dewis eu rôl gyfredol i gyfateb â'u hanghenion a'u hamgylchiadau personol. Yn gysylltiedig â hyn,

dywedodd 14 y cant o sefydliadau a soniodd am danddefnyddio bod yr oriau gwaith yn fwy addas i'w gweithwyr.

Ond, roedd rhesymau eraill a roddwyd gan gyflogwyr yn ymwneud â'r hyn y gellid ei ystyried yn ddiffyg yn y nifer o swyddi sydd ar gael a fyddai'n defnyddio eu sgiliau, h.y. diffyg galw am eu sgiliau yn y farchnad lafur. Er enghraifft, dywedodd 14 y cant bod prinder swyddi yn y rôl lefel uwch y maent eu heisiau a dywedodd naw y cant bod y staff yma'n cael profiad ar hyn o bryd ar gyfer rôl lefel uwch.

Hyfforddiant a datblygiad staff

Ychydig iawn o newid oedd yn y prif fesurau hyfforddi yn Nghymru rhwng arolygon 2015 a 2013. Yn debyg i 2013, roedd ychydig dros **dair rhan o bump (63 y cant) o sefydliadau wedi ariannu neu drefnu hyfforddiant neu ddatblygiad i'w staff dros y 12 mis blaenorol**; yn debyg i flynyddoedd blaenorol, roedd hyn ychydig yn is na'r gyfran oedd yn hyfforddi ar draws y Deyrnas Unedig yn gyfan gwbl (66 y cant).

Roedd bron i hanner (49 y cant) yr holl sefydliadau yng Nghymru'n darparu hyfforddiant yn y gwaith i'w staff, sy'n is na Ffigur y Deyrnas Unedig o 53 y cant; mae hyn yn cyfrif am y gwahaniaeth yn y gyfran o gyflogwyr sy'n cynnig unrhyw hyfforddiant yng Nghymru o'i gymharu gyda'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol. I'r gwrthwyneb, roedd y gyfran o sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu hyfforddiant y tu allan i'r swydd yn gyfatebol gyda'r Deyrnas Unedig (y ddau yn 49 y cant), ac yn cynrychioli cynnydd o ddau bwynt canran o 2013 yng Nghymru.

Yn wahanol i'r Deyrnas Unedig gyfan, lle cafodd cyfrannau tebyg o staff eu hyfforddi yn 2015 a 2013, **bu cyflogwyr yng Nghymru'n hyfforddi cyfran fwy o'u staff yn 2015 (64 y cant) o'i gymharu gyda 2013 (62 y cant) a 2011 (56 y cant)**. Roedd cyflogwyr yng Nghymru'n fwy tebygol hefyd o fod wedi trefnu neu ariannu hyfforddiant at gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol (54 y cant o'r rheiny sy'n darparu hyfforddiant o'i gymharu gyda 47 y cant ledled y Deyrnas Unedig).

Derbyniodd bawb a hyfforddwyd yng Nghymru gyfartaledd o 7.2 diwrnod o hyfforddiant bob blwyddyn. Roedd hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd o 6.8 diwrnod ledled Prydain yn gyffredinol, ond roedd yn cynrychioli gostyngiad bach iawn o'r ffigurau yng Nghymru yn 2013 (7.7 diwrnod). **Cyfanswm y nifer o ddiwrnodau hyfforddi yng Nghymru oedd 5.4 miliwn o ddiwrnodau, yn debyg i'r 5.6 miliwn yn 2013.**

Cynyddodd cyfanswm y gwariant gan gyflogwyr ar hyfforddiant yng Nghymru o wyth y cant rhwng 2013 a 2015, o 1.9 biliwn i 2.1 biliwn, gan barhau'r cynnydd mewn gwariant ers 2011 (£1.6 biliwn). Ond, arhosodd y gwariant cyfartalog i bob person a hyfforddwyd ac i bob gweithiwr cyflogedig yn gyfatebol â 2013, ac roedd ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU.

Roedd y defnydd o **hyfforddiant ar-lein** neu e-ddysgu **ac o hunan-ddysgu arall** yn weddol gyffredin ymysg cyflogwyr sy'n hyfforddi (43 y cant a 37 cant yn y drefn honno), ac yn cynyddu'n gyffredinol, yn arbennig ar gyfer hyfforddiant ar-lein ac e-ddysgu (dywedodd 40 y cant o'r rheiny a ddefnyddiodd y dull yma o gwbl yn y ddwy flynedd ddiwethaf eu bod wedi gweld cynnydd dros y 12 mis diwethaf, o'i gymharu â 19 y cant yn ei ddefnyddio llai). Roedd y ffigurau yma'n cyfateb yn fras gyda ffigurau'r Deyrnas Unedig gyfan.

Roedd hanner y cyflogwyr oedd yn rhoi hyfforddiant (49 y cant) eisiau darparu mwy o hyfforddiant nag yr oeddent wedi gallu ei ddarparu, a'r prif rwystrau oedd diffyg arian ar gyfer hyfforddi a diffyg amser. Mae'r rhesymau yma'n awgrymu bod cyfyngiad mewn rhai busnesau ar y gwerth y maen nhw'n ei roi ar hyfforddiant, ac y tu hwnt i'r cyfyngiad yma nid yw hyfforddiant yn sicrhau digon o ad-daliad ar eu buddsoddiad, neu o leiaf nid yw'n ymddangos felly.

Arferion gweithio perfformiad uchel a strategaethau marchnad y cynnyrch

Mae UKCS yn diffinio Gwaith Perfformiad Uchel (GPU) fel dull cyffredinol o reoli sefydliadau sy'n ceisio ysgogi cyfranogaeth ac ymrwymiad mwy effeithiol gan y gweithwyr er mwyn sicrhau lefelau uwch o berfformiad. **Categoreiddiwyd lleiafswm o gyflogwyr yng Nghymru (11 y cant) fel cyflogwyr GPU** (wedi eu diffinio fel rhai sy'n mabwysiadu 14 neu fwy o arferion GPU). Mae hyn yn debyg i'r 12 y cant ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae Strategaethau Marchnad y Cynnyrch (SMC) wedi eu diffinio o fewn yr arolwg yn unol ag ymatebion cyflogwyr sector preifat i gyfres o gwestiynau sy'n archwilio strategaethau prisio, agweddau tuag at arloesi, a natur y marchnadoedd cynhyrchion y mae sefydliadau'n gweithredu ynddynt. **Wrth agregu'r ymatebion hyn, categoreiddiwyd 40 y cant o'r holl sefydliadau sector preifat yng Nghymru fel rhai gyda strategaethau marchnad y cynnyrch 'uchel' neu 'uchel iawn'.** Roedd hyn yn is na'r Ffigur cyffredinol yn y DU o 46 y cant.

Mae busnesau a fabwysiadodd arferion GPU a'r rheiny a geisiodd "strategaethau marchnad cynhyrchion uchel iawn" (h.y. rheiny sy'n arwain y ffordd o fewn eu diwydiant, yn cynnig cynhyrchion premiwm a gwasanaethau gyda graddfa uchel o addasiad penodol i'r cwsmer ac nad yw eu llwyddiant cystadleuol yn ddibynnol o gwbl ar y pris) **yn tueddu bod yn fwy gweithgar yn y farchnad lafur ac wedi cael profiad amlach o brinder sgiliau**: ond, roeddent yn ei chael hi'n haws hefyd i lenwi eu swyddi gwag yn y synnwyr bod cyfran is o'u swyddi gwag yn anoddach eu llenwi.

Roedd cyflogwyr GPU yng Nghymru'n fwy tebygol hefyd o ganfod bylchau mewn sgiliau yn eu gweithlu. Mae'r gwahaniaethau yma'n adlewyrchu cyflogwyr GPU mae'n debyg sy'n mabwysiadu arferion (megis asesiadau o anghenion hyfforddi) sy'n debygol o ganfod bylchau mewn sgiliau yn eu gweithlu. Roedd y profiad o fylchau mewn sgiliau'n debyg ar draws y sefydliadau, beth bynnag fo eu strategaethau marchnad y cynnyrch.

Roedd perthynas amlwg rhwng sgor SMC sefydliad a'i ddarpariaeth hyfforddiant – roedd y rheiny sy'n gweithredu ar ben uchaf y mynegai SMC yn fwy tebygol o fod wedi hyfforddi eu staff ac o fod wedi hyfforddi cyfran uwch o'u staff.

Casgliadau

Mae'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr yn ffynhonnell hanfodol o ddata am sgiliau a'r farchnad lafur. Mae'n cynnig cipolwg unigryw ar y mân benderfyniadau y mae cyflogwyr yn eu gwneud am ffactorau megis penodi, buddsoddi mewn hyfforddiant a defnyddio sgiliau yn y gweithle, sy'n tanategu'r tueddiadau ar lefel facro sy'n gyrru tyfiant economaidd a lefau cynhyrchiant yng Nghymru.

Mae canfyddiadau ESS15 yn dangos hydwythedd yn y farchnad lafur yng Nghymru, gyda **thyfiant sylweddol yn y nifer o gyflogwyr sy'n weithgar mewn recriwtiad**. Roedd tystiolaeth hefyd o **weithlu hynod o hyfedr, gyda'r mwyafrif llethol o sefydliadau'n sôn eu bod yn hapus gydag arbenigedd eu staff**.

Mae cyflogwyr yng Nghymru'n cwrdd â'u hanghenion o ran sgiliau drwy ddarparu hyfforddiant: Mae **bron i ddwy ran o dair o staff wedi derbyn hyfforddiant dros y 12 mis diwethaf**, yn unol â ffigurau'r Deyrnas Unedig, tra bo buddsoddiad mewn hyfforddiant wedi cynyddu ers 2013 a 2011.

Fodd bynnag, mae sialensiau'n parhau sydd angen sylw. Cafwyd **cynnydd yn y nifer o sefydliadau yng Nghymru sy'n cael anawsterau penodi oherwydd prinder sgiliau ymysg ymgeiswyr**. Mae anawsterau cadwraeth wedi cynyddu ers

2011, tra bo **tanddefnyddio'n ffenomenon eang**. Mae canfyddiadau hefyd yn cadarnhau cysylltiad rhwng tanddefnyddio a phroblemau cadw staff sy'n awgrymu y dylai cyflogwyr feddwl yn ofalus am gynnig datblygiad i weithwyr cyflogedig er mwyn osgoi'r costau sy'n gysylltiedig â lefelau cadw staff isel megis recriwtiad a cholli cynhyrchiant.

O dan y lefel hon ar draws yr economi, roded amrywiadau galwedigaethol, sectoraidd a rhanbarthol ym mhrofiadau'r cyflogwyr o sgiliau. Er enghraifft, roedd cyflogwyr mewn gweithgynhyrchu'n fwy tebygol o gael eu heffeithio gan fylchau mewn sgiliau ac yn lleiaf tebygol o fod wedi darparu hyfforddiant dros y 12 mis diwethaf. Yn y cyfamser, roedd y rheiny yng Nghanolbarth Cymru wedi cael mwy o anawsterau wrth geisio canfod gweithwyr gyda'r sgiliau cywir i lenwi eu swyddi gwag.

Mae amrywiaeth o opsiynau'n agored i gyflogwyr eu diogelu eu hunain yn erbyn y diffyg yma mewn sgiliau, o ddarparu profiad gwaith a threialon gwaith sy'n creu llwybrau at gyflogaeth, i gynnig hyfforddiant perthnasol sy'n codi sgiliau gweithwyr cyflogedig i'r lefel o wybodaeth sy'n ofynnol. Ond mae pwyslais hefyd ar sefydliadau recriwtio a darparwyr hyfforddiant fel ei gilydd i sicrhau bod gan unigolion y sgiliau addas ar gyfer y gweithle.

Sgiliau allweddol i ddarparwyr hyfforddiant ymdrin â **rheoli amser a blaenoriaethu tasgau, sgiliau arbenigol a gwybodaeth am y sefydliad neu'r cynnyrch**. Mae angen i sail sgiliau Cymru esblygu er mwyn manteisio ar y cyfleoedd sy'n cael eu creu gan y farchand waith newidiol. **Yn benodol, gellid cymryd camau i ysgogi'r galw gan gyflogwyr am hyfforddiant, annog strategaethau hyfforddi doethach (megis hyfforddiant ar lein), meithrin hyfforddiant lefel uwch a sicrhau fod busnesau'n gwneud y gorau o'r talent sydd ar gael iddynt.**

1. Cyflwyniad

Arolwg Sgiliau Cyflogwyr y Deyrnas Unedig

- 1.1 Mae'r adroddiad yma'n cyflwyno canfyddiadau ymysg cyflogwyr yng Nghymru o Arolwg Sgiliau Cyflogwyr Comisiwn y Deyrnas Unedig 2015 (ESS 2015), sef arolwg graddfa fawr o gyflogwyr sy'n amcannu i roi darlun diffiniol o faint, natur ac effaith yr heriau o ran sgiliau sy'n wynebu cyflogwyr ar draws y Deyrnas Unedig, a'u hymateb yn arbennig yn nhermau eu buddsoddiad mewn hyfforddiant. ESS 2015 yw'r drydedd gwaith y mae'r arolwg wedi'i wneud fel astudiaeth ledled Prydain - cafwyd y cyntaf yn 2011.
- 1.2 Trwy gydol yr adroddiad gwneir cymhariaethau gyda chanlyniadau'r Deyrnas Unedig, o fewn is-grwpiau o gyflogwyr yng Nghymru, tra bo tueddiadau hanesyddol wedi eu nodi hefyd.
- 1.3 Yn ogystal â sylwadau ysgrifenedig, mae'r atodiadau i'r adroddiad yma'n cynnwys y tabladau data cryno sy'n rhoi manylion mesurau arolygu allweddol.
- 1.4 Cafodd adroddiad llawn y Deyrnas Unedig a chynrychiadau eraill sy'n cynnwys tablau data eu cyhoeddi ac maent ar gael ar wefan UKCES (*Arolwg Sgiliau Cyflogwyr Comisiwn y DU 2015: Canlyniadau'r DU*, Adroddiad Tystiolaeth 97, a gyhoeddwyd yn Ionawr 2016; gwelwch <https://www.gov.uk/government/publications/ukces-employer-skills-survey-2015-uk-report>).
- 1.5 Mae tablau data a sleidiau cyflwyniad yn cynnwys canlyniadau yng Nghymru ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/publications/ukces-employer-skills-survey-2015-Cymru-toolkit>.

Trosolwg methodolegol

- 1.6 Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, roedd gan ESS 2015 ddau gam cysylltiol. Roedd y cyntaf yn arolwg o sefydliadau ar draws y Deyrnas Unedig (yr arolwg "craidd"), tra bo'r ail gam yn dilyn sampl o sefydliadau oedd wedi ariannu neu drefnu hyfforddiant i weithwyr cyflogedig yn y 12 mis cyn yr arolwg i edrych ar y buddsoddiad yr oeddent wedi'i wneud yn yr hyfforddiant yma (yr "Arolwg o Fuddsoddiad mewn Hyfforddiant").
- 1.7 Gwnaethpwyd y ddau arolwg dros y ffôn a chafodd y cyflogwyr yr opsiwn o gwblhau'r cyfweiliad yn y Gymraeg os oeddent yn dewis hynny.

- 1.8 Mae'r adran yma'n crynhoi'n fyr nodweddion allweddol y fethodoleg a fabwysiadwyd ar draws y ddau arolwg. Gallwch weld rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Technegol¹.

Samplu'r arolwg

- 1.9 Roedd samplu ar gyfer yr arolwg yn cynnwys sefydliadau (h.y. safleoedd unigol, yn hytrach na mentrau a fyddai ond yn cynnwys prif swyddfa sefydliadau gyda safleoedd niferus) gydag o leiaf ddau aelod o staff (yn cynnwys perchnogion sy'n gweithio a gweithwyr cyflogedig). Roedd masnachwyr unig a sefydliadau gyda dim ond un cyflogai a dim perchnogion yn gweithio wedi eu heithrio o boblogaeth yr arolwg.
- 1.10 Roedd yr arolwg yn cynnwys holl sectorau'r economi (ar draws y sfferau masnachol, cyhoeddus ac elusennol). Roedd proffil y boblogaeth hon wedi'i sefydlu drwy'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ONS) ar sail y data o ystadegau'r Gofrestr Busnesau Rhyng-adrannol (IDBR) Mawrth 2014, y ffigurau mwyaf diweddar oedd ar gael ar amser yr arolwg.
- 1.11 Cafwyd gfael ar fanylion cysylltu i gyflogwyr o gronfa ddata fasnachol Experian o sefydliadau, wedi eu hategu gan ychydig o gofnodion a ddarparwyd yn uniongyrchol drwy'r IDBR (er mwyn sicrhau cynrychiolaeth lawn y sefydliadau mewn sectorau anfasnachol penodol yn arbennig).
- 1.12 Cymerwyd agwedd haenedig ar hap tuag at samplu'r arolwg craidd, gyda chyfresi cwtâu ar gyfer maint y sefydliadau o fewn y sector, a'r nod o or-samplu cyflogwyr mawr a sectorau llai.
- 1.13 Yn ogystal â'r ddaeareg, sector a maint sefydliadau, roedd yr arolwg dilynol ar Fuddsoddiad mewn Hyfforddiant yn sicrhau sylw cadarn hefyd ar natur yr hyfforddiant y mae'r sefydliad yn ei ddarparu (p'un a ydyw'r hyfforddiant yn y swydd yn unig, yn hyfforddiant tu allan i'r swydd yn unig, neu'n gyfuniad o'r ddau). Roedd yr holl gyflogwyr a gyfwelwyd ar gyfer yr Arolwg Buddsoddiad mewn Hyfforddiant wedi cael eu cyfweld yn rhan o'r arolwg craidd ac wedi rhoi eu caniatâd i rywun gysylltu â nhw ar gyfer y gwaith ymchwil dilynol.

¹Arolwg Sgiliau Cyflogwyr Comisiwn y DU 2015: Adroddiad Technegol, cyhoeddwyd Ionawr 2016; gwelwch <https://www.gov.uk/government/publications/ukces-employer-skills-survey-2015-uk-report>

Holiadur yr arolwg

- 1.14 Roedd yr holiadur arolwg craidd wedi'i seilio i raddau mawr ar hwnnw a ddefnyddiwyd yn arolwg 2013. Ond, ychwanegwyd meysydd ychwanegol i archwilio pa mor effeithiol y defnyddir sgiliau a chymwysterau yn y gweithlu ac y darperir hyfforddiant a hunan-ddysgu ar-lein. Cafodd y cwestiynau am benodi pobl sy'n gadael Addysg eu trosglwyddo o ESS i'r Arolwg Safbwyntiau Cyflogwyr (EPS) yn 2014 (a'r EPS 2016 cyfredol).
- 1.15 Roedd un newid allweddol i holiadur 2015 yn ymwneud â'r dulliau a ddefnyddiwyd i ganfod y sgiliau sy'n brin mewn ymgeiswyr a'r sgiliau sy'n brin ymysg staff mewnol gyda bylchau mewn sgiliau. Yn dilyn adolygiad o'r rhestrau sgiliau a ddefnyddiwyd yn 2013 gan y Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd (NIESR), mabwysiadwyd fframwaith diwygiedig mwy perthnasol i ganfod pa sgiliau y mae cyflogwyr yn eu cael yn brin yn y farchnad waith allanol ac o fewn eu gweithlu presennol.
- 1.16 Roedd oddeutu hanner y sefydliadau wedi derbyn y fframwaith sgiliau newydd, a'r hanner arall wedi cael yr "hen" fframwaith. Mae'r adroddiad yma'n cyflwyno data yn erbyn y fframwaith sgiliau newydd yn y prif gorff: I bwrpasau cyfeirio, mae dadansoddiad cyfres amser gan ddefnyddio'r "hen" fframwaith i'w weld yn Atodiad B.
- 1.17 Fel yn 2013, datblygwyd cynllun holiadur wedi'i fodwlaiddio lle gofynnwyd cwestiynau adrannau penodol (megis cwestiynau am anawsterau cadw staff, a'r rheiny sy'n canfod arferion gwaith perfformiad uchel) i ddim ond hanner yr ymatebwyr. Mae'r adroddiad yn dangos yn glir ymhle y cafodd y cwestiynau eu rhannu yn y ffordd yma.
- 1.18 Hyd y cyfweiliad ar gyfartaledd ar gyfer y brif arolwg oedd 23 munud.
- 1.19 Cafodd yr holiadur a gyflwynwyd ar gyfer Arolwg Buddsoddiad mewn Hyfforddiant blaenorol y Deyrnas Unedig yn 2013 ei ddefnyddio eto yn 2015, gyda chwestiwn ychwanegol am faint o amser a dreulir ar gyrsgiau hyfforddi ar-lein.
- 1.20 Gellir gweld copïau o'r holiaduron a ddefnyddir ar gyfer y ddau arolwg yn yr Adroddiad Technegol².

²Arolwg Sgiliau Cyflogwyr Comisiwn y Deyrnas Unedig 2015: Adroddiad Technegol, cyhoeddwyd Ionawr 2016; gwelwch <https://www.gov.uk/government/publications/ukces-employer-skills-survey-2015-uk-report>

Gwaith Maes yr Arolwg

- 1.21 Gwnaethpwyd gwaith maes ar gyfer yr arolwg craidd rhwng Mawrth a Gorffennaf 2015, ac roedd yn cynnwys 91,210 o gyfweiliadau drwy Brydain gyfan, gan gynnwys 6,027 o gyfweiliadau yng Nghymru.
- 1.22 Gwnaethpwyd gwaith maes ar gyfer yr Arolwg Buddsoddiad mewn Hyfforddiant ym misoedd Ebrill - Awst 2015 ac roedd yn cynnwys 13,197 o gyfweiliadau dilynol gyda chyflogwyr drwy Brydain gyfan. O'r rhain, roedd 1,290 gyda chyflogwyr yng Nghymru.
- 1.23 Cafwyd cyfradd ymateb cyffredinol o 44 y cant ar gyfer yr arolwg craidd yng Nghymru yn 2015 (ychydig yn uwch na'r Ffigur drwy Brydain gyfan o 42 y cant). Ar gyfer y cwestiynau dilynol am Fuddsoddiad mewn Hyfforddiant, roedd ymatebwyr yn ymwneud yn barod gyda'r arolwg felly cafwyd cyfradd ymateb llawer uwch o 66 y cant yng Nghymru, sy'n gyfatebol â'r gyfradd ymateb drwy Brydain yn gyffredinol.

Tabl 1.1: Cyfweiliadau a gwblhawyd a chyfraddau ymateb i'r arolwg

2011			2013		2015	
	DU	Cymru	DU	Cymru	DU	Cymru
Arolwg craidd						
Cyfweiliadau	86,522	5,958	91,279	5,996	91,210	6,027
Cyfradd ymateb	39%	55%	44%	45%	42%	44%
Gwaith dilynol ar ôl y Buddsoddiad mewn Hyfforddiant						
Cyfweiliadau	11,027	1,483	13,138	1,432	13,197	1,290
Cyfradd ymateb	75%	69%	71%	65%	66%	66%

Dadansoddiad data ar gyfer yr Arolwg Buddsoddiad mewn Hyfforddiant

- 1.24 Roedd y broses oedd yn gofyn cymryd y ffigurau gwariant ar hyfforddiant o ddata arolygon yn cynnwys nifer o gamau. Roedd y rhain yn cynnwys modelu i 'lenwi'r' data coll (h.y. lle'r oedd ymatebwyr wedi methu darparu ffigur union gywir ar gyfer cwestiwn yn yr arolwg), gyda'r modelu wedi'i seilio ar ddefnyddio ymatebion gan gyflogwyr tebyg a oedd wedi gallu rhoi ateb union gywir i'r cwestiwn hwnnw. Lle rhoddodd ymatebwyr ateb amrediad, rhoddwyd cyfartaledd cyfatebol iddynt ar gyfer maint eu sefydliad i'r ymateb amrediad a ddetholwyd. Lle nad oeddent yn gallu rhoi naill ai ymateb union gywir neu ymateb amrediad, aseiniwyd y cyfartaledd cyffredinol iddynt ar gyfer y cwestiwn o fewn eu band maint.
- 1.25 Cam pellach oedd defnyddio lluosyddion i gydrannau cost penodol fel a gofnodwyd yn yr arolwg er mwyn rhoi darlun mwy cyflawn o fuddsoddiad cyflogwyr mewn hyfforddiant. Er enghraifft, gofynnodd yr arolwg i gyflogwyr am gyflogau cyfartalog y rheiny a hyfforddwyd yn hytrach na'r costau llafur llawn gan gynnwys pethau megis Yswiriant Gwladol a chyfraniadau pensiwn (oherwydd cafwyd bod y costau llafur llawn yn rhy gymhleth i'w rhoi gan nifer o gyflogwyr). I gael y costau llafur llawn, rhoddwyd uwchbwysau o 16.9 y cant i'r atebion am dâl. Ffynhonnell y ffigur o 16.9 y cant oedd Eurostat a ddangosodd bod taliadau uniongyrchol yn y Deyrnas Unedig (enilion a chyflogau yn cynnwys bonysau) yn cyfrif am 85.6 y cant o'r costau llafur.

Pwysoli data

- 1.26 Mae canfyddiadau o'r arolwg craidd wedi cael eu pwysoli a'u grosio i gynrychioli'n gywir boblogaeth gyfan sefydliadau'r DU lle mae o leiaf ddau o bobl yn gweithio. Gwnaethpwyd hyn ar sail cydgloi maint yn ôl sector yng Nghymru, gyda phwysau rhimyn ychwanegol ar gyfer pedair rhanbarth Cymru.
- 1.27 Cynhyrchwyd pwysau ar wahân sy'n gadael i ganfyddiadau gael eu cyflwyno (a) ar sail y nifer o weithfannau sy'n sôn am brofiad arbennig, a (b) ar sail y nifer o weithwyr cyflogedig a/neu rolau swydd sy'n cael eu heffeithio neu mewn sefyllfa benodol. Crëwyd mecanwaith pwysoli newydd hefyd ar gyfer adrodd am y fframwaith sgiliau newydd, fel y disgrifiwyd yn gynharach.
- 1.28 Cafodd canfyddiadau'r arolwg Buddsoddiad mewn Hyfforddiant eu pwysoli a'u grosio i adlewyrchu poblogaeth o gyflogwyr sy'n hyfforddi fel y maent

wedi'u cynhyrchu gan y canfyddiadau Ton 1 wedi'u pwysoli. Gweithredwyd strategaeth bwysoli newydd yn 2015 yn benodol i'r data Buddsoddiad mewn Hyfforddiant er mwyn cynyddu cywirdeb yr amcangyfrifon am wariant ar hyfforddiant ymhellach. Mae'r strategaeth bwysoli newydd yma wedi'i gweithredu'n ôl-syllol hefyd ar gyfer y ffeiliau data 2011 a 2013 sy'n golygu y gallai rhai o'r ffigurau yr adroddwyd arnynt yn yr adran Buddsoddiad mewn Hyfforddiant ym Mhennod 5 ar gyfer 2011 a 2013 wahaniaethu ychydig bach oddi wrth adroddiadau blaenorol.

Natur sefydliadau Cymru: disgrifio poblogaeth yr arolwg

- 1.29 I roi cyd-destun i'r canfyddiadau sydd yn yr adroddiad yma, mae'r is-adran hon yn disgrifio pif nodweddion y sefydliadau busnes yng Nghymru. Mae'n archwilio maint, sector a phroffil y rhanbarth. Am fod data'r arolwg yng Nghymru wedi'i grosio i gyfateb â phoblogaeth busnesau yng Nghymru ar sail maint, sector a rhanbarth (fel y mae wedi'i gofnodi gan ONS ar yr IDBR) nid yw'r rhain yn ganfyddiadau o'r arolwg o anghenraid.
- 1.30 Mae ffigurau ONS yn dangos, o fis Mawrth 2014 (y data diweddaraf ar amser y pwysoli) bod oddeutu 81,200 o sefydliadau o fewn y gofynion (h.y. yn cyflogi dau neu fwy) yng Nghymru. Roedd bron i 1.2 miliwn o bobl wedi eu cyflogi yn y sefydliadau yma. Roedd y ddau ffigur yma'n cyfateb gydag arolwg 2013, a ddefnyddiodd ddata poblogaeth mis Mawrth 2012.
- 1.31 Mae data IDBR yn dangos bod ychydig dros hanner sefydliadau Cymru (52 y cant) yn fach, ac yn cyflogi llai na phump o bobl. Fodd bynnag, roedd y sefydliadau yma'n cyfrif am ddim ond naw y cant o'r gyflogaeth gyfan (o fewn sefydliadau gyda dau neu fwy o staff). Mae safleoedd sy'n defnyddio 100 neu fwy o staff yn cynrychioli dau y cant o'r holl sefydliadau ond yn cyfrif am oddeutu dwy ran o bump (41 y cant) o'r gyflogaeth gyfan. Roedd dosbarthiad sefydliadau a chyflogaeth yn ôl maint yn debyg yng Nghymru i weddill y DU.
- 1.32 Mae dadansoddiad yn ôl y sector yn y gyfres ESS yn defnyddio 13 o sectorau, ar sail cod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2007 y sefydliad. Mae ystadegau IDBR yn dangos mai'r sectorau Gwasanaethau Busnes a Chyfanwerthu a Manwerthu oedd y ddau fwyaf yn nhermau'r nifer o sefydliadau. Gyda'i gilydd, roedd y ddau sector yma'n cyfrif am fwy na thraean o sefydliadau yng Nghymru (35 y cant). O'u mesur yn nhermau

cyflogaeth, fodd bynnag, y ddau sector mwyaf oedd Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chyfanwerthu a Manwerthu (yn cyflogi 17 a 16 y cant o'r gweithlu yng Nghymru yn y drefn honno).

- 1.33 Mewn gwrthgyferbyniad â phatrymau maint roedd gwahaniaethau amlycach rhwng proffil sector busnesau yng Nghymru a'r rheiny ar draws y DU. Yn arbennig, roedd sefydliadau Amaethyddiaeth yn llawer mwy cyffredin yng Nghymru (12 y cant o'r holl sefydliadau yng Nghymru o'i gymharu â dim ond chwech y cant ar draws y DU gyfan), tra bo sefydliadau Gwasanaethau Busnes yn llai cyffredin (15 y cant o'i gymharu gyda 21 y cant ar draws y DU).
- 1.34 Cafodd y sectorau Iechyd a Gwaith Cymdeithasol, Gweinyddu Cyhoeddus, Addysg a Gweithgynhyrchu gyfran uwch na'r cyfartaledd o sefydliadau mawr. Er enghraifft, roedd Addysg yn cyfrif am dri y cant o'r holl sefydliadau yng Nghymru, ond 11 y cant o'r gyflogaeth. I'r gwrthwyneb, roedd y sector Amaethyddiaeth yn cynnwys 12 y cant o sefydliadau, ond yn cyflogi dim ond dau y cant o'r gweithlu yng Nghymru.
- 1.35 Mae Tabl 1.2 yn dangos dosbarthiad y poblogaethau busnes a chyflogaeth yng Nghymru ac ar draws y DU. Ychydig iawn o wahaniaeth oedd ym mhroffil sefydliadau a chyflogaeth yng Nghymru rhwng 2013 a 2015.

Tabl 1.2 Poblogaeth cyflogaeth a busnes Cymru a'r DU yn ôl maint a sector

	Sefydliad			Cyflogaeth		
	Cymru n	Cymru %	DU %	Cymru n	Cymru %	DU %
Maint						
2-4	42,600	52	51	111,400	9	9
5-24	30,500	38	38	303,400	25	24
25-49	4,400	5	6	151,200	13	12
50-99	2,100	3	3	143,800	12	12
100+	1,600	2	2	483,900	41	42
Sector						
Amaethyddiaeth	9,500	12	6	27,300	2	1
Gweithgynhyrchu	4,300	5	6	133,400	11	9
Trydan, Nwy a Dŵr	600	1	1	17,800	1	1
Adeiladu	7,200	9	9	54,900	5	4
Cyfanwerthu a Manwerthu	16,900	21	21	189,900	16	16
Gwestai a Bwytai	8,400	10	9	88,800	7	7
Cludiant a Chyfathrebu	4,400	5	7	60,900	5	8
Gwasanaethau Cyllid	1,500	2	2	28,300	2	4
Gwasanaethau Busnes	11,900	15	21	131,600	11	17
Gweinyddu Cyhoeddus	1,200	2	1	87,400	7	5
Addysg	2,800	3	3	126,000	11	9
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	7,000	9	7	197,400	17	14
Celfyddydau a Gwasanaethau Eraill	5,500	7	7	50,100	4	5

Nodwch: mae'r ffigurau wedi eu talgrynnu i'r 100 agosaf. Maent yn cynrychioli ffigurau poblogaeth fel y cânt eu defnyddio yn arolwg ESS 2015, wedi eu cymryd o ffigurau poblogaeth ONS IDBR 2014.

- 1.36 Yn ôl y rhanbarth, roedd De ddwyrain Cymru'n cyfrif am ddwy ran o bump (40 y cant) o fusnesau, a bron i hanner (49 y cant) y gyflogaeth yn gyffredinol. Roedd Gogledd Cymru (25 y cant) a de orllewin Cymru (23 y cant) yn cyfrif am oddeutu chwarter y busnesau yng Nghymru, gyda chyfrannau tebyg o gyflogaeth (23 y cant a 22 y cant, yn y drefn honno). Roedd un ymhob wyth o sefydliadau (12 y cant) wedi eu lleoli yng nghanolbarth Cymru (gyda'r gyflogaeth gyffredinol yn saith cant). Unwaith eto, doedd hyn ddim wedi dangos unrhyw newid ers 2013.

Stwythur yr adroddiad hwn

1.37 Mae'r adroddiad yma wedi'i strwythuro'n bum adran allweddol, ac yn dilyn hynny bennod o Gasgliadau.

- Pennod 2: Recriwtiad a swyddi gwag gyda phrinder sgiliau

Mae'r bennod hon yn edrych ar weithgareddau penodi cyflogwyr, yn mesur maint, achosion ac effeithiau anawsterau recriwtio, gyda ffocws arbennig ar brinder sgiliau yn y farchnad lafur, natur y prinderau sgiliau yma, a'r effaith y mae methiant o'r fath yn y farchnad lafur yn ei chael ar y sefydliadau. Yna mae'n archwilio'r anawsterau y mae cyflogwyr yn eu wynebu o ran cadw staff, ym mha alwedigaethau y mae'r rhain yn digwydd fel arfer, a'r prif resymau am eu hanawsterau cadw staff.

- Pennod 3: Y sialens sgiliau mewnol

Mae'r bennod hon yn archwilio maint a natur y bylchau mewn sgiliau o fewn y gweithlu, a sut mae'r rhain yn effeithio ar wahanol alwedigaethau, yn ogystal ag achosion ac effaith y diffygion yma mewn sgiliau.

- Pennod 4: Safbwyntiau cyflogwyr o ran tanddefnyddio sgiliau a chymwysterau

Mae Pennod 4 yn ymdrin â thanddefnyddio sgiliau lle mae sefydliadau'n dweud bod gan weithwyr cyflogedig sgiliau a chymwysterau y tu hwnt i'r rheiny sy'n ofynnol ar gyfer rôl bresennol eu swyddi. Mae'n archwilio'r alwedigaeth sy'n cael ei heffeithio fwyaf gan danddefnydd, a'r rhesymau am y gwrthgyfatebiaeth yma rhwng sgiliau a rolau swyddi.

- Pennod 5: Buddsoddiad cyflogwyr mewn hyfforddiant a sgiliau

Mae Pennod 5 yn archwilio'n fanwl natur a maint yr hyfforddiant gan gyflogwyr a datblygiad y gweithlu, gan gynnwys y buddsoddiad a wneir mewn hyfforddiant. Mae'n archwilio'r nifer o staff a gafodd hyfforddiant dros y 12 mis blaenorol, math a maint yr hyfforddiant yma, i ba raddau y byddai cyflogwyr wedi hoffi darparu mwy o hyfforddiant a datblygiad nag a ddarparwyd ganddynt, a'r rhwystrau a ataliodd gynnydd mewn gweithgareddau hyfforddi.

- Pennod 6: Arferion gweithio a strategaethau marchnad y cynnyrch

Mae Pennod 6 yn archwilio'r arferion gweithio sy'n cael eu mabwysiadu gan gyflogwyr mewn perthynas â'r ffordd maen nhw'n rheoli, datblygu, ymgysylltu gyda ac yn cymell eu staff, ac yn ceisio asesu pa mor amlwg yw arferion Gweithio Perfformiad Uchel (GPU).

Mae hefyd yn archwilio Strategaethau Marchnad y Cynnyrch (SMC) cyflogwyr, ac a yw hyn yn berthnasol i'w hanghenion sgiliau a'u harferion hyfforddi.

- Pennod 7: Casgliadau

Mae'r bennod olaf yn ail edrych ar y straeon allweddol sy'n dod i'r amlwg o wahanol ffrydiau'r arolwg, gan ddod â nhw ynghyd ac ystyried eu goblygiadau.

Confensiynau Adrodd

- 1.38 Heblaw ei fod yn dweud yn wahanol, rhoddir sylwadau ar wahaniaethau yn y testun os yw'r canlyniadau'n arwyddocaol yn ystadegol (ar y lefel hyder o 95 y cant) i'r rheiny y maent yn cael eu cymharu â nhw.
- 1.39 Gwnaethpwyd yr arolwg ar lefel sefydliadol. Defnyddir y termau "sefydliad", "cyflogwr", "gweithle" ac "uned fusnes" oll ar gyfer yr un peth yn yr adroddiad yma i osgoi ailadrodd gormodol.
- 1.40 Dangosir ffigurau ar sail heb eu pwysoli ar dablau a siartiau i roi syniad o ddibynadwyedd ystadegol y ffigurau. Mae'r ffigurau yma wedi eu seilio bob amser ar nifer y *sefydliadau* sy'n ateb cwestiwn, am mai dyma'r wybodaeth sy'n ofynnol i ganfod pa mor ddibynadwy ydyw'n ystadegol. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, lle mae canrannau wedi eu seilio ar "yr holl swyddi gwag" (megis y canran o'r holl swyddi gwag sy'n anodd eu llenwi) y ffigur sylfaenol a ddyfynnir yw'r nifer heb eu pwysoli o sefydliadau gyda swyddi gwag.
- 1.41 Yn wahanol i arolygon blaenorol, mae cyflogwyr ym maes Cloddio a Chwarela wedi cael eu cyfuno gyda'r rheiny mewn Gweithgynhyrchu i bwrpasau adrodd, oherwydd y nifer gweddol isel o sefydliadau y maent yn eu cynrychioli ym mhoblogaeth y Deyrnas Unedig. Mae ffigurau 2011 a 2013 ar gyfer Gweithgynhyrchu felly wedi cael eu haddasu yn yr adroddiad yma i gynnwys Cloddio a Chwarela er mwyn caniatáu cymhariaethau cyfresi amser. Mae gan Atodiad C fwy o wybodaeth ar godio sectorau.
- 1.42 I helpu gyda'r dadansoddiad rydym weithiau wedi adrodd am alwedigaethau wedi eu categorio ymhellach i rolau sgiliau uchel, sgiliau canolig, gwasanaeth-ddwys a llafur-ddwys, fel y gwelwch yn Nhabl 1.3.

Tabl 1.3 Grwpiau galwedigaethol eang

Galwedigaeth benodol	Grŵp galwedigaethol eang
Rheolwyr Pobl broffesiynol Pobl broffesiynol cyswllt	Sgil Uchel
Gweinyddol a Chlerigol Masnachau Medrus	Sgil Canolig
Gofalu, Hamdden a Gwasanaethau Eraill Gwerthiannau a Gwasanaeth y Cwsmer	Gwasanaeth-ddwys
Gweithredwyr Peiriannau Galwedigaethau Elfennol	Llafur-ddwys

- 1.43 Fel arfer, mae cyflogwyr mwy y cyfeirir atynt yn yr adroddiad yma'n cynnwys pob un o'r rheiny gyda 100 neu fwy o staff ar eu safle (yn hytrach na 250+).
- 1.44 Mewn tablau, dynodir "sero" gan linell ("-"); a defnyddir seren ("**") os yw'r Ffigur yn uwch na sero ond yn is na 0.5 y cant.
- 1.45 Trwy gydol yr adroddiad yma, ni adroddir am ffigurau gyda maint sail o lai na 25 sefydliad (yn lle hynny, dangosir seren ddwbl "**"), a dylid bod yn ofalus wrth drin ffigurau gyda sail o faint 25 i 49 sydd hefyd wedi eu dangos mewn ffont italig.

2. Penodi a swyddi gwag lle mae prinder sgiliau

Crynodeb o'r Bennod

- 2.1 Yn unol â'r cynnydd cyffredinol yng ngweithgareddau'r farchnad benodi ar lefel Brydeinig ers 2013, **cafwyd tyfiant sylweddol yn y nifer o gyflogwyr yng Nghymru hefyd a oedd yn weithredol yn y farchnad benodi.** Roedd gan oddeutu un ymhob chwech o sefydliadau (17 y cant) o leiaf un swydd wag gyffredol ar amser yr arolwg (Mawrth i Orffennaf 2015), i fyny o 14 y cant yn 2013. Roedd nifer y swyddi gwag yr adroddwyd amdanynt yn uwch hefyd: oddeutu 36,000 ar amser yr arolwg (yn gyfatebol â 3.1 y cant o'r gyflogaeth gyfan) o'i gymharu gyda 26,000 yn 2013 (2.2 y cant o'r gyflogaeth gyfan).
- 2.2 Gallai gallu cyflogwyr i benodi a thyfu gael ei gyfyngu gan brinder sgiliau yn y farchnad lafur. Er bod y galw gan gyflogwyr am sgiliau yn cael ei ateb yn y mwyafrif o achosion gan recriwtio llwyddiannus, roedd swyddi gwag gyda phrinder sgiliau (swyddi gwag y mae cyflogwyr yn eu cael yn anodd eu llenwi oherwydd prinder sgiliau, cymwysterau neu brofiad ymysg ymgeiswyr) yn cyflwyno her gynyddol. **Roedd gan chwech y cant o gyflogwyr yng Nghymru o leiaf un swydd wag lle'r oedd prinder sgiliau** ar amser yr arolwg, i fyny o bedwar y cant yn 2013. Yn nhermau maint, roedd bron i 9,000 o swyddi gyda phrinder sgiliau yn 2015; sef cynnydd sylweddol o'r 5,000 yr adroddwyd amdanynt yn 2013.
- 2.3 Roedd y cynnydd yn y nifer o swyddi gwag gyda phrinder sgiliau yn uwch na'r tyfiant yn y nifer o swyddi gwag. Felly, mae dwysedd y swyddi gwag lle mae prinder sgiliau (h.y. y gyfran o swyddi gwag lle'r oedd cyflogwyr yn cael trafferth eu llenwi oherwydd prinder sgiliau) wedi cynyddu ers 2013: o 20 y cant i 24 y cant.
- 2.4 Roedd mynychdra'r achosion o gyflogwyr oedd â swyddi gwag gyda phrinder sgiliau yn gwahaniaethu yn ôl yr alwedigaeth. **Roedd dwysedd y swyddi gwag gyda phrinder sgiliau ar ei uchaf mewn Masnachau Medrus** (roedd 4 y cant o'r holl swyddi gwag ar gyfer yr alwedigaeth yma'n anodd eu llenwi oherwydd prinder sgiliau) ond **cafwyd cynnydd mawr yn nwysedd y swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau i Weithredwyr Peiriannau** (o 25 y cant yn 2013 i 40 y cant yn 2015).
- 2.5 Roedd y sgiliau oedd yn brin ymysg ymgeiswyr yn cynnwys sgiliau pobl a phersonol yn ogystal â sgiliau technegol ac ymarferol. Y sgiliau yn ymwneud ag

agweddau gweithredol y rôl, yn ogystal â sgiliau dadansoddi cymhleth, oedd y prif sgiliau technegol ac ymarferol oedd yn brin. Soniodd y cyflogwyr hefyd am brinder sgiliau iaith Gymraeg llafar (15 y cant o'r holl swyddi gwag lle mae prinder sgiliau) a sgiliau iaith Gymraeg ysgrifenedig (11 y cant). Roedd y prif sgiliau pobl a phersonol oedd yn brin yn ymwneud yn gyffredinol gyda sgiliau rheoli amser, sgiliau rheolaeth a sgiliau arweinyddiaeth, a sgiliau trin cwsmeriaid a gwerthiannau.


Cyflwyniad

- 2.6 Ar lefel facro, mae penodi'n ddangosydd o iechyd y farchnad lafur a'r economi yn gyffredinol. Mae Arolwg Sgiliau Cyflogwyr Comisiwn y DU 2015 yn rhoi cipolwg ar lefel a natur y galw gan gyflogwyr am staff newydd a gallu'r farchnad lafur i ateb galw o'r fath.
- 2.7 Pan fydd swyddi gwag gan gyflogwyr, mae'r farchnad waith naill ai'n gallu cwrdd â gofynion cyflogwyr (y senario fwyaf cyffredin) neu'n methu gwneud hynny. Yn dilyn dadansoddiad byr o swyddi gwag, mae'r bennod hon yn canolbwyntio'n benodol ar swyddi gwag gyda phrinder sgiliau: mae'r rhain yn swyddi gwag y mae cyflogwyr yn ei chael hi'n anodd eu llenwi oherwydd prinder ymgeiswyr yn y farchnad waith sydd â'r sgiliau, y cymwysterau a/neu y profiad gofynnol. Mae'r mathau yma o swyddi gwag o ddiddordeb polisi penodol o ystyried bod systemau addysg a hyfforddiant yn amlwg yn gallu dylanwadu ar y cyflenwad o ymgeiswyr gyda'r sgiliau priodol.
- 2.8 Mae'r bennod yn archwilio mynychdra, maint a phroffil y swyddi gwag gyda phrinder sgiliau, cyn archwilio'r sgiliau penodol yr oedd cyflogwyr yn eu cael yn brin a'r effaith y mae swyddi gwag gyda phrinder sgiliau wedi'i chael ar y sefydliad. Yn newydd ar gyfer ESS 2015 roedd rhestr ddiwygiedig o ddisgrifwyr sgiliau a ddefnyddiwyd i ddeall yn well y sgiliau oedd yn brin³. Mae rhagor o fanylion am y newidiadau a wnaed i'r disgrifwyr sgiliau yn y Cyflwyniad i'r adroddiad.
- 2.9 Gall swyddi gwag fod yn 'anodd eu llenwi' hefyd am resymau eraill nad ydynt yn ymwneud â sgiliau (megis cyfraddau talu gwael, oriau anghymdeithasol ac

³ Aseiniwyd hanner y cyflogwyr gyda swyddi gwag lle mae prinder sgiliau i'r disgrifwyr sgiliau 'newydd', ac aseiniwyd yr hanner arall i'r 'hen' ddisgrifwyr sgiliau a ddefnyddiwyd yn ESS 2011 a 2013 i hwyluso cymhariaethau dros amser. Mae data cyfresi amser a dadansoddiad o'r sgiliau sy'n brin ymysg ymgeiswyr yn ôl yr 'hen' ddisgrifwyr sgiliau wedi eu cynnwys yn Atodiad B. Mae rhagor o wybodaeth am y newidiadau i'r disgrifwyr sgiliau a ddefnyddir i'w cael yn Adroddiad Technegol ESS 2015 (<https://www.gov.uk/government/publications/ukces-employer-skills-survey-2015-uk-results>).

ati) a thrafodir y rhain yn ddiweddarach yn y bennod hon, ac yn dilyn hynny mae adolygiad o anawsterau cadw staff.

2.10 Dyma'r mesurau allweddol a ddefnyddir yn y bennod hon:



Swyddi gwag

2.11 Roedd tyfiant amlwg yn y gyfran o sefydliadau oedd yn sôn am swyddi gwag rhwng 2013 a 2015, gan bwyntio at weithredu cryf y farchnad lafur a newidiadau positif yn economi Cymru, yn unol â'r newidiadau a welwyd yn economi'r DU gyfan. Yn benodol, roedd gan 17 y cant o'r holl sefydliadau yng Nghymru o leiaf un swydd wag gyfredol ar amser gwaith maes ESS 2015; sef cynnydd sylweddol o 2013 pan oedd gan 14 y cant o sefydliadau o leiaf un swydd wag (gwelwch Dabl 2.1).

2.12 Roedd yr achosion cynyddol yma o weithrediadau penodi yn amlwg hefyd wrth ystyried y gyfran o sefydliadau oedd wedi llwyddo i benodi o leiaf un cyflogai newydd dros y 12 mis cyn yr arolwg. Roedd ychydig llai na hanner (49 y cant) yr holl sefydliadau yng Nghymru wedi llwyddo i benodi rhywun yn ystod y cyfnod yma; cynnydd o'r 42 y cant y soniwyd amdano yn Arolwg Safbwyntiau Cyflogwyr 2014 (Shury et al., 2014).

2.13 O ran maint, roedd oddeutu 36,000 o swyddi gwag y soniwyd amdanynt yng Nghymru ar amser yr arolwg (yn gyfatebol gyda 3.1 y cant o'r gyflogaeth gyfan). Mae hyn yn gynnydd o 42 y cant o'i gymharu gyda 2013 pan oedd oddeutu 26,000 o swyddi gwag (yn gyfatebol gyda 2.2 y cant o'r gyflogaeth gyfan).

2.14 Fel y gwelwchyn Nhabl 2.1, roedd y tyfiant mewn gweithgareddau penodi'n amlwg yn yr holl ranbarthau Cymreig, gyda mynychdra dwysedd y swyddi gwag wedi cynyddu ymhob un. Dylid nodi fodd bynnag mai dim ond yng ngogledd a de ddwyrain Cymru y mae'r cynyddiadau ym mynychdra'r swyddi gwag ers 2013 yn ystadegol arwyddocaol (a dim ond yn ne ddwyrain Cymru lle mae'r cynnydd yn nwysedd y swyddi gwag yn ystadegol arwyddocaol).

Tabl 2.1 Dwysedd y swyddi gwag yn gyffredinol ac yn ôl y rhanbarth

		% o sefydliadau gyda swydd wag (mynychdra)			Swyddi gwag fel % o'r gyflogaeth (dwysedd)		
<i>Sail heb ei bwysoli</i>		2011	2013	2015	2011	2013	2015
	2015	%	%	%	%	%	%
DU	91,210	14	15	19	2.2	2.4	3.3
Cymru	6,027	12	14	17	1.9	2.2	3.1
Rhanbarth							
Gogledd Cymru	1,528	11	14	17	1.6	2.4	2.9
Canolbarth Cymru	742	11	11	13	2.9	1.8	2.4
De ddwyrain Cymru	2,395	14	14	19	1.9	2.0	3.2
De orllewin Cymru	1,362	11	14	15	2.0	2.6	3.2
Rhanbarthau CGE							
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	3,645	12	14	15	2.0	2.2	2.6
Dwyrain Cymru	2,382	13	13	20	1.8	2.2	3.7

Sail: Pob sefydliad.

Dangosir y canrannau yn y dair golofn olaf fel cyfran o'r holl gyflogaeth

Nodwch y gallai ffigurau 2011 wahaniaethu oddi wrth adroddiad 2011 oherwydd ailbwysoli.

2.15 Roedd y gyfran o sefydliadau a soniodd bod ganddynt o leiaf un swydd wag wedi cynyddu gyda maint y sefydliad. Roedd o leiaf un swydd wag gan ddeg y cant o sefydliadau sydd â llai na phump o weithwyr cyflogedig, o'i gymharu â 59 y cant o sefydliadau gyda 100 neu fwy o weithwyr cyflogedig. Ar y llaw arall, roedd dwysedd y swyddi gwag (h.y. fel cyfran o gyflogaeth) yn fwy ymysg sefydliadau llai.

2.16 Yn ôl y sector, roedd y gyfran o sefydliadau a adroddodd am swyddi gwag yn amrywio o bump y cant mewn Amaethyddiaeth i 26 y cant mewn Gweinyddu Cyhoeddus. Mae'r achosion o swyddi gwag wedi cynyddu'n sylweddol mewn tri sector ers 2013: Adeiladu (o naw y cant i 16 y cant), Gwasanaethau Busnes (o 13 y cant i 18 y cant) a Chludiant, Storio a Chyfathrebu (o 12 y cant i 17 y cant).

- 2.17 Roedd dwysedd y swyddi gwag yn amrywio o 1.5 y cant o'r gyflogaeth gyfan mewn Addysg a Gweithgynhyrchu i 5.6 y cant mewn Gwasanaethau Busnes. Roedd dwysedd y swyddi gwag wedi cynyddu yn y mwyafrif o sectorau ers 2013. Ond, dim ond mewn Gwasanaethau Busnes lle'r oedd y cynnydd yn ystadegol arwyddocaol (o 2.6 y cant yn 2013 i 5.6 y cant yn 2015) y gwelwyd hyn.
- 2.18 Mae tablau A.2.1 a A.2.2 yn Atodiad A yn rhoi dadansoddiad manwl o weithgareddau penodi yn ôl y rhanbarth, maint y sefydliad a'r sector.
- 2.19 Mae'r arolwg hefyd yn pennu'r grwpiau galwedigaethol lle mae swyddi gwag yn bodoli⁴. Yr alwedigaeth gyda'r dwysedd uchaf o swyddi gwag oedd Pobl broffesiynol cyswllt, sef 6.7 y cant (h.y. oddeutu saith o swyddi gwag i bob 100 o bobl yn gweithio yn y rôl yma). Roedd gan yr alwedigaeth yma hefyd y dwysedd uchaf o swyddi gwag yn 2011 a 2013. Gan ddilyn patrwm tebyg i weddill y DU, roedd dwysedd y swyddi gwag yn weddol uchel hefyd ar gyfer rolau Masnachau Medrus a Galwedigaethau Elfennol (4.5 y cant a 4.6 y cant yn y drefn honno) ac ar y lefel isaf i Reolwyr (0.8 y cant).
- 2.20 Mae Tabl A.2.3 yn Atodiad A yn rhoi dadansoddiad manwl o'r gweithgareddau penodi yn ôl yr alwedigaeth.

Swyddi gwag lle mae prinder sgiliau

- 2.21 Lle'r oedd gan sefydliadau swyddi gwag, roedd y farchnad lafur yn gallu cwrdd ag anghenion recriwtio cyflogwyr i raddau mawr; roedd oddeutu traean o'r swyddi gwag yng Nghymru'n cael eu hystyried yn anodd eu llenwi (33 y cant)⁵. Lle'r oedd gan gyflogwyr swyddi gwag anodd eu llenwi, roedd y rhain yn bennaf oherwydd diffyg sgiliau, cymwysterau neu brofiad ymysg ymgeiswyr (73 y cant o'r holl swyddi gwag a oedd yn anodd eu llenwi)⁶ ac roedd hyn yn uwch na'r DU yn gyffredinol (69 y cant). Mae hyn yn gyfartal â chwech y cant o sefydliadau yng Nghymru sydd ag o leiaf un swydd wag lle mae prinder sgiliau ar amser maes gwaith ESS 2015 (yn unol â'r DU yn gyffredinol). Mae gweddill

⁴Gwelwch Atodiad D i weld y diffiniadau a'r mathau o rolau swyddi wedi eu cynnwys o dan y grwpiau galwedigaethol.

⁵Wrth gwrs, efallai nad yw swyddi gwag diweddar iawn wedi eu disgrifio fel rhai anodd eu llenwi ond gallent fynd felly dros amser.

⁶Yn ystod yr arolwg, y cyflogwyr oedd y cyntaf y gofynnwyd iddynt roi eu rhesymau am beidio gallu llenwi swyddi gwag ar unwaith (h.y. heb gael eu cyflwyno gyda rhestr o resymau posibl). Yna cafodd unrhyw gyflogwyr oedd heb sôn am faterion yn ymwneud â sgiliau eu hybu i ddweud a oedd unrhyw rai o'u swyddi gwag yn anodd eu llenwi oherwydd diffyg sgiliau, profiad neu gymwysterau ymysg ymgeiswyr, ac roedd yr ymatebion yma'n cyfuno i roi darlun cyffredinol o fynychdra a maint y swyddi gwag gyda phrinder sgiliau yn y farchnad.

yr adran hon yn archwilio'r swyddi gwag yma gyda phrinder sgiliau yn fwy manwl.

Mynychdra, maint a dwysedd y swyddi gwag lle mae prinder sgiliau

- 2.22 Mae'r chwech y cant o sefydliadau yng Nghymru sydd ag o leiaf un swydd wag gyda phrinder sgiliau ar amser gwaith maes yr ESS 2015 yn sylweddol uwch na'r pedwar y cant a ddywedodd bod ganddynt swyddi gwag gyda phrinder sgiliau yn 2013. Yn debyg i'r darlun cyffredinol yn y DU, mae'r cynnydd yma yn yr achosion o swyddi gwag gyda phrinder sgiliau yn dangos bod penodi staff gyda digon o sgiliau, cymwysterau neu brofiad yn cyflwyno her gynyddol i gyflogwyr yng Nghymru.
- 2.23 Yn fwy na dim, o ran maint, roedd cynnydd sylweddol o 71 y cant yn y nifer o swyddi gwag y soniwyd amdanynt gyda phrinder sgiliau o'i gymharu â 2013: o oeddeutu 5,000 i ychydig llai na 9,000. Mae'r cynnydd yn y nifer o swyddi gwag gyda phrinder sgiliau'n uwch na'r tyfiant mewn swyddi gwag ac felly mae dwysedd y swyddi gwag gyda phrinder sgiliau wedi cynyddu ers 2013, o 20 y cant i 24 y cant.
- 2.24 Fel y gwelir yn Nhabl 2.2, ychydig iawn o wahaniaeth oedd yn yr achosion o swyddi gwag gyda phrinder sgiliau o ranbarth i ranbarth. Ond, fe amrywiodd dwysedd y swyddi gwag gyda phrinder sgiliau: o 22 y cant yn Ne orllewin Cymru i 34 y cant yng Nghanolbarth Cymru.
- 2.25 Dylid cofio wrth ystyried dwysedd y swyddi gwag gyda phrinder sgiliau yr adroddwyd amdanynt yn y bennod mai dim ond ar gyfran fechan o gyflogwyr (chwech y cant) y maent yn cael effaith.

Tabl 2.2 Mynychdra a dwysedd swyddi gwag gyda phrinder sgiliau (SgPS) yn gyffredinol ac yn ôl y rhanbarth

	% o sefydliadau gyda SgPS (mynychdra)				% o swyddi gwag oedd yn SgPS (dwysedd)			
	<i>Sail heb ei bwysoli</i> 2015	2011	2013	2015	<i>Sail heb ei bwysoli</i> 2015	2011	2013	2015
DU	91,210	3	4	6	24,306	16	22	23
Cymru	6,027	3	4	6	1,277	18	20	24
Rhanbarth								
Gogledd Cymru	1,528	2	4	6	308	17	14	27
Canolbarth Cymru	742	4	3	5	137	32	21	34
De ddwyrain Cymru	2,395	3	4	6	558	16	23	23
De orllewin Cymru	1,362	4	4	5	274	16	20	22
Rhanbarthau CGE								
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	3,645	3	4	5	707	16	20	22
Dwyrain Cymru	2,382	3	4	8	570	21	20	26

Sail: Colofnau 1-3 ymhob sefydliad; colofnau 4-6 ymhob sefydliad gyda swyddi gwag


Mae'r canrannau yn y dair golofn olaf yn cael eu dangos fel cyfran o'r holl swyddi gwag.

Nodwch y gallai ffigurau 2011 wahaniaethu oddi wrth adroddiad 2011 oherwydd ailbwysoli.

- 2.26 Roedd dwysedd y swyddi gwag gyda phrinder sgiliau'n uwch ymysg sefydliadau llai na'r rhai mwy. Roedd bron i ddwy swydd wag ymhob pump (37 y cant) mewn sefydliadau gyda llai na phump cyflogai yn anodd eu llenwi oherwydd anawsterau mewn canfod ymgeiswyr gyda sgiliau, cymwysterau neu brofiad priodol. Mae hyn yn cymharu gydag oddeutu un ymhob pump o swyddi gwag (20 y cant) ymysg sefydliadau gyda 100 neu fwy o weithwyr cyflogedig.
- 2.27 Roedd y profiad o swyddi gwag gyda phrinder sgiliau'n amrywio'n fawr yn ôl y sector. Roedd dwysedd y swyddi gwag gyda phrinder sgiliau'n amrywio o naw y cant mewn Addysg i 40 y cant mewn Adeiladu. Fel y gwelwch yn Ffigur 2.1, mae'r mwyafrif o sectorau wedi gweld cynnydd yn nwysedd y swyddi gwag gyda phrinder sgiliau ers 2013 gyda'r cynnydd mwyaf amlwg yn y sector Adeiladu (o 21 y cant yn 2013 i 40 y cant yn 2015). Mae hyn yn gwyrddio'r duedd y sonir amdani yn 2013 lle'r oedd y sector Adeiladu wedi gweld gostyngiad yn nwysedd y swyddi gwag rhwng 2011 a 2013. Hefyd gwelodd y sector Celfyddydau, Adloniant, Hamdden a Gwasanaethau Eraill gynnydd mawr yn nwysedd y swyddi gwag gyda phrinder sgiliau (o 11 y cant i 28 y cant).


2.28 Mae Tablau A.2.4 a A.2.5 yn Atodiad A yn rhoi manylion y swyddi gwag gyda phrinder sgiliau yn ôl y rhanbarth, maint y sefydliad a'r sector.

Ffigur 2.1 Dwysedd a nifer y swyddi gwag gyda phrinder sgiliau (SgPS), yn ôl y sector



2.29 Yn ôl yr alwedigaeth, roedd nifer y swyddi gwag gyda phrinder sgiliau ar ei uchaf ymysg staff mewn rolau Masnachau Medrus (oddeutu 1,700 o swyddi gwag gyda phrinder sgiliau) ac roedd dwysedd y swyddi gwag lle mae prinder sgiliau ar ei uchaf hefyd ar gyfer yr alwedigaeth hon ar 43 y cant. Fel y gwelwch yn Ffigur 2.2, mae dwysedd y swyddi gwag gyda phrinder sgiliau wedi cynyddu amlycaf ers 2013 yn y categori Pobl Broffesiynol Cyswllt, Gweithredwyr Peiriannau, Galwedigaethau Elfennol a Phobl Broffesiynol.

Ffigur 2.2 Dwysedd a nifer y swyddi gwag lle mae prinder sgiliau (SgPS), yn ôl galwedigaeth



Mae Tabl A.2.6 yn Atodiad A yn rhoi manylion dwysedd y swyddi gwag gyda phrinder sgiliau i bob galwedigaeth yn ôl y Rhanbarth.


Sgiliau sy'n brin yn y farchnad lafur

- 2.30 Lle mae sefydliadau'n ei chael hi'n anodd canfod y recriwtiaid medrus y maent eu hangen o'r cyflenwad llafur sydd ar gael, mae gwerth amlwg mewn deall pa sgiliau sy'n brin.
- 2.31 Gelli categorio'r sgiliau hynny sydd i'w gweld yn brin yn y farchnad waith i ddauategori'n fras: pobl a sgiliau personol, a sgiliau ymarferol a thechnegol⁷.
- 2.32 Mae'r sgiliau a gafwyd yn brin yn y farchnad lafur sydd ar gael i'w gweld yn Ffigur 2.3. Y prinder sgiliau amlycaf oedd diffyg sgiliau a gwybodaeth arbenigol oedd yn angenrheidiol i wneud rôl y swydd. Crybwyllwyd hyn, o leiaf yn rhannol, fel y rheswm am fwy na dwy ran o dair o'r swyddi gwag gyda phrinder sgiliau (69 y cant).
- 2.33 Ymysg y sgiliau ymarferol a thechnegol eraill sy'n brin, roedd y sgiliau y gellid eu categorio fel 'sgiliau dadansoddol cymhleth' yn cyfrif am gyfran sylweddol o swyddi gwag gyda phrinder sgiliau. Yn benodol, mae diffyg sgiliau datrys problemau cymhleth yn cyfrif am 44 y cant o'r holl swyddi gwag gyda phrinder sgiliau a 26 y cant o'r holl swyddi gwag gyda phrinder sgiliau oherwydd prinder sgiliau ystadegol/rhifyddol cymhleth.
- 2.34 Yn yr un modd, roedd cyflogwyr yn aml yn cyfeirio at sgiliau sy'n ymwneud ag agweddau gweithredol o'r rôl, sef: gwybodaeth am y ffordd mae'r sefydliad yn gweithio (42 y cant) a gwybodaeth am y cynhyrchion a'r gwasanaethau a gynigir (41 y cant).
- 2.35 Roedd oddeutu un ymhob saith (15 y cant) o swyddi gwag gyda phrinder sgiliau wedi eu hachosi, o leiaf yn rhannol, gan ddiffyg sgiliau Cymraeg llafar, ac 11 y cant wedi'u hachosi gan brinder sgiliau Cymraeg ysgrifenedig.
- 2.36 O'i gymharu gyda'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol, dyranwyd cyfran fwy o swyddi gwag gyda phrinder sgiliau yng Nghymru i brinder y sgiliau technegol ac ymarferol a ganlyn: gwybodaeth am y ffordd mae'r sefydliad yn gweithio; ysgrifennu cyfarwyddiadau ac adroddiadau; ac addasu i offer a deunyddiau newydd.

⁷Aseiniwyd hanner y cyflogwyr gyda swyddi gwag lle mae prinder sgiliau i'r disgrifwyr sgiliau 'newydd', ac aseiniwyd yr hanner arall i'r 'hen' ddisgrifwyr sgiliau a ddefnyddiwyd yn ESS 2011 a 2013 i hwyluso cymhariaethau dros amser. Mae data cyfresi amser a dadansoddiad o'r sgiliau sy'n brin ymysg ymgeiswyr yn ôl yr 'hen' ddisgrifwyr sgiliau wedi eu cynnwys yn Atodiad B. Mae rhagor o wybodaeth am y newidiadau i'r disgrifwyr sgiliau a ddefnyddir i'w cael yn Adroddiad Technegol ESS 2015 (<https://www.gov.uk/government/publications/ukces-employer-skills-survey-2015-uk-results>).

- 2.37 Yn aml iawn gall sgiliau pobl a phersonol fod yn llai cyffyrddadwy na sgiliau technegol ac ymarferol, ond gall gael effaith fawr o hyd ar allu gweithiwr cyflogedig posibl i addasu i'r gweithle a bod yn aelod effeithiol o staff. Y sgil pobl a phersonol a enwyd yn fwyaf cyffredin fel un sy'n brin yn y farchnad lafur oedd sgiliau rheoli amser (57 y cant o'r holl swyddi gwag lle mae prinder sgiliau).
- 2.38 Soniwyd yn aml hefyd bod sgiliau'n ymwneud â 'rheolaeth ac arweiniad' yn brin, gan gynnwys: rheoli neu gymhell staff eraill (39 y cant), perswadio neu ddylanwadu ar bobl eraill (33 y cant), a gosod amcanion a/neu gynllunio adnoddau (27 y cant).
- 2.39 Grŵp arall o sgiliau oedd yn brin yn aml oedd 'sgiliau gwerthu a chwsmeriaid', gan gynnwys: sgiliau trin cwsmeriaid (47 y cant) a sgiliau gwerthiannau (33 y cant).
- 2.40 O'i gymharu gyda'r DU yn gyffredinol, neilltuwyd cyfran fwy o swyddi gwag gyda phrinder sgiliau yng Nghymru i brinder y sgiliau pobl a phersonol a ganlyn: sgiliau trin cwsmeriaid; gweithio mewn tîm; rheoli eich teimladau eich hun a thrin teimladau pobl eraill; rheoli neu gymhell staff eraill; a sgiliau gwerthu.
- 2.41 Mae Tabl A.2.7 yn Atodiad A yn rhoi manylion y sgiliau sy'n brin ymysg ymgeiswyr ar gyfer pob Rhanbarth.

Ffigur 2.3 Sgiliau sy'n brin ymysg ymgeiswyr i sefydliadau gydag o leiaf un swydd wag lle mae prinder sgiliau (wedi rhoi hwb)⁸




Effaith swyddi gwag lle mae prinder sgiliau ar gyfogywyr

⁸Mae Ffigur 2.3 yn dangos y sgiliau sy'n brin ymysg ymgeiswyr ar sail y nifer gyfan o swyddi gwag gyda phrinder sgiliau (yn hytrach na sefydliadau gyda swyddi gwag lle mae prinder sgiliau). Dylid nodi y gallai cyfogywyr enwi mwy nag un sgil sy'n brin ymysg ymgeiswyr ar gyfer pob un o'u swyddi gwag gyda phrinder sgiliau, felly mae'r canrannau a ddangosir yn adio i roi mwy na 100 y cant.

- 2.42 Er bod lleiafswm bychan o gyflogwyr yn sôn am swyddi gwag gyda phrinder sgiliau (chwech y cant), gall yr effaith fod yn sylweddol i'r sefydliadau hynny sydd â'r rhain. Roedd pob sefydliad bron iawn oedd â swyddi gwag anodd eu llenwi yn benodol o ganlyniad i brinder sgiliau yn sôn bod y rhain yn cael effaith ar y sefydliad (97 y cant)⁹.
- 2.43 Roedd y mwyafrif llethol o gyflogwyr oedd â swyddi gwag gyda phrinder sgiliau yn sôn bod y rhain wedi arwain at gynydd mewn llwyth gwaith i staff eraill (84 y cant).
- 2.44 Mae effeithiau eraill swyddi gwag gyda phrinder sgiliau i'w gweld yn Ffigur 2.4. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau sy'n ymwneud ag effaith ariannol uniongyrchol ar y sefydliad, megis colli busnes neu archebion i gystadleuwyr (49 y cant) a chynydd mewn costau gweithredu (46 y cant). Soniodd y cyflogwyr hefyd am effeithiau a fyddai'n debygol o effeithio ar allu sefydliad i arloesi, yn cynnwys: oedi mewn datblygu cynhyrchion neu wasanaethau newydd (44 y cant), anawsterau yn cyflwyno arferion gweithio newydd (40 y cant) ac anawsterau'n cyflwyno newid technolegol (28 y cant).
- 2.45 Ychydig iawn o newid fu ers 2013 yn effeithau swyddi gwag gyda phrinder sgiliau ac eithrio cynnydd yn y gyfran o sefydliadau oedd wedi gorfod tynnu allan o gynnig gwasanaethau neu gynhyrchion arbennig (o 23 y cant yn 2013 i 39 y cant yn 2015). Roedd yr effaith yma hefyd yn fwy amlwg ymysg cyflogwyr yng Nghymru o'i gymharu gyda'r DU yn gyffredinol (39 y cant o'i gymharu gyda 24 y cant, yn y drefn honno).

⁹Nid oedd yr arolwg yn mesur effaith swyddi gwag gyda phrinder sgiliau ar gyflogwyr yn benodol (h.y. nid oedd yn gofyn i gyflogwyr gyda swyddi gwag gyda phrinder sgiliau beth oedd effaith y rhain ar y sefydliad, dim ond effaith swyddi gwag anodd eu llenwi yn *gyfan gwbl*). Ond, roedd hi'n bosibl ynysu effeithiau diffygion mewn sgiliau drwy archwilio effaith swyddi gwag anodd eu llenwi mewn sefydliadau lle'r oedd yr holl swyddi gwag anodd eu llenwi wedi eu hachosi gan faterion yn ymwneud â sgiliau. O gymryd bod y mwyafrif o sefydliadau gyda swyddi gwag anodd eu llenwi yn perthyn i'r grŵp yma (73 y cant) – gan adlewyrchu'n rhannol bod gan y mwyafrif ddim ond un swydd wag a oedd yn profi'n anodd ei llenwi – roedd hwn yn sampl addas yr oedd hi'n bosibl cael mesuriad cadarn ohono.

Ffigur 2.4 Effaith swyddi gwag gyda phrinder sgiliau (wedi rhoi hwb)




Sialensiau recriwtio ehangach

- 2.46 Fel y trafodwyd yn gynharach, roedd swyddi gwag anodd eu llenwi'n cael eu hachosi'n aml, o leiaf yn rhannol, gan brinder sgiliau, cymwysterau neu brofiad ymysg ymgeiswyr. Ond, gallai sefydliadau hefyd wybebu sialensiau penodi eraill a chael swyddi gwag anodd eu llenwi am resymau nad ydynt yn ymwneud â sgiliau (gwelwch Ffigur 2.5 i gael rhestr o'r rhesymau 'eraill' yma).
- 2.47 Yn gyffredinol, dywedwyd bod naw y cant o'r holl swyddi gwag yng Nghymru - oddeutu 3,300 o swyddi gwag i gyd – yn rhai anodd eu llenwi, yn eithriadol am resymau nad ydynt yn ymwneud â sgiliau, cymwysterau neu brofiad. Er gwaethaf y ffaith fod nifer o'r swyddi gwag yma wedi cynyddu o oddeutu 1,200 ers 2013, mae'r gyfran o swyddi gwag a oedd yn anodd eu llenwi am resymau nad ydynt yn ymwneud â sgiliau wedi parhau'n weddol gyson (naw y cant yn 2015 o'i gymharu gydag wyth y cant yn 2013).
- 2.48 Roedd dwysedd y swyddi gwag yma yng Nghymru'n cyfateb i raddau mawr â gweddill y DU (naw y cant o'i gymharu gyda 10 y cant, yn drefn honno), ac, yng Nghymru, nid oedd yn gwahaniaethu'n sylweddol yn ôl y Rhanbarth. Mae Tabl

A.2.8 yn Atodiad A yn rhoi manylion dwysedd y swyddi gwag a oedd yn anodd eu llenwi am resymau nad ydynt yn ymwneud â sgiliau yn ôl y rhanbarth, maint y sefydliad a'r sector.

Ffigur 2.5 Y prif resymau, nad ydynt yn ymwneud â sgiliau, am gael swyddi gwag anodd eu llenwi (heb roi hwb)




Anawsterau cadw staff

2.49 Mae'r broblem o gadw staff presennol yn cysylltu'n agos â phrofiadau cyflogwyr yn y farchnad benodi. Mae effaith swyddi gwag anodd eu llenwi'n debygol o fynd yn waeth os yw cyflogwyr yn cael anawsterau cadw staff hefyd. Yn yr un modd, os oes gan gyflogwr anhawster cadw staff, gallai hyn achosi prinder sgiliau cyson os yw'r cyflogwr yn cael problemau llenwi eu swyddi gwag hefyd. Mae'r adran nesaf yma'n edrych ar nodweddion cyflogwyr oedd wedi cael anawsterau cadw staff, y galwedigaethau sy'n cael eu heffeithio fwyaf, a'r ffactorau sy'n tanategu anawsterau cadw staff.

- 2.50 Soniodd oddeutu un ymhob deg o sefydliadau yng Nghymru (naw y cant) bod ganddynt swyddi penodol lle cawsent anawsterau cadw staff¹⁰. Mae hyn yn debyg i'r gyfran ar draws y DU gyfan (wyth y cant) ac mae wedi cynyddu ers 2011 – y tro diwethaf y cafodd anawsterau cadw staff sylw yn y gyfres Arolwg Sgiliau Cyflogwyr - pan oedd saith y cant o sefydliadau yng Nghymru yn cael anawsterau cadw staff.
- 2.51 Mae'r gyfran o sefydliadau sy'n sôn am anawsterau cadw staff yn cynyddu gyda maint y sefydliad, saith y cant ymysg sefydliadau gyda llai na phump o weithwyr cyflogedig i 18 y cant ymysg y rheiny gyda 100 neu fwy o weithwyr cyflogedig.
- 2.52 Nid oedd y gyfran o sefydliadau oedd yn cael anawsterau cadw staff yn gwahaniaethu'n sylweddol yn ôl y Rhanbarth.
- 2.53 Yn ôl y sector, roedd y cyflogwyr yn y sector Gwestai a Bwytaï'n fwyaf tebygol o gael anawsterau cadw staff (20 y cant), sydd yn cyfateb â'r achosion o anawsterau cadw staff yn y sector yma ar lefel Brydeinig.
- 2.54 Mae Tabl A.2.9 yn Atodiad A yn rhoi ffigurau manwl o'r achosion o sefydliadau gydag anawsterau cadw staff yn ôl y rhanbarth, maint a sector.
- 2.55 Lle mae cyflogwyr wedi cael anawsterau cadw staff, roedd y rhain yn fwyaf tebygol o ymwneud yn y lle cyntaf gyda Galwedigaethau Masnachau Medrus (26 y cant), ac yn dilyn hynny rolau Elfennol (20 y cant) a Gweithredwyr Peiriannau (16 y cant); gwelwch Ffigur 2.6. I'r gwrthwyneb, dim ond ychydig iawn o sefydliadau a soniodd bod yr anawsterau cadw staff ymysg y rheolwyr yn bennaf (un y cant).

¹⁰ Gofynnwyd i gyflogwyr: *A oes unrhyw swyddi penodol lle'r ydych yn cael anawsterau cadw staff? (Ychwanegwch os oes raid: anawsterau cadw staff yw pan fydd nifer uchel o staff yn ymadael, ond nid o ganlyniad i leihau maint y busnes neu ddiswyddiad).*


Ffigur 2.6 Galwedigaethau lle cafodd cyflogwyr yr anhawster mwyaf yn cadw staff



Rhesymau am anawsterau cadw staff

2.56 Mae'r rhesymau y cafodd sefydliadau anawsterau cadw staff i'w gweld yn Ffigur 2.7. Mae rhai o'r rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd yn ymwneud ag anawsterau cadw staff yn codi o amodau o fewn y farchnad swyddi, yn cynnwys: prinder pobl sydd â diddordeb yn y math o waith (65 y cant), cyflogau is yn cael eu cynnig mewn perthynas â sefydliadau eraill (36 y cant) a gormod o gystadleuaeth gan gyflogwyr eraill (35 y cant). Roedd y rhesymau am anawsterau cadw staff yn ymwneud yn aml iawn â nodweddion annymunol y rôl, gan gynnwys: oriau hir a/neu anghymdeithasol (40 y cant), diffyg cynnydd gyrfaol (34 y cant), lleoliad daearyddol y gweithle (31 cant) ac amodau cyflogaeth annymunol (22 y cant).

Ffigur 2.7 Rhesymau am anawsterau cadw staff



Casgliadau

- 2.57 Yn unol â'r darlun o economi'n tyfu yn y DU, mae ESS 2015 yn rhoi tystiolaeth o weithgareddau marchnad lafur gref yng Nghymru. Roedd arwyddion, fodd bynnag, o sialensiau cynyddol i sefydliadau o ran y gallu i benodi unigolion gyda'r lefel ofynnol o sgiliau, cymwysterau neu brofiad.
- 2.58 Gallai'r cynnydd amlwg mewn swyddi gwag gyda phrinder sgiliau ers 2013 fod yn fygythiad i dyfiant y busnes ac atal cynhyrchiad os yw cyflogwyr yn methu penodi digon o lafur medrus. Yn wir, roedd effeithiau swyddi gwag gyda phrinder sgiliau i gyflogwyr yn niferus, gan gynnwys y rheiny sy'n cael effaith ariannol uniongyrchol ar y sefydliad drwy gynydd mewn costau gweithredu a cholli busnes i gystadleuwyr.
- 2.59 Lle cafodd cyflogwyr anawsterau'n llenwi swyddi gwag oherwydd prinder mewn sgiliau yn y farchnad lafur sydd ar gael, roedd y mathau o sgiliau sy'n brin yn y farchnad lafur yn cynnwys sgiliau rheoli ac arweiniad, yn ogystal â sgiliau dadansoddol cymhleth. Mae'r mathau yma o sgiliau'n bwysig wrth ystyried

cynhyrchiad y gweithlu a gallu sefydliadau i arloesi drwy gyflwyno technolegau ac arferion gweithio newydd.

- 2.60 Wedi ystyried yr heriau sgiliau allanol y mae cyflogwyr yng Nghyrmu'n eu wynebu wrth benodi, mae'r bennod nesaf yn archwilio'r heriau sgiliau y mae cyflogwyr yn eu wynebu yn eu gweithlu cyfredol.

3. Y Sialens Sgiliau Mewnol

Crynodeb o'r Bennod

- 3.1 **Dywedodd y mwyafrif o sefydliadau bod ganddynt weithlu cwbl hyfedr:** roedd 86 y cant yn teimlo bod eu staff i gyd yn gwbl hyfedr yn eu swyddi. Ond roedd gan oddeutu un ymhob saith o gyflogwyr (14 y cant) fylchau mewn sgiliau o fewn eu sefydliadau, ac oddeutu 54,000 o staff nad oeddent yn eu hystyried yn gwbl hyfedr (pump y cant o'r gweithlu yng Nghymru). Roedd y cyfrannau hyn yn debyg i'r rheiny ar draws y DU.
- 3.2 Roedd cyfran y cyflogwyr gydag unrhyw fylchau mewn sgiliau, a'r gyfran o'r gweithlu a effeithiwyd, wedi gostwng rhwng 2013 a 2015, gan ddychwelyd i lefelau oedd yn fwy cyfatebol â 2011.
- 3.3 **Ar lefel alwedigaethol, roedd bylchau mewn sgiliau'n fwy tebygol o gael eu canfod mewn Gweithredwyr Peiriannau a Galwedigaethau Elfennol.** Roedd dwysedd y bylchau mewn sgiliau ar ei fwyaf yn y sector Gweithgynhyrchu (er gwaethaf y gostyngiad mewn dwysedd o'i gymharu gyda 2013) a dyma oedd y sector gyda'r nifer uchaf o fylchau mewn sgiliau.
- 3.4 Temlwyd bod dwy ran o dair o'r holl fylchau mewn sgiliau'n cael eu hachosi, o leiaf yn rhannol, gan y ffaith fod staff yn newydd i'r rôl, tra bo cyfran debyg wedi eu hachosi gan y ffaith nad oedd hyfforddiant y cyflogeion yn gyflawn. Mae'r ffactorau hyn yn rhai dros dro i raddau mawr: hynny ydy, byddai rhywun yn disgwyl i'r bylchau mewn sgiliau sy'n codi o'r achosion yma gael eu diddymu unwaith mae'r staff wedi setlo i mewn i'w rolau newydd a/neu y mae eu hyfforddiant cyfredol wedi ei gwblhau.
- 3.5 **Roedd sgiliau pobl a phersonol, megis rheoli amser a'r gallu i flaenoriaethu tasgau, yn ogystal â gweithio mewn tîm, yn gyffredinol brin** ar draws ystod o alwedigaethau lle'r oedd bylchau i'w gweld mewn sgiliau. Ystyriwyd hefyd bod y sgiliau neu'r wybodaeth arbenigol sy'n angenrheidiol i wneud y rôl yn brin, ynghyd â dealltwriaeth a gwybodaeth weithredol dda.
- 3.6 **Gwelwyd bod bylchau mewn sgiliau'n cael effaith fawr ar fusnesau llai yn arbennig.** Cynyddu'r llwyth gwaith i staff eraill oedd yr effaith fwyaf cyffredin, ac roedd hyn yn effeithio ar oddeutu hanner yr holl sefydliadau oedd â bychau mewn sgiliau.

Cyflwyniad


- 3.7 Roedd Pennod 2 yn archwilio i ba raddau y mae sefydliadau'n cael anawsterau'n penodi a chadw staff sydd â'r sgiliau y maent eu hangen: her sydd wedi cynyddu dros amser. Mae'r bennod yma'n archwilio'r broblem berthnasol o fylchau mewn sgiliau o fewn y gweithlu cyfredol. Mae'r her fewnol hon yn codi pan fydd gweithwyr cyflogedig yn brin o'r hyfedredd i gwblhau eu rôl. Mae bylchau o'r fath mewn sgiliau'n gallu rhwystro gallu sefydliad i weithredu'n effeithlon, gan felly niweidio ei broffidioldeb a pha mor gynhyrchiol ydyw.
- 3.8 Mae'r bennod hon yn ymdrin â mynychdra, maint, proffil ac achosion bylchau mewn sgiliau, ar lefel gyffredinol a lefel sector, ac yn ôl galwedigaeth. Yna mae'n ystyried y sgiliau penodol y soniodd sefydliadau bod eu staff yn brin ohonynt, yr effaith a gafodd bylchau mewn sgiliau ar eu busnes, a'u hymateb i ymdrin â'r materion yma. Mae'n gorffen drwy archwilio'r berthynas rhwng heriau sgiliau mewnol ac allanol.
- 3.9 Yn newydd i ESS 2015 roedd rhestr ddiwygiedig o ddisgrifwyr sgiliau a ddefnyddir i ddeall yn well y sgiliau hynny sy'n brin yn y gweithlu (gwnaethpwyd yr un peth ar gyfer swyddi gwag lle mae prinder sgiliau). Yn arolygon 2011 a 2013 soniodd nifer fawr o sefydliadau fod bylchau mewn sgiliau wedi codi oherwydd, o leiaf yn rhannol, y diffygion mewn 'sgiliau technegol, ymarferol neu benodol i swydd', ac ni chasglwyd unrhyw wybodaeth bellach ar natur y sgiliau oedd yn brin.
- 3.10 I ymdrin â'r diffyg manylion yma – ochr yn ochr ag awydd am well ymdrinaeth o sgiliau 'lefel uwch' sy'n tanategu arferion busnes arloesol ac i harmoneiddio'r disgrifwyr sgiliau a ddefnyddiwyd gyda rhai'r arolygon sgiliau rhyngwladol eraill, cafodd y disgrifwyr sgiliau a ddefnyddiwyd eu hadolygu ar gyfer ESS 2015¹¹. Gall y disgrifwyr sgiliau yma gael eu categoreiddio'n fras yn ddau gategori: sgiliau 'technegol ac ymarferol', sy'n diffinio cynnwys rolau swyddi; a sgiliau 'pobl a phersonol', sy'n diffinio'r ffordd y mae rolau swyddi'n cael eu darparu.

¹¹Aseiniwyd hanner y cyflogwyr gyda swyddi gwag lle mae prinder sgiliau i'r disgrifwyr sgiliau 'newydd', ac aseiniwyd yr hanner arall i'r 'hen' disgrifwyr sgiliau a ddefnyddiwyd yn ESS 2011 a 2013 i hwyluso cymhariaethau dros amser. Mae data cyfresi amser a dadansoddiad o'r sgiliau sy'n brin ymysg ymgeiswyr yn ôl yr 'hen' disgrifwyr sgiliau i'w gweld yn Ffigurau B.1 a B.2 yn Atodiad B. Mae rhagor o wybodaeth am y newidiadau i'r disgrifwyr sgiliau a ddefnyddir i'w cael yn Adroddiad Technegol ESS 2015 (<https://mae.gov.uk/government/publications/ukces-employer-skills-survey-2015-uk-results>).

Mynychdra, maint a dwysedd bylchau mewn sgiliau

- 3.11 Dywedodd y mwyafrif llethol o gyflogwyr (86 y cant) bod eu staff i gyd yn gwbl hyfedr yn eu swyddi. Roedd bron i un ymhob saith o sefydliadau (14 y cant) yn ystyried bod o leiaf rai o'u staff ddim yn gwbl hyfedr (h.y. roeddent yn sôn am fylchau mewn sgiliau). Yn gyfan, ystyriwyd bod 54,000 o gyflogeion ledled Cymru'n brin o hyfedredd, sy'n gyfatebol â 4.5 y cant o'r gweithlu cyfan.
- 3.12 Mae'r ffigurau yma'n debyg i'r rheiny a welir yn y DU gyfan, lle mae 14 y cant o sefydliau wedi dweud bod gan 5.0 y cant o'r gweithlu fylchau mewn sgiliau.
- 3.13 Gostyngodd y *gyfran* o staff nad ydynt yn gwbl hyfedr yn eu swyddi (h.y. y dwysedd bylchau mewn sgiliau) o 5.8 y cant yn 2013, i 4.5 y cant yn 2015, gan ddychwelyd i ddwysedd mwy cyfatebol â 2011 (4.6 y cant). Digwyddodd y gostyngiad yma'n bennaf yng ngogledd a chanolbarth Cymru, lle'r oedd dwysedd y bylchau mewn sgiliau wedi gostwng o 7.6 y cant i 4.4 y cant a 5.1 y cant i 2.5 y cant, yn y drefn honno. Yn 2015 roedd y dwysedd bylchau mewn sgiliau ar ei uchaf yn ne ddwyrain Cymru (4.9 y cant), fel y gwelwch yn Ffigur 3.1.
- 3.14 Nid oedd mynychdra a dwysedd y bylchau mewn sgiliau wedi gwahaniaethu'n fawr yn ôl y Rhanbarthau CGE, er bod gostyngiad sylweddol i'w weld yn nwysedd y bylchau mewn sgiliau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd o 2013 hyd 2015 (o 6.3 y cant i 4.7 y cant).

Ffigur 3.1 Mynychdra a dwysedd y bylchau mewn sgiliau yn ôl y Rhanbarth



3.15 Roedd cyflogwyr mwy yn fwy tebygol na chyflogwyr llai o gael bylchau mewn sgiliau, gan adlewyrchu'n rhannol y ffaith y byddai gweithlu mwy yn fwy teygol o gynnwys o leiaf un cyflogai sy'n brin o hyfedredd. Roedd bylchau mewn sgiliau gan chwech y cant o sefydliadau gyda 2-4 o gyflogeion, yn codi o 51 y cant o'r rheiny gyda 100 neu fwy o gyflogeion. Roedd dwysedd bylchau uwch mewn sgiliau hefyd gan y cyflogwyr mwy yma: roedd 2.4 y cant o'r gweithlu oedd wedi'u cyflogi gan sefydliadau gyda llai na phump o staff wedi'u disgrifo fel rhai nad ydynt yn gwbl hyfedr, yn codi i 5.3 y cant ymysg y rheiny gyda 100+ o staff. Mae'r patrwm yma o ddwysedd uwch yn ôl maint y sefydliad yn gyson gyda 2013 a 2011, er ei fod y llai amlwg yn 2011.


Dosbarthiad sectoraidd bylchau mewn sgiliau

3.16 Yn ôl y sector, yr unig gynnydd sylweddol a welwyd yn nwysedd y bylchau mewn sgiliau o 2013 oedd yn y Gwasanaethau Busnes a gododd o 4.3 y cant i 6.3 y cant yn 2015 (ac o 5,800 i 8,300 o staff).

3.17 Ar y llaw arall, roedd gostyngiadau sylweddol yn nwysedd y bylchau mewn sgiliau yn y sector Gwestai a Bwytai (o 10.2 y cant yn 2013 i 6.9 y cant yn 2015), lechyd a Gofal Cymdeithasol (6.6 y cant i 3.5 y cant) ac Addysg (5.3 y cant i 2.4 y cant).

3.18 Roedd dwysedd y bylchau mewn sgiliau ar ei uchaf yn y sector Gweithgynhyrchu (er gwaethaf y gostyngiad mewn Dwysedd o 2013), a dyma oedd y sector gyda'r *nifer* uchaf o fylchau mewn sgiliau.

Ffigur 3.2 Dwysedd a nifer y bylchau mewn sgiliau yn ôl y sector (2013 a 2015)



3.19 Mae Tablau A.3.1 ac A.3.2 yn Atodiad A yn rhoi manylion mynychdra, nifer a dwysedd y bylchau mewn sgiliau yn ôl y rhanbarth, maint y sefydliad a'r sector.

Dosbarthiad galwedigaethol y bylchau mewn sgiliau

- 3.20 Ar lefel alwedigaethol, roedd bylchau mewn sgiliau'n fwy tebygol o gael eu canfod mewn galwedigaethau llafur-ddwys, yn arbennig ymysg Gweithredwyr Peiriannau¹² (disgrifiwyd saith y cant o'r staff o'r fath fel rhai sy'n brin o hyfedredd llawn) a Galwedigaethau Elfennol (chwech y cant) o'i gymharu gyda 4.5 y cant ar draws y gweithlu cyfan. Ar y cyd, roedd y galwedigaethau yma'n cyfrif am oddeutu un ymhob pump (22 y cant) o'r holl gyflogeion, ond oddeutu traean (32 y cant) o'r holl fylchau mewn sgiliau. Roedd hyn yn gyson i raddau mawr gyda phatrwm galwedigaethol y DU.
- 3.21 Rheolwyr oedd yn fwyaf tebygol o fod yn gwbl hyfedr yn eu swyddi (gyda dwysedd bylchau mewn sgiliau o 2.2. y cant), yn unol â chanfyddiadau'r DU.

¹² Mae'r rhain yn cynnwys gyrrwyr, gweithredwyr prosesau bwyd a diod a sgaffaldwyr, ymysg galwedigaethau eraill.

Tabl 3.1 Nifer a dwysedd y bylchau mewn sgiliau yn ôl galwedigaeth

		Nifer y bylchau mewn sgiliau yng Nghymru	Y % o staff yng Nghymru yr adroddwyd bod ganddynt fylchau mewn sgiliau (dwysedd Bylchau mewn Sgiliau)				% o staff yn y DU yr adroddir bod ganddynt fylchau mewn sgiliau (Dwysedd Bylchau mewn Sgiliau)
	<i>Sail heb ei bwysoli 2015</i>	2015 n	2011 %	2013 %	2015 %	2015 %	2015 %
Yn gyfan gwbl	6,027	53,800	4.6	5.8	4.5		5.0
Galwedigaeth							
Rheolwyr	5,714	4,300	2.5	2.7	2.2		2.7
Pobl broffesiynol	961	3,900	1.8	2.8	3.0		3.0
Pobl broffesiynol cyswllt	734	2,500	4.1	3.5	4.9		5.3
Gweinyddol a Chlerigol	3,106	5,000	4.0	4.8	3.5		5.4
Masnachau Medrus	1,625	4,700	5.8	6.1	5.5		5.5
Gofalu, Hamdden a Gwasanaethau Eraill	921	7,600	5.2	8.8	5.0		4.1
Gwerthiannau a Gwasanaeth y Cwsmer	1,633	8,400	6.2	6.9	5.2		6.6
Gweithredwyr Peiriannau	903	8,100	7.3	7.2	7.4		7.0
Staff elfennol	2,001	9,100	6.3	9.0	5.8		6.9

Sail: Yr holl sefydliadau gyda staff ymhob galwedigaeth.

Mae'r canrannau wedi eu seilio ar yr holl gyflogaeth, yn hytrach na'r holl sefydliadau; felly mae'r ffigurau'n dangos y nifer o fylchau mewn sgiliau fel cyfran o'r holl gyflogaeth ymhob galwedigaeth.

Nodwch: Nifer y cyflogeion nad ydynt yn gwbl hyfedr wedi ei dalgrynu i'r 100 agosaf

Mae Tabl A.3.3 yn Atodiad A yn rhoi manylion dwysedd y bylchau mewn sgiliau ar gyfer pob galwedigaeth yn ôl y Rhanbarth.

Achosion y bylchau mewn sgiliau

3.22 Penodd y cyflogwyr amrywiaeth o ffactorau a arweiniodd at fylchau mewn sgiliau yn eu gweithlu. Mae'r prif achosion nad oedd staff yn gwbl hyfedr yn gyffredinol wedi eu cyflwyno yn Nhabl 3.2. Mae'r ffigurau'n dangos pa gyfran o fylchau mewn sgiliau a achoswyd gan yr amrywiol ffactorau yr adroddwyd amdanynt gan sefydliadau. Gallai ymatebwyr roi mwy nag un achos am fylchau mewn sgiliau ymhob galwedigaeth.

- 3.23 Fel yn 2013, roedd yr achosion dros dro'n dominyddu. Roedd dwy ran o dair o'r bylchau mewn sgiliau (67 y cant) yn teimlo eu bod wedi eu hachosi, o leiaf yn rhannol, gan y ffaith fod staff yn newydd i'r rôl. Roedd cyfran debyg o fylchau mewn sgiliau (63 y cant) wedi ei beio ar y ffaith mai dim ond yn rhannol gyflawn yr oedd hyfforddiant y gweithwyr cyflogedig; mae hwn yn gynydd arwyddocaol o'r gyfran a nododd y rheswm yma yn 2013 (47 y cant). O'u cyfuno, cyfrannodd y ffactorau dros dro yma, o leiaf i ryw raddau, at 78 y cant o'r holl fylchau mewn sgiliau. Byddech yn disgwyl i'r bylchau dros dro yma mewn sgiliau gael eu datrys yn weddol gyflym, ond roedd y mwyafrif o sefydliadau'n awgrymu ffactorau ychwanegol hefyd oedd wedi arwain at fylchau mewn sgiliau.
- 3.24 Mae'r canfyddiadau yma'n adlewyrchu i raddau mawr y rheiny ar lefel Brydeinig o ran y ffaith mai achosion mwyaf cyffredin y bylchau mewn sgiliau oedd bod staff yn newydd i'r rôl a bod hyfforddiant yn anghyflawn (60 a 56 y cant yn y drefn honno).
- 3.25 Er bod hierarchaeth gyffredinol yr achosion yn parhau'n weddol debyg i 2013, roedd gostyngiad llym yn y gyfran o fylchau mewn sgiliau a achoswyd gan y ffaith nad oedd perfformiadau cyflogeion wedi gallu gwella'n ddigonol o ganlyniad i'r hyfforddiant (o 47 y cant i 37 y cant yn 2015).

Tabl 3.2 Prif achosion bylchau mewn sgiliau (wedi rhoi hwb)

	2011	2013	2015
<i>Sail wedi'i bwysoli</i>	1,354	1,219	1,100
	%	%	%
Mae staff yn newydd i'r rôl	58	63	67
Dim ond yn rhannol y mae eu hyfforddiant wedi ei gwblhau ar hyn o bryd	62	47	63
Does dim llawer o frwdfrydedd gan y staff	35	52	46
Maent wedi cael hyfforddiant ond nid yw eu perfformiad wedi gwella'n ddigonol	34	47	37
Yn methu penodi staff gyda'r sgiliau gofynnol	26	35	31
Cyflwyno arferion gweithio newydd	30	29	30
Nid yw staff wedi derbyn yr hyfforddiant priodol	33	27	27
Cyflwyno technoleg newydd	26	20	26
Problemau'n cadw staff	10	24	17
Datblygu gwasanaethau a chynhyrchion newydd	22	21	15
<i>Crynodeb: Yn newydd i'r rôl a/neu nid yw'r hyfforddiant yn gyflawn (achosion dros dro)</i>	74	74	78

Sail: Pob sefydliad gyda bylchau mewn sgiliau; hyd at ddau fwch mewn sgiliau wedi cael sylw.

Mae'r canrannau wedi eu seilio ar yr holl fylchau mewn sgiliau, yn hytrach na phob sefydliad gyda bylchau mewn sgiliau; felly mae'r cyfrannau'n dangos y canran o fylchau mewn sgiliau ar gyfer pob achos.

3.26 Roeddd bylchau dros dro mewn sgiliau'n llawer llai cyffredin ymysg staff

Gwerthiannau a Gwasanaeth y Cwsmer o'u cymharu gyda'r holl alwedigaethau eraill (67 y cant o'i gymharu gyda 7 y cant ar gyfartaledd). I'r gwrthwyneb, roedd bylchau dros dro mewn sgiliau'n llawer mwy tebygol ymysg pobl broffesiynol cyswllt (92 y cant).

3.27 Mae Tabl A.3.4 yn Atodiad A yn rhoi manylion y ffactorau a achosodd y bylchau mewn sgiliau yn ôl galwedigaeth.

Sgiliau sy'n brin yn fewnol

3.28 Gellir categorio'r sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gweld yn brin ymysg eu staff i ddau gategori yn fras: ar un ochr mae'r sgiliau technegol ac ymarferol sy'n diffinio cynnwys rolau swyddi, ac ar yr ochr arall mae'r sgiliau 'pobl a phersonol' mwy meddal sy'n gallu diffinio'r ffordd y mae rolau swyddi'n cael eu

darparu. Mae'r sgiliau pobl a phersonol yma'n llai cyffyrddadwy yn aml iawn ond gallent gael effaith yr un mor fawr ar effeithiolrwydd gweithlu¹³.

- 3.29 Fel y gwelwch yn Ffigur 3.3, y sgiliau pobl a phersonol mwyaf cyffredin y teimlwyd eu bod yn brin oedd rheolaeth amser a blaenoriaethu tasgau (wedi eu nodi mewn perthynas â 67 cant o fylchau mewn sgiliau), gan ddangos bod staff yn cael trafferth ymdopi gyda'r amrywiol ofynion a roddir arnynt. Nodwyd 'gweithio mewn tîm' yn eang hefyd fel rhywbeth sy'n brin ymysg y staff presennol (59 y cant).
- 3.30 Roedd sefydliadau hefyd yn wynebu sialensau gyda rheolaeth ac arweiniad o fewn eu sefydliadau. Cafodd cyfuniad o sgiliau penodol amrywiol oedd yn ymwneud â'r problemau yma ('rheoli neu gymell staff', 'perswadio erall' a 'gosod amcanion') a phrinder sgiliau rheoli ac arweiniad, eu nodi mewn perthynas ag oddeutu tair rhan o bump o holl fylchau mewn sgiliau (61 y cant). Roedd ychydig yn llai na hanner y bylchau mewn sgiliau'n ymwneud â sgiliau'r cwsmer a gwerthu (49 y cant)¹⁴.
- 3.31 Nodwyd sgiliau arbenigol neu sgiliau sail gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer rôl swydd arbennig y cyflogai mewn perthynas â bron i dri ymhob pump o fylchau mewn sgiliau (56 y cant), gan olygu mai hwn yw'r sgil technegol ac ymarferol mwyaf cyffredin sy'n brin ymysg y staff presennol. Roedd cyfran debyg o fylchau mewn sgiliau'n ymwneud â phrinder gwybodaeth weithredol: beiwyd 44 y cant o fylchau mewn sgiliau ar ddiffyg gwybodaeth am y cynhyrchion a'r gwasanaethau y mae'r sefydliad yn eu cynnig a 40 y cant ar ddiffyg gwybodaeth am y ffordd mae'r sefydliad yn gweithio. Roedd hefyd ddiffygion yn y sgiliau dadansoddi cymhleth: beiwyd 37 y cant o fylchau mewn sgiliau ar ddiffyg hyfedredd mewn datrys problemau cymhleth a 28 y cant ar ddiffyg sgiliau ystadegol neu rifyddol cymhleth.
- 3.32 Ystyrir gwella technolegau yn y gweithle yn faes hanfodol o newid i fusnesau dros y blynyddoedd nesaf (UKCES 2014a). Ond, roedd bron i ddwy ran o bump o'r holl fylchau mewn sgiliau (37 y cant) yn ymwneud â diffyg hyfedredd mewn


¹³ Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r bennod hon, datblygwyd rhestr newydd o ddisgrifwyr sgiliau ar gyfer ESS 2015 er mwyn deall yn well y sgiliau sy'n brin ymysg y staff. Aseiniwyd hanner y cyflogwyr gyda bylchau mewn sgiliau i'r disgrifwyr sgiliau 'newydd', ac aseiniwyd yr hanner arall i'r 'hen' ddisgrifwyr sgiliau a ddefnyddiwyd yn ESS 2011 a 2013 er mwyn hwyluso cymhariaethau dros amser. Mae data cyfresi amser am y sgiliau sy'n brin ymysg ymgeiswyr yn ôl yr 'hen' ddisgrifwyr sgiliau i'w gweld yn Atodiad B. Mae rhagor o wybodaeth am y newidiadau i'r disgrifwyr sgiliau a ddefnyddir i'w cael yn Adroddiad Technegol ESS 2015 (<https://www.gov.uk/government/publications/ukces-employer-skills-survey-2015-uk-results>).

¹⁴ Mae hyn yn cynnwys 'sgiliau gwerthu' a 'sgiliau trin cwsmeriaid'.

addasu i offer neu ddefnyddiau newydd. Nodwyd diffyg sgiliau Tech Gwyb sylfaenol ar gyfer cyfran gymaradwy o fylchau mewn sgiliau (37 y cant), tra bo sgiliau Tech Gwyb lefel uwch yn brin hefyd yn aml iawn (33 y cant), yn arbennig ymysg y rheiny mewn rolau sgiliau uchel neu ganolig.

- 3.33 Dywedwyd bod cyfrannau cymaradwy o'r bylchau mewn sgiliau - oddeutu un ymhob pump – yn ymwneud â naill ai sgiliau iaith Gymraeg llafar neu sgiliau iaith Gymraeg ysgrifenedig (19 y cant a 22 y cant, yn y drefn honno).

Ffigur 3.3 Y sgiliau sy'n brin ymysg staff gyda bylchau mewn sgiliau



3.34 Ar draws amrediad o sgiliau, soniodd Cymru am gyfran uwch sy'n brin nag yn y DU. O ran sgiliau pobl a phersonol, roedd y gwahaniaeth yma'n fwyaf amlwg mewn perthynas â sgiliau rheoli amser a blaenoriaethu a gwneud areithiau neu gyflwyniadau (67 y cant o'i gymharu â 59 y cant ar draws y DU, a 29 y cant o'i

gymharu gydag 17 y cant, yn y drefn honno). Ar gyfer sgiliau technegol ac ymarferol, gwelwyd y gwahaniaethau mwyaf nodedig mewn sgiliau a gwybodaeth arbenigol (56 y cant o'i gymharu gyda 48 y cant yn y DU) a dehurwydd y dwylo (29 y cant o'i gymharu gyda 17 y cant)


- 3.35 Mae Tabl A.3.5 yn Atodiad A yn rhoi manylion y sgiliau sy'n brin ymysg ymgeiswyr ar gyfer pob Rhanbarth.

Effaith y bylchau mewn sgiliau

- 3.36 Mae bron i ddwy ran o dair (64 y cant) o sefydliadau gyda bylchau mewn sgiliau wedi canfod bod y rhain yn effeithio ar y ffordd mae eu busnes yn perfformio; roedd 17 y cant yn ystyried hon yn effaith *fawr* iddynt (cyfran debyg i 2011 a 2013). Roedd sefydliadau yng Nghanolbarth Cymru'n fwy tebygol na'r cyfartaledd o nodi bod bylchau mewn sgiliau wedi cael unrhyw effaith ar eu busnes (72 y cant), er na welwyd unrhyw wahaniaethau sylweddol o ran y ffaith ei bod yn effaith *fawr*. Ni welwyd gwahaniaethau sylweddol yn ôl Rhanbarthau CGE.
- 3.37 Mae Ffigur 3.4 yn dangos effeithiau bylchau mewn sgiliau yn 2015 a'r goblygiadau i'r busnesau. Fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol, effaith fwyaf cyffredin bylchau mewn sgiliau oedd cynnydd yn y llwyth gwaith i staff eraill: effeithiodd hyn dros hanner y sefydliadau gyda bylchau mewn sgiliau (54 y cant yn codi i 66 y cant ymysg sefydliadau gyda 100 o weithwyr cyflogedig).
- 3.38 Roedd sefydliadau wedi dioddef effeithiau ariannol hefyd o ganlyniad i'w heriau sgiliau mewnol. Roedd y ffaith nad oedd eu staff i gyd yn gwbl hyfedr wedi codi costau gweithredol bron i dri ymhob deg o gyflogwyr oedd â bylchau mewn sgiliau (28 y cant). Roedd hyn yn broblem arbennig i sefydliadau Gweithgynhyrchu yng Nghymru (49 y cant) o'i gymharu gyda 37 y cant o sefydliadau gweithgynhyrchu ar draws y DU.
- 3.39 Yn ogystal, roedd 20 y cant o sefydliadau yng Nghymru gyda bylchau mewn sgiliau wedi colli busnes neu archebion i gystadleuwyr, sefyllfa oedd yn effeithio fwyaf ar sefydliadau bychain (28 y cant ymysg cyflogwyr gyda 2-4 o staff).
- 3.40 Roedd bylchau mewn sgiliau wedi cael effaith hefyd ar allu sefydliadau i arloesi, gan ddangos bod goblygiadau busnes mwy tymor hir. Roedd yr effeithiau yma'n amrywio yn unol â maint y sefydliad. Er bod chwarter y sefydliadau gyda bylchau mewn sgiliau (23 y cant) yn cael problem cyflwyno

arferion gweithio newydd, roedd hyn yn llawer uwch ymysg y rheiny gyda 100+ o staff (40 y cant). Adlewyrchwyd y patrwm yma yng nghanfyddiadau'r DU, er bod hynny i raddau llawer llai (24 y cant ar draws y DU, a 31 y cant mewn sefydliadau gyda 100+ o weithwyr cyflogedig).

Ffigur 3.4 Effeithiau bylchau mewn sgiliau



3.41 Mae Tabl A.3.6 yn Atodiad A yn rhoi manylion effeithiau'r bylchau mewn sgiliau yn ôl maint, sector a rhanbarth.

Ymateb y cyflogwyr i fylchau mewn sgiliau

3.42 Roedd y mwyafrif llethol o gyflogwyr gyda bylchau mewn sgiliau (83 y cant) wedi cymryd camau i ymdrin â nhw. Yn ogystal, roedd saith y cant heb gymryd camau ar y pryd ond yn bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol. Roedd bron i un ymhob deg (naw y cant) o sefydliadau gyda bylchau mewn sgiliau heb gymryd unrhyw gamau gweithredu ac heb unrhyw gynlluniau i ymdrin â'r materion yma.


3.43 Roedd sefydliadau gyda 2-4 o staff yn llai tebygol o brofi bylchau mewn sgiliau na chyflogwyr mwy ac roeddent hefyd yn llai tebygol o fod wedi ymateb iddynt: doedd 16 y cant o'r sefydliadau bach gyda bylchau mewn sgiliau ddim wedi

cymryd camau i ymdrin â nhw nac wedi bwriadu gwneud hynny chwaith, o'i gymharu gyda naw y cant i gyd.

3.44 Mae Tabl A.3.7 yn Atodiad A yn rhoi manylion y camau gweithredu a gymerwyd i ymdrin â bylchau mewn sgiliau yn ôl y rhanbarth, maint a sector.

3.45 Fel mae Ffigur 3.5 yn ei ddangos, roedd hyfforddiant ychwanegol yn parhau'n flaenllaw yn nulliau'r sefydliadau o ymdrin â bylchau mewn sgiliau mewnol: roedd dwy ran o dair o sefydliadau (66 y cant) wedi cynyddu eu gweithredoedd hyfforddi neu eu gwariant er mwyn gwella lefelau sgiliau eu cyflogwyr. Roedd hyn yn gyson gyda'r canfyddiadau o 2013, ac ar draws y DU.

Ffigur 3.5 Y camau a gymerwyd i gau bylchau mewn sgiliau (wedi rhoi hwb)



3.46 Dull cyffredin arall yr oedd sefydliadau yn ei ddefnyddio i ymateb i'r bylchau mewn sgiliau oedd harneisio profiad y staff presennol i wella perfformiad pobl eraill (er enghraifft, roedd 58 y cant wedi cyflwyno mwy o oruchwyliaeth ar staff). Roedd camau o'r fath yn arbennig o gyffredin ymysg cyflogwyr mwy (100+ o gyflogeion) a'r rheiny yn y sector lechyd a Gofal Cymdeithasol (69 a 75 y cant yn y drefn honno).


3.47 Roedd newid agweddau strwythurol tuag at waith mewn ymateb i fylchau mewn sgiliau yn llai cyffredin: roedd 35 y cant o sefydliadau gyda bylchau mewn sgiliau wedi ail leoli gwaith a 29 y cant wedi newid eu harferion gweithio (er bod y gyfran hon yn llawer uwch ymysg y rheiny gyda 100+ o gyflogeion, 49 y cant).

3.48 Roedd un ymhob pump o sefydliadau gyda bylchau mewn sgiliau (20 y cant) wedi ymateb drwy gynyddu'r gwariant ar recriwtio a gweithredoedd recriwtio. O safbwynt cyfres amser, roedd hyn yn cynrychioli cynnydd graddol dros amser (10 y cant yn 2011; 15 y cant yn 2013), ac yn cyfateb gyda chynnydd tebyg ar draws y DU.

Diffygion sgiliau ymysg staff cyfredol wrth recriwtio

- 3.49 Rydym wedi archwilio'r sgiliau sy'n brin ymysg recriwtiaid posibl ac o fewn y gweithlu presennol. Efallai bod sefydliadau wedi gweld cyfnewidiad rhwng y ddau fesur yma o ddiffyg yn y farchnad lafur. Bydd rhai cyflogwyr, wrth wynebu ymgeiswyr annigonol, yn gadael y swydd yn wag, ac os felly mae'r mater yn ei ddatgelu ei hun fel swydd wag gyda phrinder sgiliau; gallai cyflogwyr eraill deimlo ei bod hi'n well penodi rhywun sydd ddim yn briodol hyfedr, ac os felly bydd y diffyg yn ei ddatgelu ei hun fel bwlch mewn sgiliau, er bod hynny efallai'n un dros dro.
- 3.50 Doedd dim arwydd bod maint yr her sgiliau ar y lefel gronol hon wedi newid ers 2013. Roedd bron i un ymhob pump o sefydliadau (17 y cant) yn dioddef o un o'r diffygion sgiliau yma yn 2015, yn debyg i 2013, fel mae Tabl A.3.8 yn Atodiad A yn ei ddangos. Fodd bynnag, yn 2015 roedd yr heriau sgiliau yma wedi mynd yn fwy allanol, gyda dwysedd y bylchau mewn sgiliau'n gostwng, a dwysedd y swyddi gwag gyda phrinder sgiliau'n cynyddu (er mai ychydig oedd hynny). Mae Ffigur 3.6 yn dangos sut mae'r her sgiliau wedi esblygu dros amser, yn ôl y sector.

Ffigur 3.6 Newidiadau yn y nifer o swyddi gyda phrinder sgiliau a bylchau mewn sgiliau dros amser, yn ôl y sector



3.51 Y patrwm mwyaf cyffredin a welwyd ar draws y sectorau oedd bod heriau sgiliau wedi mynd yn fwy allanol, gyda gostyngiad yn y nifer o fylchau mewn sgiliau a chynnydd yn y nifer o swyddi gwag gyda phrinder sgiliau ers 2013.

3.52 Nid oedd unrhyw sectorau'n dangos gwrthwyneb y patrwm yma, er bod rhai wedi dangos amrywiadau:

- Gwelwyd newid yn y duedd gyffredinol o ostyngiad yn nifer y bylchau mewn sgiliau, sef bod cynyddiadau nodedig yn y sectorau Trydan, Nwy a Dŵr a Gwasanaethau Busnes.
- Y sectorau Addysg, Amaethyddiaeth a Gwasanaethau Ariannol oedd yr unig sectorau i ddangos gostyngiad yn nifer y swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau o 2013 hyd 2015.

Sgiliau oedd yn brin yn fewnol ac yn allanol

- 3.53 Gallwn hefyd archwilio'r ddeinameg rhwng y sgiliau y gwelwyd eu bod yn brin ymysg staff presennol a recriwtiaid posibl, er nad yw cymhariaeth o'r fath yn berffaith am ei bod hi'n anodd gweld pa sgiliau sy'n brin ymysg pobl sy'n allanol i'r busnes.
- 3.54 Yn gyffredinol, roedd y materion a wynebwr yn allanol ac yn fewnol yn dilyn hierarchaeth debyg.
- 3.55 Gan edrych ar sgiliau pobl a phersonol penodol, roedd yr anghydbwysedd mwyaf rhwng heriau mewnol ac allanol yn ymwneud â gweithio mewn tîm a pherswadio neu ddylanwadu ar eraill. Yn fewnol, teimlwyd bod 59 y cant o'r staff cyfredol yn brin o sgiliau cyflwyno, o'i gymharu â dim ond 44 y cant o ymgeiswyr. Roedd diffyg sgiliau perswadio a dylanwadu yn cyfrannu at bron i hanner yr holl fylchau mewn sgiliau (46 y cant), o'i gymharu gyda dim ond traean o swyddi gwag gyda phrinder sgiliau (33 y cant). Mae hyn yn awgrymu y gallai cyflogwyr wneud mwy i asesu nodweddion ymgeiswyr sy'n cyfrannu at y sgiliau yma cyn cynnig cyflogaeth, yn arbennig ar gyfer gweithio mewn tîm oherwydd teimlwyd bod hynny'n broblem fwy cyffredin ymysg staff cyfredol.
- 3.56 O ran sgiliau ymarferol a thechnegol, er nad oedd nifer o'r ymatebwyr yn ystyried bod sgiliau Tech Gwyb sylfaenol ac uwch yn brin mewn recriwtiaid posibl (17 a 15 y cant yn y drefn honno), daeth hi'n amlwg bod sgiliau o'r fath yn broblem fwy ymysg staff cyfredol (37 a 33 y cant). Gallai rhywun gynnig amrywiaeth o ddamcaniaethau i esbonio'r gwahaniaeth yma, ond o leiaf maen nhw'n dangos – yng nghyd destun tirlun technolegol sy'n newid yn gyflym – y gallai cyflogwyr wneud mwy i sicrhau bod eu staff cyfredol yn gallu addasu a harneisio technolegau newydd.

Casgliadau

- 3.57 Ychydig o staff a ystyriwyd yn brin o hyfedredd (4.5 y cant); mae hyn wedi gostwng ers 2013, ac wedi dychwelyd i lefelau 2011.
- 3.58 Mae'r arolwg yn pwyntio at feysydd arbennig o fylchau mewn sgiliau ymysg y staff presennol a allai, os na chânt eu datrys, atal sefydliadau rhag cyrraedd eu potensial. Mae diffyg rheolaeth ar amser a sgiliau blaenoriaethu tasgau er enghraifft yn pwyntio at gynnydd yn y galw ar staff i ymdopi gyda chyfrifoldebau niferus. Gallai problemau o'r fath effeithio ar gynhyrchiant yn y gweithle.

- 3.59 Roedd diffyg sgiliau dadansoddi cymhleth yn amlwg hefyd yn y staff cyfredol. Mae sgiliau o'r fath yn dod yn gynyddol bwysig wrth i gyflogwyr ddefnyddio technolegau cynyddol glyfar. Gallai cyfyngiadau yn y maes yma atal cwmnïau rhag cymryd rhan mewn arferion arloesol sydd yn aml yn rhagflaenu tyfiant.
- 3.60 Hyd yn hyn, mae'r adroddiad yma wedi canolbwyntio ar y diffygion mewn sgiliau sy'n bodoli yn allanol ac o fewn sefydliadau, a sut mae'r materion hyn yn effeithio ar berfformiad busnes. Yn y bennod nesaf, rydym yn archwilio'r anghydbwysedd sgiliau sy'n gallu digwydd os nad yw sefydliadau'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o sgiliau a chymwysterau eu gweithwyr cyflogedig.

4. Canfyddiadau cyflogwyr o danddefnyddio sgiliau a chymwysterau

Crynodeb o'r Bennod

- 4.1 Gallai rhai cyflogwyr weld anghydbwysedd mewn sgiliau lle maent yn gweld bod staff yn cael eu "tanddefnyddio", hynny ydy, bod y sgiliau a'r cymwysterau sydd gan y staff yma'n rhai lefel uwch na'r rheiny sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl gyfreol. **Dywedodd traean o'r cyflogwyr bod ganddynt o leiaf un cyflogai sy'n cyfateb â'r disgrifiad yma o fewn eu sefydliad (34 y cant), a soniwyd bod 89,000 o weithwyr yn cael eu tanddefnyddio yn y ffordd yma (wyth y cant o'r gweithlu).** Rheolaeth oedd yr alwedigaeth fwyaf cyffredin oedd yn cael ei thanddefnyddio.
- 4.2 Cafwyd nifer o resymau gwahanol gan gyflogwyr am danddefnyddio sgiliau. **Dywedodd oddeutu un ymhob pump (22 y cant) o gyflogwyr a soniodd am danddefnyddio sgiliau mai'r rheswm am hynny yw nad oes gan staff ddiddordeb mewn cymryd rôl lefel uwch:** dywedodd 14 y cant bod yr oriau gwaith yn fwy addas i'w cyflogeion. Byddai'n ymddangos mai dewis personol yr unigolyn yw hynny am fod y rolau swyddi yma'n fwy addas i'w hanghenion. Fodd bynnag, roedd y rhesymau eraill a roddwyd gan gyflogwyr yn ymwneud â'r hyn y gellid ei ystyried yn brinder yn y nifer o swyddi sydd ar gael a fyddai'n defnyddio eu sgiliau, h.y. diffyg galw am eu sgiliau yn y farchnad waith. Er enghraifft, dywedodd 14 y cant o gyflogwyr oedd yn sôn am danddefnyddio mai'r rheswm oedd diffyg swyddi yn y rôl lefel uwch ddewisedig a dywedodd naw y cant bod y staff yma'n cael profiad ar gyfer rôl lefel uwch.
- 4.3 Mae tanddefnydd yn cynrychioli nid yn unig wastraff o dalent unigolion ond hefyd o bosibl golli cyfle i gyflogwyr gynyddu perfformiad a chynhyrchiad, gwella boddhad mewn swydd a lles cyflogeion, ac ysgogi buddsoddiad, menter ac arloesiad.

Cyflwyniad

- 4.4 Yn ogystal â phrinder sgiliau yn y farchnad lafur sydd ar gael a/neu ymysg y gweithlu presennol, mae anghydbwysedd mewn sgiliau'n gallu digwydd mewn sefydliadau pan nad yw sgiliau a chymwysterau unigolion yn cael eu defnyddio'n llawn yn y gweithlu. Rydym yn cyfeirio at hyn yn yr adroddiad yma fel 'tanddefnyddio' (er y cyfeirir at y ffenomenon weithiau mewn mannau eraill

fel 'tanddefnyddio sgiliau', 'sgiliau rhy uchel', 'cymwysterau rhy uchel' a/neu 'dan-gyflogaeth').

- 4.5 Yn ESS, dywedir bod tanddefnyddio'n digwydd pan fydd cyflogwr yn ystyried bod gan aelod o staff gymwysterau **a** sgiliau ar lefel uwch nag sy'n ofynnol ar gyfer rôl eu gwaith cyfredol. Yn 2011 a 2013, tynnwyd mynychdra o un cwestiwn¹⁵, adroddwyd am danddefnyddio gan hanner y cyflogwyr yn 2013 (50 y cant), ac ychydig o dan hanner yn 2011 (45 y cant).
- 4.6 Mae ESS 2015 wedi ceisio mireinio sut mae mynychdra 'tanddefnyddio' yn cael ei fesur, gan bennu tanddefnyddio drwy agweddau dau gwestiwn dilyniannol¹⁶, gyda'r bwriad o leihau gor-adrodd tybiedig (h.y. achosion lle mae gan staff **naill ai** sgiliau **neu** gymwysterau ond **nid y ddau**). O ganlyniad i'r mesur diwygedig yma o danddefnydd, nid yw unrhyw gymhariaethau cyfresi amser wedi eu cyflwyno yn y bennod hon¹⁷.
- 4.7 Ychwanegodd arolwg 2015 gwestiynau hefyd i archwilio'r rolau galwedigaethol lle, *yn ôl canfyddiad y cyflogwyr*, y mae tanddefnyddio'n digwydd amlaf o fewn sefydliad, a'r rhesymau pam fod cyflogwyr yn ystyried ei fod yn digwydd. Mae archwilio'r rhesymau am y tanddefnydd yn eu barn nhw'n gadael i ni bennu ymhle mae aneffeithiolrwydd efallai o fewn y farchnad wrth i unigolion ennill cymwysterau a datblygu sgiliau y maent hwy wedyn (a'r economi) yn methu manteisio arnynt (ac, felly, mae'r adeniliad ar y buddsoddiad mewn datblygu sgiliau wedi'u gyfyngu).
- 4.8 Mae ategu'r cwestiynau yn y ffordd yma'n hwyluso'r broses o adnabod cyfleoedd posibl i (rai) cyflogwyr ail strwythuro'r swyddi y maent yn eu cynnig, neu i ail feddwl eu harferion sefydliadol, er mwyn gwneud defnydd gwell o'r sgiliau a allai fod ar gael iddynt.

Amlygrwydd y tanddefnyddio

- 4.9 Ar draws y busnesau yng Nghymru, dywedodd 44 y cant bod ganddynt weithwyr cyflogedig gyda chymwysterau ar lefel uwch nag sy'n ofynnol ar gyfer

¹⁵“Rydych wedi dweud bod gennych [NIFER] o staff sy'n **gwbl** hyfedr yn eu swydd. O'r rhain, faint fydddech chi'n ddweud sydd â'r **ddau** gymhwyster **a** sgiliau sydd ar lefel uwch nag sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl waith gyfredol?”

¹⁶“Faint [o'ch staff yn y sefydliad hwn] fydddech chi'n ddweud sydd â **chymwysterau** sydd ar lefel uwch nag sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl gyfredol?” ac yn dilyn hynny “Faint ohonyn [nhw] sydd **hefyd** â **sgiliau** sydd ar lefel uwch nag sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl gyfredol?”

¹⁷ Gellir adolygu effaith yr ailddiffinio hwn ar lefelau o fynychdra yn Nhabl A.4.1 yn Atodiad A, sy'n rhoi disgrifiad manwl o fynychdra tanddefnyddio ar gyfer 2011, 2013 a 2015 yn ôl rhanbarth, maint y sefydliad a'r sector.

eu rôl swydd gyfredol. Gostyngodd hyn i draean (34 y cant) pan fo sefydliadau'n ystyried a oes gan yr unigolion yma *hefyd* sgiliau ar lefel uwch nag sydd eu hangen. Yn nhermau maint, roedd gan 89,000 o weithwyr neu wyth y cant o'r gweithlu sgiliau a chymwysterau oedd ddim yn cael eu defnyddio'n ddigonol.

4.10 Mae'r canfyddiadau yma (yn nhermau mynychdra a dwysedd) ychydig bach yn uwch - ac eto'n arwyddocaol - na'r rheiny a welir ar draws y DU gyfan, lle mae 30 y cant o sefydliadau wedi sôn am staff yn cael eu tanddefnyddio, yn cyfri am saith y cant o'r gweithlu.

4.11 Roedd rhai patrymau nodedig o danddefnyddio mewn gwahanol rannau o'r economi yng Nghymru:


- Roedd cyflogwyr yng Nghanolbarth Cymru'n llawer llai tebygol na'r rheiny o'r holl ranbarthau eraill o sôn am danddefnyddio (29 y cant o'i gymharu â 33, 35 a 35 y cant yn Ne ddwyrain Cymru, Gogledd Cymru a De orllewin Cymru, yn y drefn honno). Gan edrych ar y Rhanbarthau CGE, mae'r rheiny yn Nwyrain Cymru'n llai tebygol hefyd o wneud hynny (32 y cant o'i gymharu â 34 y cant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd).
- Roedd y tebygolrwydd y byddai cyflogwyr yn sôn am danddefnyddio yn llawer is ymysg y rheiny gyda 2-4 o gyflogeion o'i gymharu gyda'r rheiny sydd â 5 neu fwy (32 y cant a 35 y cant).
- Roedd tanddefnyddio'n fwyaf cyffredin o fewn y sector Gwestai a Bwytai (45 y cant), ac yn dilyn hynny sectorau Celfyddydau, Adloniant, Hamdden a Gwasanaethau Eraill a Thrydan, Nwy a Dŵr (y ddau yn 43 y cant).

4.12 Mae'n bosibl bod hyn yn amcangyfrif rhy isel: doedd saith y cant o gyflogwyr ddim yn gwybod a oedd gan eu staff sgiliau neu gymwysterau ar lefel uwch nag sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl, gyda'r gyfran hon yn codi i fwy na dwy ran o dair (36 y cant) ymysg sefydliadau sy'n cyflogi 100+ o weithwyr. Efallai nad yw hyn yn syndod, yn arbennig o fewn gweithlu mwy lle mae'n gallu bod yn anodd i gyflogwyr gael gwybodaeth lawn o'r **holl** sgiliau a chymwysterau sydd gan yr **holl** unigolion. Mae hyn hyd yn oed yn fwy gwir os yw unigolion wedi dewis cyfyngu ar ba sgiliau a chymwysterau y maent eisiau dod â nhw i'w dewis gyflogaeth neu at sylw eu cyflogwr.

Y galwedigaethau sydd wedi eu heffeithio fwyaf gan danddefnydd

4.13 Lle dywedodd cyflogwyr bod ganddynt staff y mae eu cymwysterau a'u sgiliau wedi eu tanddefnyddio yn eu rôl gyfredol, gofynnodd yr arolwg iddynt ganfod y rôl lle'r oedd hyn yn digwydd amlaf. Mae Ffigur 4.1 yn dangos y rolau lle mae cyflogwyr wedi sôn yn fwyaf cyffredin am danddefnyddio.

Ffigur 4.1 Un alwedigaeth a effeithiwyd fwyaf gan danddefnyddio



4.14 Dywedodd bron i bump o gyflogwr (37 y cant, yr un gyfran ag a welir ar draws y DU) a soniodd am danddefnydd, ei fod yn fwyaf tebygol o ddigwydd ymysg y rheiny sydd mewn rolau rheoli. Mae hyn braidd yn syndod, am fod Rheolwyr yn eistedd ar frig yr hierarchaeth alwedigaethol felly gallech ddod i'r casgliad nad oes lefel uwch lle gallai pobl ddefnyddio'r sgiliau a'r cymwysterau hynny sydd ganddynt nad ydynt yn cael eu defnyddio.

4.15 Gellir esbonio'r canlyniad yma i ryw raddau gan y ffaith mai dyma'r alwedigaeth fwyaf amlwg ar draws y sefydliadau, ac mae culhau naturiol yn digwydd yn yr ysgol yrfaol wrth iddi gyrraedd y brig, gan olygu bod nifer y bobl sy'n gallu parhau i ddringo'n gyfyngedig. Ar ben hynny, wrth i unigolion gymryd safleoedd rheoli, gallent yn aml iawn beidio bod angen defnyddio rhai o'r sgiliau a chymwysterau mwy technegol y maent wedi eu dysgu yn y gorffennol (e.e.


sgiliau a chymwysterau sy'n berthnasol i'r gwasanaeth craidd y mae eu sefydliad yn ei ddarparu). Os ydyn nhw, neu eu cyflogwr, yn gweld bod y cymwysterau a'r sgiliau technegol yma neu'r rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau ar "lefel uwch" nag sydd ei angen ar gyfer eu rôl rheoli, yna efallai y byddent yn nodi bod yr esgyn yma i fyny'r ysgol waith yn adlewyrchu tanddefnydd repertoire llawn eu sgiliau.

- 4.16 Nodwch y gofynnwyd i'r cyflogwyr ddewis **yr un alwedigaeth** lle mae tanddefnydd yn **fwyaf** cyffredin: mae hyn yn golygu nad yw'r arolwg yn sefydlu dadansoddiad llawn o'r galwedigaethau lle mae tanddefnydd yn digwydd.

Rhesymau am danddefnydd

- 4.17 Wedi i gyflogwyr bennu'r galwedigaethau lle roedd tanddefnydd wedi digwydd yn fwyaf cyffredin yn eu sefydliad, gofynnwyd iddynt pam eu bod yn teimlo ei fod wedi digwydd ymysg y staff yma. Mae'n bwysig cofio drwy gydol yr adran hon bod yr holl resymau a roddir yn dod o safbwynt y cyflogwr. Fel y gwelwch yn Ffigur 4.2, achos mwyaf cyffredin y tanddefnydd, fel y mae cyflogwyr yn ei gweld hi, oedd prinder diddordeb ymysg staff i gymryd rôl lefel uwch gyda mwy o gyfrifoldeb; roedd mwy nag un ymhob pump o sefydliadau lle'r oedd tanddefnydd wedi digwydd wedi rhoi'r rheswm yma (22 y cant). Mae hyn ychydig yn is na'r hyn a gafwyd drwy'r DU gyfan (26 y cant).
- 4.18 Yn yr un modd, roedd prinder swyddi mewn rolau lefel uwch hefyd ymysg y rhesymau a nodwyd amlaf (14 y cant). Mae hyn yn agor y cwestiwn – os byddai cyflogwyr yn ail ddylunio rolau eu swyddi, a/neu wedi addasu amodau cyflogaeth mewn ffyrdd eraill – a fyddai cyfleoedd i gyflogwyr ddefnyddio'r sgiliau a chymwysterau sydd ar gael iddynt yn barod o fewn eu sefydliad mewn ffordd well?

Ffigur 4.2 Rhesymau am y tanddefnydd (ddim wedi rhoi hwb)



- 4.19 Roedd oddeutu un ymhob deg o gyflogwyr yn teimlo bod tanddefnydd wedi digwydd am fod angen i staff gael profiad yn eu swydd ddymunol cyn symud ymlaen at rolau o'r fath (naw y cant). Gallech ragdybio bod nifer o achosion o gamddefnydd yn cael eu gyrru (neu o leiaf eu gwella) gan ddiffyg galw am y sgiliau a/neu'r cymwysterau sydd gan y staff yma. Gallai hwn fod yn fater strwythurol sy'n adlewyrchu gor-gyflenwad o bobl sydd â'r medrau addas yn chwilio am fath arbennig o rôl; neu gallai fod yn fwy dros dro ei natur, gan adlewyrchu oedi rhwng pobl sy'n dysgu'r sgiliau ac yn gallu eu defnyddio nhw, neu dderbyn cydnabyddiaeth amdanynt (er enghraifft, drwy ddyrchafiad). Mae'n ymddangos yn broblem arbennig yng Nghymru, gyda dim ond 11 y cant o fusnesau'r DU yn sôn bod tanddefnyddio wedi digwydd oherwydd diffyg swyddi sydd ar gael mewn rolau lefel uwch dymunol (o'i gymharu gydag 14 y cant yng Nghymru)
- 4.20 Mae canfyddiadau allweddol o'r ffordd mae gwahanol fathau o danddefnyddio'n ymwneud â gwahanol alwedigaethau i'w gweld yn Nhabl 4.1 (i weld y manylion llawn gwelwch Dabl A.4.2 yn Atodiad A).

4.21 Roedd cyflogwyr yn ystyried diffyg diddordeb gan staff mewn cymryd rolau uwch yn brif reswm dros danddefnydd ar draws y mwyafrif o alwedigaethau, a'r mwyaf amlwg mewn perthynas â staff Gofalu, Hamdden a Gwasanaethau Eraill (28 y cant). I Staff elfennol a Gweithredwyr Peiriannau, penderfynwyd mai diffyg swyddi mewn rolau lefel uwch a ddymunir oedd y rhesymau mwyaf amlwg bod staff yn cael eu tanddefnyddio (23 y cant a 22 y cant yn y drefn honno).

Tabl 4.1 Rhesymau am danddefnydd yn ôl galwedigaeth

Galwedigaeth	Y prif resymau am danddefnydd	(Arall) Amrywiadau or cyfartaledd
Rheolwyr	1. Dim diddordeb mewn cymryd rôl lefel uwch (23%) 2. Maent yn berchen ar y busnes / yn bartner (17%) 3. Mae'r oriau gwaith yn well iddynt (12%)	
Pobl broffesiynol	1. Dim diddordeb mewn cymryd rôl lefel uwch (27%) 2. I gael profiad / mae'r rôl bresennol ar lefel is yn yr un diwydiant na'r rôl lefel uwch a ddymunir (14%) 3. Mae'r oriau gwaith yn well iddynt (12%)	
Pobl broffesiynol cyswllt	1. Dim diddordeb mewn cymryd rôl lefel uwch (27%) 2. I gael profiad / mae'r rôl bresennol ar lefel is yn yr un diwydiant na'r rôl lefel uwch a ddymunir (19%) 3. Diffyg swyddi yn y rôl lefel uwch a ddymunir (17%)	Roedd 'Mae'r oriau gwaith yn well iddynt' yn llai tebygol na'r cyfartaledd o gael ei nodi ar gyfer Pobl broffesiynol cyswllt (7%)
Staff Gweinyddol / Clerigol	1. Dim diddordeb mewn cymryd rôl lefel uwch (18%) 2. Mae'r oriau gwaith yn well iddynt (18%) 3. Diffyg swyddi yn y rôl lefel uwch a ddymunir (17%)	
Galwedigaethau Masnachau Medrus	1. Dim diddordeb mewn cymryd rôl lefel uwch (23%) 2. Busnes a redir gan y teulu (12%) 3. Amodau cyflogaeth atyniadol (11%) 4. Diffyg swyddi yn y rôl lefel uwch a ddymunir (11%)	
Gofalu, Hamdden a Gwasanaethau Eraill	1. Dim diddordeb mewn cymryd rôl lefel uwch (28%) 2. I gael profiad/ mae'r rôl gyfredol ar lefel is yn yr un diwydiant (20%) 3. Mae'r oriau gwaith yn well iddynt (19%)	Wrthi'n chwilio am staff gyda chymwysterau uwch na'r rheiny sydd eu hangen ar gyfer y rôl a nodir amlaf ar gyfer yr alwedigaeth hon (8%)
Gwerthiannau a Gwasanaeth y Cwsmer	1. Dim diddordeb mewn cymryd rôl lefel uwch (22%) 2. Diffyg swyddi yn y rôl lefel uwch a ddymunir (21%) 3. Mae'r oriau gwaith yn well iddynt (18%)	Cystadleuaeth am rolau lefel uwch ac mae'r rôl gyfredol yn un dros dro sy'n cael ei nodi'n amlach na'r cyfartaledd ar gyfer yr alwedigaeth hon (12% a 16%)
Gweithredwyr Peiriannau	1. Prinder swyddi yn y rôl lefel uwch a ddymunir (22%) 2. Mae'r oriau gwaith yn well iddynt (15%) 3. Dim diddordeb mewn cymryd rôl lefel uwch (13%)	
Staff elfennol	1. Prinder swyddi yn y rôl lefel uwch a ddymunir (23%) 2. Mae'r swydd gyfredol yn un dros dro / rhywbeth i lenwi bwlch (22%) 3. Mae'r oriau gwaith yn well iddynt (16%)	Cystadleuaeth am rolau lefel uwch a busnes a redir gan y teulu sy'n cael eu nodi amlaf ar gyfer yr alwedigaeth hon (13% a 12%)

Sail: Pob sefydliad gyda staff wedi eu tanddefnyddio (2,089)

Rhesymau am danddefnyddio yn ôl y rhanbarth

- 4.22 Ychydig iawn o wahaniaethau sylweddol a welwyd yn ôl y rhanbarth. Y mwyaf amlwg oedd y gyfran uwch o gyflogwyr a nododd bod tanddefnydd yn digwydd am nad oedd gan staff ddiddordeb mewn cymryd rolau lefel uwch yng Nghanolbarth Cymru (28 y cant), o'i gymharu gyda'r holl Ranbarthau eraill (20 i 23 y cant).
- 4.23 Roedd Canolbarth Cymu'n wahanol i ranbarthau eraill hefyd yn nhermau'r gyfran o sefydliadau lle ystyriwyd bod yr angen am gael profiad neu waith mewn rôl lefel is yn y maes a ddymunir wedi'i ystyried yn rheswm am danddefnyddio; dim ond pedwar y cant o sefydliadau yng Nghanolbarth Cymru a nododd hyn fel rheswm o'i gymharu gydag oddeutu un ymhob deg o sefydliadau yng Ngogledd a De ddwyrain Cymru (9 ac 11 y cant yn y drefn honno).
- 4.24 Roedd gan dde ddwyrain Cymru gyfran llawer is o staff yn cael eu tanddefnyddio oherwydd natur deuluol y sefydliad na'r holl ranbarthau eraill (pedwar y cant o'i gymharu gydag 13, wyth a saith y cant yng nghanolbarth, gogledd a de orllewin Cymru).

Y rhesymau am danddefnydd yn ôl maint y sefydliad

- 4.25 Ystyriwyd mai'r prif reswm am danddefnydd mewn sefydliadau gyda 2 i 49 o gyflogeion oedd diffyg diddordeb mewn rolau lefel uwch; yn arbennig y sefydliadau sy'n cyflogi 25 i 49 o weithwyr (26 y cant).
- 4.26 Roedd sefydliadau mwy (gyda 50+ o gyflogeion) yn llawer mwy tebygol o weld y sialens o'r safbwynt cyferbyniol, bod prinder swyddi yn y rolau lefel uwch a ddymunir; dros chwarter o sefydliadau gyda 50 i 99 o gyflogeion (26 y cant), a dau ymhob pump gyda 100 neu fwy o weithwyr cyflogedig (39 y cant) wedi nodi mai'r rheswm am hyn oedd tanddefnydd y staff. Yn gysylltiedig â hyn, roedd sefydliadau yn fwy tebygol hefyd o nodi cystadleuaeth am rolau lefel uwch fel rheswm am danddefnydd (18 y cant ar gyfer 100+ o sefydliadau, o'i gymharu gyda phump y cant ar gyfartaledd).
- 4.27 O'u cymryd gyda'i gilydd, mae hyn yn awgrymu bod rhai sefydliadau mwy naill ai'n methu neu'n amharod i symud cyflogeion i fyny'r gadwyn, neu greu amgylchedd sy'n caniatáu cynnydd i'r rheiny sy'n ei warantu.
- 4.28 Mae'r canfyddiadau yma'n cyfateb i raddau mawr gyda'r rheiny ar draws y DU.

4.29 Gallwch weld manylion llawn y rhesymau a nodwyd am danddefnyddio yn ôl maint y sefydliad yn Nhabl A.4.3 yn Atodiad A.

Rhesymau am danddefnydd yn ôl y sector

4.30 Diffyg diddordeb mewn rolau lefel uwch oedd y rheswm a roddwyd amlaf am danddefnyddio ar draws y mwyafrif o sectorau, ac yn fwyaf amlwg mewn perthynas â staff mewn Gweinyddu Cyhoeddus (33 y cant¹⁸), Addysg (30 y cant), a'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol (28 y cant). Mae'r rhain oll yn sectorau lle mae'r gweithlu'n tueddu bod wedi'u dominyddu fwy gan ferched¹⁹, gan ychwanegu credinedd i'r syniad mai merched yn bennaf sy'n gwneud y penderfyniad i aros mewn rolau lle cânt eu tanddefnyddio oherwydd anghydbwysedd rhwng y rhywiau mewn rheoli teulu a gofal plant.

4.31 Mae manylion y rhesymau yn ôl y sector i'w gweld yn Nhabl A.4.4 yn Atodiad A.


Tanddefnyddio a heriau eraill

4.32 Fel y gwelwch yn Ffigur 4.3, roedd sefydliadau lle'r oedd staff wedi eu tanddefnyddio yn fwy tebygol na'r rheiny hebddynt o gael bylchau mewn sgiliau a phrofi anawsterau cadw staff; roeddent hefyd ychydig bach yn fwy tebygol o gael profiad o swyddi gwag lle mae prinder sgiliau.

¹⁸Dylid bod yn ofalus gyda'r ffigur yma oherwydd maint isel y sail ($n=29$)

¹⁹Arolwg Poblogaeth Blyneddol ONS (o Nomis 2015) – Mae merched yn cyfrif am 70 y cant o'r gyflogaeth yn y sectorau Gweinyddu Cyhoeddus, Addysg ac Iechyd (SIC O-P).

Ffigur 4.3 Y berthynas rhwng tanddefnydd a heriau eraill



- 4.33 Ar gyfer bylchau mewn sgiliau, mae'r gwahaniaeth yn fwyaf amlwg lle esboniwyd y tanddefnydd fel canlyniad i Ddiffyg swyddi yn y rôl lefel uwch a ddymunir: gydag oddeutu chwarter y cyflogwyr a nododd y rheswm yma wedi gweld bylchau mewn sgiliau (23 y cant). Mae hwn yn batrwm tebyg i ganfyddiadau'r DU.
- 4.34 Gallai'r lefelau uwch o anawsterau cadw staff ymysg sefydliadau gyda thanddefnydd fod yn arwydd bod staff yn gadael sefydliadau lle maent yn teimlo nad ydynt yn gallu defnyddio eu sgiliau yn llawn.

Casgliadau

- 4.35 Mae'r bennod hon wedi dadansoddi cyfres o gwestiynau sy'n newydd i'r gyfres Arolwg Sgiliau Cyflogwyr sy'n disgrifio sialens sgiliau lle mae cyflogwyr yn nodi bod gan eu cyflogeion sgiliau a chymwysterau sy'n uwch na'r rheiny y maent eu hangen i berfformio yn rôl eu swyddi.
- 4.36 Lle mae'r math yma o gamaliniad yn digwydd, efallai ei fod yn arwyddo o angen i gyflogwyr aildrefnu sut maent yn cynnig gwaith i'w cyflogeion, yn arbennig lle maent yn fwy tebygol o gael problemau cadw staff neu fylchau mewn sgiliau.

4.37 Yn y bennod nesaf byddwn yn edrych ar ddatblygiad sgiliau, ac arferion cyflogwyr yn nhermau cyllido a threfnu hyfforddiant i ddatblygu sgiliau eu gweithlu.

5. Hyfforddiant a datblygiad y gweithlu

Crynodeb o'r Bennod

- 5.1 Ychydig iawn o newid oedd yn y mesurau hyfforddiant pennawd yng Nghymru rhwng 2015 ac arolwg 2013.
- 5.2 Parhaodd y sefyllfa lle'r oedd **ychydig dros dair rhan o bump o gyflogwyr (63 y cant) wedi ariannu neu drefnu hyfforddiant neu ddatblygiad i'w staff dros y 12 mis blaenorol**; yn debyg i flynyddoedd blaenorol, roedd hyn ychydig yn is na'r gyfran oedd yn hyfforddi ledled y DU gyfan (66 y cant).
- 5.3 Roedd oddeutu hanner y cyflogwyr yng Nghymru'n darparu hyfforddiant yn y gwaith (49 y cant), gyda'r un gyfran yn darparu hyfforddiant tu allan i'r swydd (49 y cant i fyny o 47 y cant yn 2013).
- 5.4 Yn wahanol i'r DU gyfan, lle'r oedd cyfrannau tebyg o staff wedi cael eu hyfforddi yn 2015 ag yn 2013, **roedd cyflogwyr yng Nghymru wedi hyfforddi cyfran fwy o'u staff yn 2015** (64 y cant) o'i gymharu â 2013 (62 y cant) a 2011 (56 y cant). Roedd cyflogwyr yng Nghymru yn fwy tebygol hefyd o fod wedi trefnu neu ariannu hyfforddiant at gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol (54 y cant o'r rheiny oedd yn hyfforddi o'i gymharu â 47 y cant ar draws y DU).
- 5.5 Roedd pob person a hyfforddwyd yng Nghymru wedi derbyn cyfartaledd o 7.2 o ddiwrnodau o hyfforddiant, yn uwch na'r cyfartaledd o 6.8 o ddyddiau ar draws y DU gyfan, ond ychydig yn is na'r 7.7 o ddiwrnodau o hyfforddiant i bob person yng Nghymru yn 2013. Ond, cyfanswm y diwrnodau hyfforddi yng Nghymru oedd 5.4 miliwn o ddiwrnodau, yn debyg i 5.6 miliwn yn 2013.
- 5.6 **Gwariodd cyflogwyr yng Nghymru gyfanswm o £2.1 biliwn ar hyfforddiant yn 2015, sef cynnydd o wyth y cant ar y £1.9 biliwn a wariwyd yn 2013, a chynnydd o 27 y cant ar y £1.6 biliwn a wariwyd yn 2011.** Fodd bynnag, arhosodd y gwariant cyfartalog ar bob person a hyfforddwyd a phob cyflogai yn gyfatebol â 2013.
- 5.7 Roedd y defnydd o **hyfforddiant ar-lein neu e-ddysgu a hunan-ddysgu arall** yn weddol gyffredin ymysg cyflogwyr sy'n hyfforddi yng Nghymru (43 y cant a 37 y cant yn y drefn honno). Roedd y mathau yma o hyfforddiant yn cynyddu'n gyffredinol hefyd, yn arbennig hyfforddiant ar-lein ac e-ddysgu (roedd 40 y cant o'r rheiny yn defnyddio'r dull yma o gwbl yn y ddwy flynedd ddiwethaf wedi sôn

am gynnydd dros y 12 mis diwethaf, o'i gymharu gydag 19 y cant oedd yn ei ddefnyddio llai).

- 5.8 Roedd hanner y cyflogwyr oedd yn hyfforddi (49 y cant) eisiau darparu mwy o hyfforddiant nag yr oeddent wedi gallu ei wneud, a'r prif rwystrau oedd diffyg arian ar gyfer hyfforddi a diffyg amser. Mae'r rhesymau yma'n awgrymu bod 'cyfyngiad' gan rai busnesau ar y gwerth y maent yn ei roi ar hyfforddiant, ac y tu hwnt i hwn nid yw'r hyfforddiant yn darparu digon o ad-daliad ar y buddsoddiad, neu o leiaf ni ystyrir ei fod yn gwneud hynny.

Cyflwyniad

- 5.9 Cydnabyddir yn eang bod hyfforddi staff yn y gweithle'n ddull allweddol o wella sgiliau a chynhyrchiant, gan felly gynnal a gwella gallu cystadleuol ac ysgogi tyfiant economaidd²⁰. Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, gwelsom mai cynyddu gweithgareddau hyfforddi oedd yr ymateb mwyaf cyffredin gan gyflogwyr i geisio ymdrin â bylchau mewn sgiliau ymysg eu gweithlu. Mae'r bennod hon yn archwilio tueddiadau yng ngweithgareddau hyfforddi cyflogwyr ers 2011, gan edrych ar;

- Ba gyflogwyr oedd yn ariannu neu'n trefnu hyfforddiant a datblygiad i'w cyflogeion.
- Faint o gyflogeion a pha gyflogeion roeddent yn darparu hyfforddiant iddynt.
- Y mathau a maint yr hyfforddiant a ddarperir.
- Gwariant cyflogwyr ar hyfforddiant.
- Y rhesymau am beidio darparu hyfforddiant a rhwystrau i ddarparu rhagor o hyfforddiant.

- 5.10 Trwy gydol y bennod mae'r hyfforddiant neu'r datblygiad a ddarperir gan gyflogwyr yn cael eu trafod yn nhermau:


- **Hyfforddiant neu ddatblygiad tu allan i'r swydd:** hyfforddiant a dderbyniwyd y tu allan i safle waith uniongyrchol yr unigolyn, p'un a yw hynny ar safle'r cyflogwyr neu'n rhywle arall.
- **Hyfforddiant a datblygiad o fewn y swydd:** gweithgareddau a fyddai'n cael eu cydnabod fel hyfforddiant gan staff, ac nid y math o ddysgu yn ôl profiad a allai ddigwydd drwy'r amser.

²⁰ Er enghraifft, ystyrir hyfforddiant yn rhywbeth canolog i ddarpariaeth y pedwar sgil allweddol sydd wedi'u nodi yn Natganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Sgiliau (Llywodraeth Cymru, 2014) <http://gov.Cymru/docs/dcells/publications/140129-policy-statement-on-skills-en.pdf>

Mynychdra hyfforddiant a datblygiad y gweithlu

- 5.11 Roedd ychydig dros dair rhan o bump o gyflogwyr yng Nghymru (63 y cant) wedi trefnu neu ariannu unrhyw hyfforddiant neu ddatblygiad o fewn neu'r tu allan i'r swydd ar gyfer unrhyw rai o'u staff yn y 12 mis blaenorol, yn unol â'r cyfrannau yn 2013 (62 y cant) a 2011 (63 y cant).
- 5.12 Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, roedd y gyfran oedd yn darparu hyfforddiant yng Nghymru yn 2015 yn sylweddol is na'r ffigur cyfan ar gyfer y DU (66 y cant); roedd y gwahaniaeth yma wedi'i yrru gan y cyfrannau uwch o hyfforddiant yn Lloegr (66 y cant) a'r Alban (71 y cant). Roedd y gyfran oedd yn darparu hyfforddiant yng Nghogledd Iwerddon yn cyfateb gyda Chymru (62 y cant).
- 5.13 Roedd oddeutu hanner (49 y cant) y cyflogwyr yng Nghymru'n darparu hyfforddiant o fewn y swydd, yn gyson gyda 2013 (48 y cant), ond yn is na'r lefel a welwyd ar draws y DU (53 y cant); mae'r lefel is yma o hyfforddiant yn y swydd yn esbonio i raddau mawr pam fo cyflogwyr yng Nghymru'n llai tebygol o fod wedi darparu hyfforddiant na'r cenhedloedd eraill yn y DU. Ond roedd cynnydd yn y gyfran o gyflogwyr yng Nghymru oedd yn darparu hyfforddiant y tu allan i'r swydd, o 47 y cant yn 2013 i 49 y cant yn 2015. Mae'r cynnydd yma'n gwrthgyferbynu'r darlun ar lefel y DU, lle'r oedd y gyfran oedd yn darparu hyfforddiant y tu allan i'r swydd wedi parhau'n gyson rhwng 2013 a 2015 (pob un yn 49 y cant).
- 5.14 Roedd oddeutu un ymhob saith o gyflogwyr (14 y cant) yng Nghymru wedi darparu hyfforddiant yn y swydd yn unig, sy'n is na'r cyfartaledd yn y DU o un ymhob chwech o gyflogwyr (17 y cant).
- 5.15 Fel y gwelwch yn Ffigur 5.1 roedd sefydliadau yng Nghanolbarth Cymru'n llawer llai tebygol na Rhanbarthau eraill o fod wedi darparu naill ai hyfforddiant y tu allan i'r swydd (40 y cant) neu hyfforddiant yn y swydd (41 y cant), fel a welwyd yn 2013 (40 y cant a 37 y cant yn y drefn honno). Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl y Rhanbarthau GCE.

Ffigur 5.1 Y ddarpariaeth hyfforddi dros y 12 mis diwethaf



- 5.16 Fel y gwelwyd mewn arolygon blaenorol, ac yng ngweddill y DU, roedd y tebygolrwydd bod sefydliad yn darparu hyfforddiant yn cynyddu gyda maint y cyflogwr. Ymysg y safleoedd lleiaf gyda 2-4 o staff roedd ychydig llai na'u hanner (47 y cant) wedi darparu unrhyw hyfforddiant, yn codi i fwy na thri chwarter (77 y cant) o'r rheiny gyda rhwng pump a 24 o staff, ac roedd hynny'n wir bron bob tro ymysg y rheiny gyda 25 neu fwy o staff (96 y cant).
- 5.17 Roedd amrywiaeth sylweddol rhwng sectorau, gyda'r hyfforddiant yn fwyaf tebygol o gael ei ddarparu gan gyflogwyr mewn Addysg (92 y cant), Trydan, Nwy a Dŵr (88 y cant), Iechyd a Gofal Cymdeithasol (87 y cant) a Gweinyddu Cyhoeddus (85 y cant), ac yn lleiaf tebygol o gael ei ddarparu gan gyflogwyr mewn Amaethyddiaeth (36 y cant), Cyfanwerthu a Manwerthu (57 y cant), ac Adeiladu (60 y cant). Roedd y canlyniadau hyn yn cyfateb gyda ffigurau 2013 yng Nghymru.
- 5.18 Gellir gweld mwy o ddata am fynychdra'r hyfforddiant yn ôl maint a sector yn Nhabl A.5.1 yn Atodiad A.

Nifer y staff a hyfforddwyd

5.19 Roedd cyflogwyr yng Nghymru wedi hyfforddi oddeutu 0.8 miliwn o staff yn y 12 mis blaenorol, sy'n gyfatebol ag ychydig llai na dwy ran o dair o'r gweithlu²¹ (64 y cant); cynnydd ar 2013 (62 y cant) a 2011 (56 y cant). Roedd hyn yn wrthgyferbyniol i'r darlun cyffredinol yn y DU, a welodd gyfrannau tebyg o'r gweithlu'n cael eu hyfforddi yn 2013 a 2015 (62 y cant a 63 y cant yn y drefn honno).

5.20 Mae Tabl 5.1 yn dangos y nifer a'r gyfran o staff a hyfforddwyd yn ôl y rhanbarth a'r maint ar gyfer 2011, 2013 a 2015.

Tabl 5.1 Nifer a chyfran y staff a hyfforddwyd dros y 12 mis diwethaf, yn ôl y rhanbarth a maint y sefydliad

	2011		2013		2015	
	Y nifer a hyfforddwyd (000's)	% o staff a hyfforddwyd	Y nifer a hyfforddwyd (000's)	% o staff a hyfforddwyd	Y nifer a hyfforddwyd (000's)	% o staff a hyfforddwyd
DU	14,700	55	16,800	62	17,400	63
Cymru	700	56	700	62	800	64
Rhanbarth						
Gogledd Cymru	155	59	182	69	166	60
Canolbarth Cymru	40	51	36	44	57	71
De orllewin Cymru	111	45	156	62	162	63
De ddwyrain Cymru	349	60	349	61	376	65
Rhanbarthu CGE						
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	377	54	472	63	429	62
Dwyrain Cymru	278	59	252	60	331	66
Maint						
2-4	48	41	41	36	42	37
5-24	165	56	161	55	171	56
25-49	93	65	98	67	108	71
50-99	94	67	106	75	93	62
100+	255	54	318	67	346	73

Sail: Pob sefydliad. Mae meintiau'r sail i'w gweld yn Nhabl A.5.2 yn Atodiad A.

Mae'r canrannau wedi eu seilio ar yr holl gyflogaeth yn hytrach na'r holl sefydliadau, felly mae'r ffigurau'n dangos y gyfran o staff ymhob is-grŵp a hyfforddwyd dros y 12 mis diwethaf.

5.21 Gwelodd Ganolbarth Cymru'r cynnydd mwyaf yn y gyfran o staff a hyfforddwyd (o 44 y cant yn 2013 i 71 y cant yn 2015), ochr yn ochr â chynnydd llai yn Ne


²¹Mae'n bosib bod y ffigur yma'n cynnwys elfen o or-gyfrif o ran y ffaith y gofynnwyd i gyflogwyr am y nifer o staff yr oeddent wedi'u hyfforddi dros y 12 mis diwethaf p'un a ydynt yn dal i weithio ar y safle ai peidio. Felly roedd rhywun a hyfforddwyd ar safle yn y 12 mis diwethaf ond a adawodd i ymuno â chyflogwr arall a ddarparodd yr hyfforddiant i'r person hwnnw'n cael ei gyfrif ddwywaith (os oedd y ddau gyflogwr wedi cael eu cyfweld ar gyfer yr arolwg).

ddwyrain Cymru. I'r gwrthwyneb, roedd y gyfran o'r gweithlu a hyfforddwyd yng Ngogledd Cymru wedi gostwng, o 69 y cant yn 2013 i 60 y cant yn 2015.

- 5.22 Yn ôl maint y sefydliad, roedd llawer o'r cynnydd wedi digwydd o fewn y band maint 100+, gyda'r gyfran a hyfforddwyd yn codi o chwe phwynt canran i 73 y cant, a'r nifer a hyfforddwyd yn cynyddu o 318,000 yn 2013 i 346,000 yn 2015. Fodd bynnag, gwelodd yr holl fandiau maint eraill gynnydd hefyd, ar raddfa lai, heblaw'r rheiny gyda rhwng 50 a 99 o staff; roedd y gyfran o'r gweithlu a hyfforddwyd yn y sefydliadau maint canolig yma wedi disgyn o 75 y cant yn 2013 i 62 y cant yn 2015, gyda chwymp arall yn y nifer gwirioneddol a hyfforddwyd (o 106,000 i 93,000).
- 5.23 Roedd gwahaniaethau sylweddol yn y cyfrannau o'r gweithlu a hyfforddwyd yn ôl y sector. Cafodd y cyfrannau uchaf o'r staff eu hyfforddi gan gyflogwyr mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol (86 y cant), Addysg (72 y cant), a Gwasanaethau Busnes (70 y cant). Yn debyg i 2013, hyfforddodd y cyflogwyr mewn Amaethyddiaeth y gyfran isaf o bell ffordd o'u gweithlu (27 y cant), yn unol â hierarchaeth y DU.
- 5.24 Mae'r canlyniadau ar gyfer nifer a chyfran y staff a hyfforddwyd yn ôl y sector, yn 2015, 2013 a 2011, i'w gweld yn Nhabl A.5.3 yn Atodiad A.
- 5.25 O ran galwedigaethau, yn 2015 yng Nghymru y staff mewn rolau Gofalu, Hamdden a Gwasanaethau Eraill oedd yn fwyaf tebygol o fod wedi derbyn hyfforddiant (88 y cant), ac roedd hyn yn wir hefyd ar draws y DU gyfan (80 y cant). Fodd bynnag, yn wahanol i'r canlyniadau ar draws y DU, roedd cynnydd yng Nghymru yn y gyfran o rolau Gwerthiannau a Gwasanaeth y Cwsmer oedd yn derbyn hyfforddiant, o 60 y cant yn 2013 i fyny i 70 y cant yn 2015²². Roedd galwedigaethau eraill yn gweld graddau amrywiol o ostyngiad yn y cyfrannau a hyfforddwyd.

²²Er bod angen rhywfaint o ofal am fod y canlyniadau wedi'u dylanwadu'n drwm gan nifer fechan o sefydliadau gyda nifer uchel o staff Gwerthu a Gwasanaeth y Cwsmer sy'n derbyn hyfforddiant.

Ffigur 5.2: Cyfran y staff a hyfforddwyd dros y 12 mis diwethaf yn ôl galwedigaeth (2011-2015)



Diwrnodau hyfforddi

5.26 Roedd y nifer o ddiwrnodau o hyfforddiant a roddwyd i bob cyflogai dros y 12 mis blaenorol yn amrywio'n fawr. Roedd un ymhob naw (11 y cant) wedi ariannu neu drefnu cyfartaledd o ddiwrnod neu lai i bob aelod o staff a hyfforddwyd, tra bo saith y cant wedi darparu cyfartaledd o fwy nag 20 diwrnod i bob aelod o staff a hyfforddwyd.

5.27 Mae Tabl A.5.4 yn Atodiad A yn rhoi manylion y canfyddiadau ar yr ystod o ddiwrnodau o hyfforddiant a ddarparwyd yn ôl y rhanbarth, maint a sector y cyflogwr.

5.28 Derbyniodd bob person a hyfforddwyd dros y 12 mis blaenorol 7.2 o ddiwrnodau o hyfforddiant ar gyfartaledd, yn uwch na'r cyfartaledd o 6.8 o ddiwrnodau ar draws y DU cyfan, a'r lefel uchaf o bob un o'r pedair gwlad. Fodd bynnag, roedd hyn yn dal i gynrychioli gostyngiad bychan o'r cyfartaledd o 7.7 diwrnod yng Nghymru yn 2013. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Nhabl 5.2.

5.29 Roedd gostyngiad mewn diwrnodau hyfforddi ymysg y sefydliadau mwyaf oedd â 100 neu fwy o staff, gyda'r diwrnodau i bob person a hyfforddwyd yn disgyn o

7.6 yn 2013 i 6.0 yn 2015, a'r diwrnodau i bob cyflogai'n disgyn o 5.1 i 4.4 dros yr un cyfnod. Mae hyn yn dangos, ochr yn ochr â'r cynnydd mewn cyfran a nifer y staff a hyfforddwyd o fewn sefydliadau gyda 100 neu fwy o gyflogeion, bod maint yr hyfforddiant a ddarperir i bob person wedi lleihau, gan arwain at ostyngiad bach yn y diwrnodau hyfforddi cyfan ymysg y grŵp yma o'i gymharu â 2013 (o 2.4 miliwn i 2.1 miliwn).

- 5.30 Cyfanswm nifer y diwrnodau hyfforddi yng Nghymru oedd 5.4 miliwn o ddiwrnodau, yn unol â 5.6 miliwn o ddiwrnodau yn 2013. Ar draws y DU cynyddodd cyfanswm y diwrnodau hyfforddi o 113 miliwn i 118 miliwn o ddiwrnodau, wedi'i yrru i raddau mawr gan gynnydd yn y cyfanswm o ddiwrnodau hyfforddi a ddarparwyd yn Lloegr.

Tabl 5.2 Cyfanswm y diwrnodau o hyfforddiant a datblygiad, a'r diwrnodau i bob person a hyfforddir ac i bob cyflogai yn ôl maint (2011 – 2015)

	2011			2013			2015		
	Cyfanswm diwrnodau hyfforddi	Diwrnodau i bob person a hyffoddir	Diwrnodau i bob cyflogai	Cyfanswm diwrnodau hyfforddi	Diwrnodau i bob person a hyffoddir	Diwrnodau i bob cyflogai	Cyfanswm diwrnodau hyfforddi	Diwrnodau i bob person a hyffoddir	Diwrnodau i bob cyflogai
DU	115m	7.8	4.2	113m	6.7	4.2	118m	6.8	4.2
Cymru	4.9m	7.5	4.2	5.6m	7.7	4.8	5.4m	7.2	4.6
Maint									
2-4	0.5m	11.2	4.6	0.4m	9.8	3.5	0.4m	8.5	3.2
5-24	1.3m	8.1	4.5	1.3m	8.3	4.6	1.4m	8.2	4.6
25-49	0.7m	7.4	4.8	0.7m	7.6	5.0	0.9m	8.3	5.9
50-99	0.6m	6.8	4.6	0.7m	6.3	4.7	0.7m	7.7	4.7
100+	1.7m	6.7	3.6	2.4m	7.6	5.1	2.1m	6.0	4.4

Sail: Pob sefydliad sy'n hyfforddi (er bod 'diwrnodau i bob cyflogai' wedi ei seilio ar gyflogaeth ar draws yr holl sefydliadau). Mae meintiau sail wedi eu dangos yn Nhabl A.5.5 yn Atodiad A.


- 5.31 Yn debyg i 2013, ymron pob sector, mae'r nifer cyfartalog o ddiwrnodau hyfforddi blynyddol i bob person a hyfforddwyd wedi gostwng yn yr ystod o 6-9 o ddiwrnodau, er bod pobl y tu allan yn cynnwys y Celfyddydau, Adloniant, Hamdden a Gwasanaethau eraill gyda chyfartaledd o 10.8 diwrnod, a Gweinyddu Cyhoeddus, gyda chyfartaledd o 3.9 diwrnod.
- 5.32 Mae'r canlyniadau yn ôl rhanbarth a sector ar gyfer y nifer gyfan o ddiwrnodau hyfforddiant a datblygiad a'r diwrnodau i bob person a hyfforddir ac i bob cyflogai ar gyfer 2013 a 2011 yn Nhabl A.5.6 yn Atodiad A.

Y mathau o hyfforddiant a ddarperir

5.33 Roedd y math mwyaf cyffredin o hyfforddiant a ddarperir yng Nghymru'n

benodol i'r swydd, a'i amcan oedd datblygu sgiliau rôl swydd neu alwedigaeth arbennig (wedi'i ddarparu gan 86 y cant o gyflogwyr a fu'n hyfforddi). Roedd y mwyafrif o gyflogwyr yn hyfforddi wedi ariannu neu drefnu hyfforddiant iechyd a diogelwch neu gymorth cyntaf hefyd (77 y cant) a hyfforddiant ymsefydlu sylfaenol i staff newydd (66 y cant). Roedd y mathau o hyfforddiant a ddarperir gan gyflogwyr yng Nghymru'n debyg iawn i'r rheiny y sonnir amdanynt ar draws y Deyrnas Unedig i gyd, fel y gwelwch yn Ffigur 5.3.

Ffigur 5.3 Mathau o hyfforddiant a ddarperir dros y 12 mis gan gyflogwyr a fu'n hyfforddi (wedi rhoi hwb)



5.34 Roedd canlyniadau yng Nghymru yn 2015 yn cyfateb gyda'r rheiny y soniwyd amdanynt yn 2013 (oll o fewn dau bwynt canran) lle'r oedd yn uniongyrchol gymaradwy. Oherwydd y ffaith fod 'hyfforddiant ymsefydlu' wedi'i rannu'n 'hyfforddiant ymsefydlu sylfaenol' a 'hyfforddiant ymsefydlu mwy estynedig' yn 2015 ar ôl iddynt gael eu gofyn o'r blaen fel eitem unigol, dylid bod yn ofalus wrth gymharu canlyniadau blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, mae canlyniadau'n awgrymu bod cynnydd mewn unrhyw hyfforddiant ymsefydlu yng

Nghymru (68 y cant, i fyny o 58 y cant yn 2013), yn cyfateb â'r canlyniadau yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol.

- 5.35 Yn aml iawn rhoddir hyfforddiant ymsefydlu ac iechyd a diogelwch neu gymorth cyntaf am ei fod yn ofyniad deddfwriaethol (yn hytrach nag i ddatblygu sgiliau'r gweithlu). Felly gofynnodd cyfres Arolwg Sgiliau Cyflogwyr y DU i gyflogwyr pa gyfran o'u hyfforddiant dros y 12 mis blaenorol oedd yn cynnwys y mathau yma o hyfforddiant.
- 5.36 I oddeutu traean o gyflogwyr yng Nghymru a fu'n hyfforddi (32 y cant), roedd ymsefydlu neu hyfforddiant iechyd a diogelwch yn cyfrif am *o leiaf hanner* eu hyfforddiant, yr un gyfran â'r DU yn gyffredinol.
- 5.37 Yn ôl y sector, roedd cyflogwyr yn hyfforddi mewn Trydan, Nwy a Dŵr, Gwestai a Bwytaï ac Adeiladu oll yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud bod eu hyfforddiant *i gyd* wedi bod yn hyfforddiant ymsefydlu neu iechyd a diogelwch (27 y cant, 19 y cant a 14 y cant yn y drefn honno).
- 5.38 Mae manylion am y gyfran o hyfforddiant a oedd yn hyfforddiant ymsefydlu neu iechyd a diogelwch yn 2015 yn ôl y Rhanbarth, ac ar lefel Cymru gyfan ar gyfer 2011 a 2013, wedi eu darparu yn Nhabl A.5.7 yn Atodiad A.
- 5.39 Ymysg cyflogwyr yng Nghymru oedd yn hyfforddi, roedd y rheiny yn ne ddwyrain Cymru a de orllewin Cymru'n fwy tebygol o fod wedi darparu hyfforddiant goruchwyliol (41 y cant), hyfforddiant ymsefydlu mwy estynedig (40 y cant) a hyfforddiant i reolwyr (40 y cant).

Hyfforddiant at gymwysterau

- 5.40 Yn ogystal â mesur maint a math penodol yr hyfforddiant a ddarperir, ceisiodd yr arolwg hefyd ddarparu dulliau eraill o asesu ei ansawdd, sef drwy archwilio i ba raddau yr oedd hyfforddiant wedi'i lunio i arwain at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol.
- 5.41 Roedd ychydig dros hanner y cyflogwyr yng Nghymru a fu'n hyfforddi dros y 12 mis diwethaf wedi ariannu neu drefnu unrhyw hyfforddiant a oedd wedi'i fwriadu i arwain at gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol (54 y cant, yn gyfatebol â 34 y cant o'r holl gyflogwyr yng Nghymru, yn unol â 53 y cant a 33 y cant yn y drefn honno yn 2013). Roedd hon yn gyfran uwch na honno ledled y DU gyfan (47 y cant o gyflogwyr y DU a fu'n hyfforddi, ariannu neu drefnu hyfforddiant

oedd wedi'i fwriadu i arwain at gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol, yn gyfatebol gyda 31 y cant o'r holl gyflogwyr).

- 5.42 Roedd yn agos at chwech ymhob deg (58 y cant) o'r rheiny oedd yn hyffoddi at gymwysterau gydnabyddir yn genedlaethol wedi gwneud hynny i lefel 3 neu'n uwch (yn gyfatebol â 31 y cant o sefydliadau oedd wedi hyfforddi, a 20 y cant o'r holl gyflogwyr). Roedd y gyfran o'r holl gyflogwyr oedd wedi hyfforddi at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol ar lefel 3 neu'n uwch yng Nghymru yn uwch na'r cyfartaledd yn y DU (18 y cant).
- 5.43 Soniodd cyflogwyr yng Nghymru bod 161,000 o staff wedi cael eu hyfforddi tuag at gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol dros y 12 mis blaenorol, yn is na 215,000 yn 2013. Roedd y gyfran o staff a dderbyniodd hyfforddiant yng Nghymru a oedd wedi cael eu hyfforddi at gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol wedi gostwng hefyd, o 30 y cant yn 2013 i 21 y cant yn 2015, ond roedd yn gyfatebol gyda chyfartaledd y DU ar gyfer 2015 (20 y cant). Roedd staff a gafodd eu hyfforddi gan gyflogwyr yng Nghanolbarth Cymru yn y 12 mis blaenorol oddeutu hanner mor debygol o fod wedi eu hyfforddi at gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol â'r rheiny mewn rhanbarthau eraill (12 y cant o'i gymharu gydag 20 y cant yn Ne orllewin Cymru, 22 y cant yng Ngogledd Cymru, a 23 y cant yn Ne ddwyrain Cymru)

Tabl 5.3 Hyfforddiant at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol dros y 12 mis blaenorol

	2011	2013	2015	2015	2011	2013	2015	2015
	Pob cyflogwr				Cyflogwyr oedd yn hyfforddi			
	Cymru %	Cymru %	Cymru %	DU %	Cymru %	Cymru %	Cymru %	DU %
Yn hyfforddi unrhyw staff at gymhwyster	29	33	34	31	47	53	54	47
Wedi hyfforddi unrhyw un at: Lefel 1	5	8	7	6	9	12	12	9
Lefel 2	10	13	12	11	17	21	20	17
Lefel 3	12	13	13	12	19	22	20	18
Lefel 4 neu'n uwch	9	11	11	9	14	17	18	14
Y nifer a hyfforddwyd at gymhwyster (000'au)	156	215	161	3,500				
O'r staff a hyfforddwyd, y % a hyfforddwyd at gymhwyster dros y 12 mis diwethaf	24	30	21	20				
O'r holl gyflogeion, y % oedd wedi hyfforddi at gymhwyster dros y 12 mis diwethaf	13	18	13	12				

Sail: Colofnau 1-4 'Pob sefydliad', colofnau 5-8 'Sefydliadau a hyfforddodd'; dangosir meintiau'r seiliau yn Nhablau A.5.2 a A.5.5 yn Atodiad A.

Nodwch: Mae'r rhes 'Nifer a hyfforddwyd at gymhwyster' yn dangos faint o unigolion oedd yn cael hyfforddiant oedd yn arwain at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol yn y12 mis cyn y cyfweiliad, nid faint o staff oedd wedi cwblhau'r cymwysterau yma.

Nodwch hefyd yn y rhes derfynol mai'r sail ar gyfer nifer y cyflogeion yw'r holl gyflogwyr nid dim ond y cyflogwyr sy'n hyfforddi.

5.44 Yn 2013, cafwyd bod maint yn rhagfynegydd allweddol o faint mae cyflogwyr a hyfforddodd yn defnyddio cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol, gyda'r gyfran yn defnyddio cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol yn cynyddu gyda'r maint. Adlewyrchwyd y canfyddiad yma i ryw raddau yn 2015 gyda'r gyfran yn codi o lai na hanner (44 y cant) o'r rheiny gyda 2-4 o weithwyr cyflogedig i dri chwarter (74 y cant) o'r rheiny gyda 50-99 o weithwyr cyflogedig. Ond, roedd gostyngiad yn y gyfran o gyflogwyr mawrion gyda 100 neu fwy o weithwyr cyflogedig yn defnyddio cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol (72 y cant, i lawr o 85 y cant yn 2013).

5.45 Yn ôl y sector, roedd y rheiny sy'n fwyaf tebygol o hyfforddi at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol yn gyflogwyr mewn lechyd (74 y cant o gyflogwyr a hyfforddodd), Addysg (70 y cant), Adeiladu (59 y cant) a Chelfyddydau a

Gwasanaethau Eraill (59 y cant). Mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol y canfyddiadau ar draws y DU gyfan, yr oedd y rheiny sy'n fwyaf tebygol o gynnig unrhyw hyfforddiant hefyd yn fwyaf tebygol o hyfforddi at gymwysterau cenedlaethol, ond ag eithrio Adeiladu; roedd cyflogwyr mewn Adeiladu yng Nghymru ymysg y lleiaf tebygol o fod wedi darparu hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf, ond roedd y rheiny a fu'n hyfforddi yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi hyfforddi at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol.

- 5.46 Mae Tabl A.5.9 yn Atodiad A yn rhoi manylion mynychdra a maint yr hyfforddiant a ddarperir sy'n arwain at gymwysterau yn ôl y rhanbarth, maint a sector.

Dysgu ar-lein / e-ddysgu a hunan-ddysgu arall

- 5.47 I archwilio a oedd y dirwasgiad wedi arwain cyflogwyr i 'hyfforddi'n glyfrach', gyda mwy o bwyslais ar hyfforddiant ar-lein ac o fewn y gwaith, ychwanegwyd cwestiynau newydd yn 2015 yn gofyn i gyflogwyr a oeddent wedi trefnu neu ariannu unrhyw hyfforddiant yn y 12 mis blaenorol gan ddefnyddio hyfforddiant ar-lein neu e-ddysgu, neu unrhyw hunan-ddysgu arall lle gwnaeth y gweithiwr y dysgu ar amser o'u dewis eu hunain.
- 5.48 Roedd ychydig dros ddwy ran o bump (43 y cant) o gyflogwyr yng Nghymru oedd wedi darparu hyfforddiant wedi defnyddio hyfforddiant ar-lein neu e-ddysgu yn y 12 mis blaenorol²³. Roedd hyn ychydig yn is na'r cyfartaledd yn y DU o 45 y cant.
- 5.49 Roedd gwahaniaethau rhanbarthol sylweddol, gyda chyflogwyr sy'n hyfforddi yng Nghanolbarth Cymru'n llai tebygol o fod wedi defnyddio hyfforddiant ar-lein neu e-ddysgu (33 y cant) o'i gymharu gyda'r rheiny yng Ngogledd Cymru a De orllewin Cymru (pob un yn 40 y cant), tra bo'r rheiny yn Ne ddwyrain Cymru'n fwy tebygol na'r holl ranbarthau eraill o fod wedi defnyddio'r math yma o hyfforddiant (47 y cant).
- 5.50 Yn gyffredinol, roedd cyflogwyr mwy oedd yn hyfforddi yn fwy tebygol o fod wedi darparu hyfforddiant ar-lein neu e-ddysgu, gyda saith mewn deg o sefydliadau (69 y cant) gyda 100 neu fwy o staff yn gwneud hynny, o'i gymharu â dim ond tri ymhob deg o sefydliadau (30 y cant) gyda 2 i 4 o weithwyr cyflogedig.

²³ Gallai hyn gynnwys hyfforddiant a oedd yn gwbl ar-lein, neu oedd ag elfen ar-lein sylweddol.

5.51 Yn debyg l'r DU gyfan, roedd y defnydd o hyfforddiant ar-lein neu e-ddysgu yn amrywio'n eang yn ôl y sector, ac roedd yn arbennig o uchel mewn Gwasanaethau Ariannol, Gweinyddu Cyhoeddus, Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Addysg.

Tabl 5.4 Y ddarpariaeth hyfforddiant ar-lein neu e-ddysgu dros y 12 mis diwethaf yn ôl y rhanbarth a maint y sefydliad

	<i>Sail heb ei bwysoli</i>	Wedi defnyddio hyfforddiant ar-lein yn y 12 mis diwethaf %	<i>Sail heb ei bwysoli</i>	Hyfforddiant ar-lein wedi cynyddu %	Hyfforddiant ar-lein wedi gostwng %
DU	69,541	45	39,695	39	18
Cymru	4,356	43	2,365	40	19
Rhanbarth					
Gogledd Cymru	1,138	40	592	38	21
Canolbarth Cymru	485	33	250	41	28
De ddwyrain Cymru	1,783	47	1,011	43	17
De orllewin Cymru	950	40	512	38	19
Maint					
2-4	825	30	304	35	27
5-24	2,607	48	1,436	42	17
25-49	523	58	345	49	14
50-99	263	56	169	41	17
100+	138	69	107	43	15
Sector					
Amaethyddiaeth	148	17	35	39	39
Gweithgynhyrchu	279	31	107	43	27
Trydan, Nwy a Dŵr	56	30	23	**	**
Adeiladu	267	28	100	36	26
Cyfanwerthu a Manwerthu	798	43	461	43	20
Gwestai a Bwyta	486	42	295	38	20
Cludiant, Storio a Chyfathrebu	325	39	142	35	24
Gwasanaethau Ariannol	83	77	68	40	11
Gwasanaethau Busnes	591	50	351	38	18
Gweinyddu Cyhoeddus	63	61	43	40	18
Addysg	330	53	196	39	15
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	560	54	352	45	14
Celfyddydau a Gwasanaethau Eraill	370	36	192	42	19

Sail: Pob sefydliad a ddarparodd hyfforddiant / Pob sefydliad sydd wedi darparu unrhyw hyfforddiant ar-lein neu e-ddysgu yn y ddwy flynedd ddiwethaf

*Dylid trin y ffigurau mewn ffont italig yn ofalus oherwydd maint isel y sail. Mae *** yn dynodi ffigur nad yw wedi'i ddangos oherwydd maint isel iawn y sail.*

- 5.52 O'u hystyried gyda'i gilydd, mae'n ymddangos bod defnyddio hyfforddiant ar-lein neu e-ddysgu wedi bod yn cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd dwy ran o bump (40 y cant) o'r rheiny oedd wedi ei ddefnyddio o gwbl yn y cyfnod hwnnw yn dangos bod ei ddefnydd wedi cynyddu yn y 12 mis blaenorol o'i gymharu gyda'r 12 mis cyn hynny, tra bo oddeutu pumed rhan (19 y cant) o ddefnyddwyr yn sôn am ostyngiad yn y defnydd o e-ddysgu neu hyfforddiant ar-lein.
- 5.53 Ynghyd â chael y defnydd uchaf yn y 12 mis blaenorol, roedd cyflogwyr yn Neddwyrain Cymru hefyd yn fwy tebygol o ddweud bod defnyddio hyfforddiant ar-lein wedi cynyddu (43 y cant). Ar y llaw arall, roedd defnyddio hyfforddiant ar-lein neu e-ddysgu yn llawer mwy tebygol hefyd o fod wedi gostwng yng Nghanolbarth Cymru (28 y cant), lle'r oedd y defnydd yn y 12 mis blaenorol ar ei isaf hefyd.
- 5.54 Roedd y sefydliadau lleiaf gyda 2 i 4 o weithwyr cyflogedig yn lleiaf tebygol o sôn am gynnydd mewn hyfforddiant ar-lein neu e-ddysgu (35 y cant) tra bo cyflogwyr canolig eu maint gyda 25 i 49 o gyflogeion yn fwyaf tebygol (49 y cant).
- 5.55 Roedd bron i ddwy ran o bump (37 y cant) o gyflogwyr a fu'n hyfforddi yn y 12 mis blaenorol yn dweud eu bod wedi darparu hunan-ddysgu arall (h.y. heblaw ar-lein neu e-ddysgu) lle'r oedd y gweithiwr yn gwneud yr hyfforddiant ar amser o'u dewis eu hunain²⁴.
- 5.56 Yn debyg i hyfforddiant ar-lein ac e-ddysgu, roedd cyflogwyr yng Nghanolbarth Cymru leiaf tebygol o gynnig hunan-ddysgu arall (30 y cant), a'r rheiny yn neddwyrain a de orllewin Cymru yn fwyaf tebygol (pob un yn 39 y cant) fel y gwelwch yn Nhabl 5.5.
- 5.57 Roedd y tebygolrwydd o gynnig hunan-ddysgu arall yn cynyddu gyda maint y cyflogwr, gan godi o 30 y cant o gyflogwyr yn hyfforddi gyda 2 i 4 o staff, i 59 y cant o'r rheiny gyda 100 neu fwy o staff

²⁴ Ni ddywedodd yr holiadur a oedd yr amser yma o fewn neu'r tu allan i oriau gwaith ar gontract y cyflogai

Tabl 5.5 Darpariaeth hunan-ddysgu arall dros y 12 mis blaenorol yn ôl y rhanbarth a maint y sefydliad

	<i>Sail heb ei bwysoli</i>	Wedi defnyddio hunan-ddysgu arall yn y 12 mis diwethaf %	<i>Sail heb ei bwysoli</i>	Hunan-ddysgu arall wedi cynyddu %	Hunan-ddysgu arall wedi gostwng %
DU	69,541	38	37,768	29	23
Cymru	4,356	37	2,231	30	24
Rhanbarth					
Gogledd Cymru	1,138	36	548	30	27
Canolbarth Cymru	485	30	226	29	33
De ddwyrain Cymru	1,783	39	893	31	21
De orllewin Cymru	950	39	479	28	21
Maint					
2-4	825	30	317	27	29
5 -24	2,607	39	1,246	30	22
25-49	523	51	317	33	20
50-99	263	57	173	29	21
100+	138	59	93	37	12

Sail: Pob sefydliad a ddarparodd hyfforddiant / Pob sefydliad sydd wedi darparu unrhyw hunan-ddysgu arall (hyfforddiant nad oedd ar-lein neu'n e-ddysgu) yn y ddwy flynedd ddiwethaf

- 5.58 Roedd defnydd o hunan-ddysgu arall yn amrywio yn ôl y sector, gyda'r rheiny oedd yn fwyaf tebygol o fod wedi defnyddio hyfforddiant ar-lein neu e-ddysgu hefyd yn fwyaf tebygol o fod wedi defnyddio hunan-ddysgu arall yn y 12 mis blaenorol: Gwasanaethau Ariannol (54 y cant), Iechyd a Gofal Cymdeithasol (52 y cant), Gweinyddu Cyhoeddus (50 y cant) ac Addysg (50 y cant).
- 5.59 Ymysg y cyflogwyr yng Nghymru oedd wedi cynnig unrhyw hunan-ddysgu arall yn y ddwy flynedd ddiwethaf, dywedodd ychydig mwy (30 y cant) bod ei ddefnydd wedi cynyddu yn y 12 mis diwethaf na'r rheiny a ddywedodd bod ei ddefnydd wedi gostwng (24 y cant).
- 5.60 Roedd cynnig hunan-ddysgu arall yn fwy tebygol o fod wedi gostwng dros y 12 mis diwethaf yng Ngogledd Cymru (27 y cant) a Chanolbarth Cymru (33 y cant); roedd hefyd yn fwy tebygol o fod wedi gostwng ymysg cyflogwyr gyda llai na 100 o gyflogeion (24 y cant, o'i gymharu gyda 12 y cant o gyflogwyr gyda 100 neu fwy o weithwyr cyflogedig).
- 5.61 Roedd mwy na hanner (56 y cant) yr holl gyflogwyr yng Nghymru oedd wedi darparu hyfforddiant wedi darparu *naill ai* hyfforddiant ar-lein/e-ddysgu neu hunan-ddysgu arall lle'r oedd y cyflogai'n gwneud y dysgu ar amser o'i ddewis ei hun. Roedd y patrymau yn ôl y rhanbarth, maint a sector yn adlewyrchu'r

rheiny a welwyd ymysg cyflogwyr yn darparu pob un o'r mathau o hyfforddiant unigol.

- 5.62 Mae Tabl A.5.10 yn Atodiad A yn darparu dadansoddiad manwl o ffigurau ar ddarparu hyfforddiant ar-lein neu e-ddysgu a hunan-ddysgu arall yn ôl y rhanbarth, maint a sector.

Buddsoddiad mewn Hyfforddiant

- 5.63 Roedd sampl o sefydliadau a oedd wedi trefnu neu ariannu hyfforddiant i gyflogaeion yn y 12 mis cyn yr arolwg wedi cael eu dilyn i edrych ar y buddsoddiad yr oeddent wedi ei wneud yn yr hyfforddiant yma.
- 5.64 Y gwariant gan gyflogwyr yng Nghymru ar hyfforddiant a datblygiad dros y 12 mis blaenorol oedd £2.1 biliwn. Yn ogystal ag elfennau megis ffioedd i ddarparwyr allanol a gwariant ar offer neu ddefnyddiau (a oedd yn cynnwys cyfran weddol fach o fuddsoddiad gan gyflogwyr ar hyfforddiant yn gyffredinol), roedd cyfran sylweddol o'r gwariant yma'n talu am gyflogau staff wrth iddynt gael eu hyfforddi, a chyflogau staff sy'n darparu'r hyfforddiant. Mae tabl 5.7 yn ddiweddarach yn y bennod hon yn edrych sut mae'r gwariant cyfan ar hyfforddiant yn rhannu i'r rhannau cyfansoddol.
- 5.65 Roedd gwariant 2015 o £2.1 biliwn yn gynydd o wyth y cant ar y gwariant o £1.9 biliwn yn 2013, a chynydd o 27 y cant ar y gwariant o £1.6 biliwn yn 2011²⁵. Roedd hyn yn lefel uwch o gynydd nag a welwyd drwy'r DU gyfan: roedd gwariant 2015 y DU o £45.4 biliwn yn gynydd o chwech y cant ar 2013, ac yn gynydd o bedwar y cant ar 2011.
- 5.66 Roedd buddsoddiad cyfan cyflogwyr mewn hyfforddiant yn gyfatebol ag oddeutu £2,750 y pen a hyfforddwyd a £1,750 i bob cyflogai. Roedd y ffigurau yma'n cyfateb gyda'r gwariant cyfartalog yng Nghymru yn 2013, ond yn uwch na'r rheiny yn 2011. Roedd y gwariant cyfartalog ar bob person a hyfforddwyd ac i bob cyflogai ychydig yn uwch na'r ffigurau i'r DU gyfan (gwelwch Dabl 5.6).

²⁵Mae hi werth nodi nad yw'r ffigurau gwariant ar hyfforddiant yn y fan yma, a thrwy'r bennod gyfan hon, ar gyfer 2011 a 2013 wedi eu haddasu ar gyfer chwyddiant. Yn ogystal, yn 2015 gweithredwyd strategaeth bwysoli newydd i gynyddu cywirdeb yr amcangyfrifon gwariant ar hyfforddiant ymhellach; roedd y strategaeth bwysoli newydd wedi'i gweithredu'n ôl-syllol hefyd i ffeiliau data 2011 a 2013, gan olygu y gallai rhai o'r ffigurau a nodwyd yma ar gyfer 2011 a 2013 wahaniaethu ychydig oddi wrth yr adroddiadau gwreiddiol. Mae esboniad llawn o'r strategaeth bwysoli newydd, y rhesymeg y tu ôl iddi, yn ogystal â'r ffigurau diwygiedig ar gyfer gwariant ar hyfforddiant yn ôl y wlad, wedi eu cyflwyno mewn cyhoeddiad ar wahân, sydd ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/publications/ukces-employer-skills-survey-2015-supplementary-documents>

Tabl 5.6 Cyfanswm y gwariant ar hyfforddiant a'r gwariant ar bob person a hyfforddwyd ac ar bob cyflogai (2011 - 2015)

	2011			2013			2015		
	Cyfanswm	Y gwariant ar bob person a hyfforddwyd	Gwariant ar bob cyflogai	Cyfanswm	Y gwariant ar bob person a hyfforddwyd	Gwariant ar bob cyflogai	Cyfanswm	Y gwariant ar bob person a hyfforddwyd	Gwariant ar bob cyflogai
	£	£	£	£	£	£	£	£	£
DU	43.8bn	3,000	1,600	43.0bn	2,600	1,600	45.4bn	2,500	1,600
Cymru	1.6bn	2,500	1,400	1.9bn	2,700	1,700	2.1bn	2,800	1,800
Rhanbarth									
Gogledd Cymru	0.4bn	2,300	1,300	0.5bn	2,600	1,800	0.4bn	2,500	1,500
Canolbarth Cymru	0.2bn	4,100	2,100	0.1bn	3,300	1,500	0.2bn	2,900	2,000
De ddwyrain Cymru	0.8bn	2,400	1,500	0.9bn	2,700	1,600	1.2bn	3,200	2,100
De orllewin Cymru	0.3bn	2,600	1,100	0.4bn	2,600	1,600	0.3bn	2,000	1,300
Maint									
2-4	0.2bn	4,400	1,800	0.3bn	7,100	2,500	0.2bn	5,000	1,900
5-24	0.5bn	3,000	1,700	0.6bn	3,500	1,900	0.6bn	3,600	2,000
25-49	0.2bn	2,200	1,500	0.3bn	2,800	1,900	0.3bn	2,400	1,700
50-99	0.2bn	2,500	1,700	0.3bn	2,800	2,100	0.3bn	2,700	1,700
100+	0.5bn	1,900	1,100	0.5bn	1,700	1,100	**	**	**

Sail: Sefydliadau'n cwblhau'r astudiaeth buddsoddiad mewn hyfforddiant (DU 2011: 11,027; 2013: 12,522; 2015: 12,614; Cymru 2011: 1,483; 2013: 1,361; 2015: 1,234). Gellir gweld Maint y Sail ar gyfer Rhanbarth a Maint yn Nhabl A.5.11 yn Atodiad A.

*Dylid trin y ffigurau mewn ffont italig gyda gofal oherwydd maint isel y sail. Mae *** yn dynodi ffigur nad yw wedi'i ddangos oherwydd maint isel iawn y sail.*

5.67 Am fod Canolbarth Cymru wedi gweld cynnydd mawr yn y nifer o staff a hyfforddwyd (o 36,000 yn 2013 i 57,000 yn 2015), roedd y gwariant ar bob person a hyfforddwyd yng Nghanolbarth Cymru wedi gostwng yn yr un modd (o £3,300 i £2,900), er gwaethaf y ffaith fod y gwariant cyfan yn y rhanbarth heb ostwng. Roedd y gwariant ar bob person a hyfforddwyd wedi cynyddu yn Ne ddwyrain Cymru (o £2,700 i £3,200), gan olygu mai yma yr oedd y gwariant uchaf ar bob person a hyfforddwyd.

5.68 Soniodd y cyflogwyr llai am wariant uwch ar y rheiny yr oeddent yn eu hyfforddi: roedd y cyflogwyr lleiaf gyda 2 i 4 o staff wedi gwario £5,000 ar bob person a hyfforddwyd, tra bo'r rheiny gyda 25 neu fwy o staff wedi gwario oddeutu hanner y maint yma. Mae'n debygol bod y patrwm yma'n adlewyrchu yn rhannol arbedion maint i gyflogwyr mwy.

- 5.69 Fel y gwelir yn Nhabl 5.6 roedd y cynnydd yn y gwariant cyfan gan gyflogwyr ar hyfforddiant o 2013 hyd 2015 yn bennaf yn ganlyniad i gynnydd mewn gwariant ymysg cyflogwyr yn Ne ddwyrain Cymru. I'r gwrthwyneb, gostyngodd y gwariant yng Ngogledd Cymru a De orllewin Cymru ychydig o'i gymharu gyda 2013, gan ddychwelyd i'r lefelau a welwyd yn 2011.
- 5.70 Fel y gwelwch yn Nhabl 5.7, roedd cyfansoddiad y gwariant ar hyfforddiant yng Nghymru wedi newid o'i gymharu gyda 2013, wrth i'r gyfran a wariwyd ar hyfforddiant y tu allan i'r swydd gynyddu i 54 y cant (o'i gymharu gyda 49 y cant yn 2013 a 44 y cant yn 2011). Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y gyfran o gyflogwyr sy'n cynnig hyfforddiant y tu allan i'r swydd yn 2015, a drafodwyd yn gynharach yn y bennod hon.
- 5.71 Roedd y cynnydd mewn gwariant cyfan ar hyfforddiant yng Nghymru yn bennaf yn ganlyniad i wariant uwch ar Hyfforddiant y tu allan i'r swydd (o £948 miliwn yn 2013 i £1.1biliwn yn 2015), ac yn arbennig y gwariant ar ganolfannau hyfforddi ar y safleoedd (o £197 miliwn yn 2013 i £299 miliwn yn 2015), a chostau llafur yr hyfforddai sy'n gysylltiedig â hyfforddiant nad yw'n ymwneud â chysiau (o £78 miliwn yn 2013 i £129 miliwn yn 2015). Fel y gwelwyd ar draws y DU gyfan, roedd ffioedd i ddarparwyr allanol yn is, o £95 miliwn yn 2013 i £81 miliwn yn 2015.
- 5.72 Roedd gostyngiad mewn gwariant ar hyfforddiant yn y swydd, o £996 miliwn yn 2013 i £961 miliwn yn 2015 (er bod y lefel wedi parhau'n uwch na'r £912 miliwn a wariwyd yn 2011). Gyrrwyd y gostyngiad yma gan ostyngiad yng nghostau llafur yr hyfforddwyr (o £421 miliwn yn 2013 i £343 miliwn yn 2015). Felly mae'n ymddangos bod cyflogwyr yng Nghymru'n gwneud yr un maint o hyfforddiant yn fras ag oeddent yn 2013, ond gyda symudiad bychan yn y ffocws o'r hyfforddiant yn y gwaith i hyfforddiant y tu allan i'r swydd, wedi'i adlewyrchu yn y gwariant cysylltiedig.

Tabl 5.7 Cyfanswm y gwariant ar hyfforddiant wedi'i dorri i lawr yn ôl cydrannau unigol (2011 - 2015)

	2011		2013		2015	
	<i>Sail heb ei Bwysoli:</i>	<i>1,483</i>	<i>1,361</i>	<i>1,234</i>		
	£	%	£	%	£	%
Cyfanswm y gwariant ar hyfforddiant	£1.6bn	100	£1.9	100	£2.1bn	100
<i>Hyfforddiant y tu allan i'r swydd: cyfanswm</i>	<i>£731m</i>	<i>44</i>	<i>£948m</i>	<i>49</i>	<i>£1.1bn</i>	<i>54</i>
<i>Hyfforddiant y tu allan i'r swydd: Yn berthnsol i'r cwrs: cyfanswm</i>	<i>£596m</i>	<i>36</i>	<i>£834m</i>	<i>43</i>	<i>£975m</i>	<i>47</i>
Costau llafur yr hyfforddai	£153m	9	£200m	10	£245m	12
Ffioedd i ddarparwyr allanol	£102m	6	£95m	5	£81m	4
Canolfan hyfforddiant ar y safle	£77m	5	£197m	10	£299m	14
Canolfan hyfforddiant oddi ar y safle (yn yr un cwmni)	£20m	1	£20m	1	£31m	1
Rheoli hyfforddiant	£244m	15	£314m	16	£334m	16
Offer a deunyddiau nad ydynt o'r ganolfan hyfforddi	£17m	1	£20m	1	£21m	1
Teithio a chyflogau	£21m	1	£17m	1	£18m	1
Ardollau wedi tynnu grantiau	-£38m	-2	-£28m	-1	-£54m	-3
<i>Hyfforddiant y tu allan i'r swydd: arall (seminarau, gweithdai ac ati.): cyfanswm</i>	<i>£135m</i>	<i>8</i>	<i>£114m</i>	<i>6</i>	<i>£158m</i>	<i>8</i>
Costau llafur yr hyfforddai	£95m	6	£78m	4	£129m	6
Ffioedd i ddarparwyr allanol	£41m	2	£36m	2	£29m	1
<i>Hyfforddiant yn y swydd: Cyfanswm</i>	<i>£912m</i>	<i>56</i>	<i>£996m</i>	<i>51</i>	<i>£961m</i>	<i>46</i>
Costau llafur yr hyfforddai	£587m	36	£575m	30	£619m	30
Costau llafur yr hyfforddwyr	£325m	20	£421m	22	£343m	16

Sail: Sefydliadau'n cwblhau'r astudiaeth o fuddsoddiad mewn hyfforddiant

5.73 Roedd cyflogau'r staff oedd yn cael eu hyfforddi (Costau llafur yr hyfforddai) yn cyfrif am bron i hanner (47 y cant) yr holl wariant ar hyfforddiant (yn unol â 48 y cant ledled y DU gyfan). Roedd cyflogau / tâl y rheiny oedd yn darparu hyfforddiant yn y swydd yn cyfrif am 16 y cant o'r gwariant cyfan ar hyfforddiant, yn is na'r cyfartaledd o 19 y cant yn y DU. Ychydig iawn a wariwyd ar ffioedd i ddarparwyr allanol yng Nghymru (pump y cant), a llai na'r gwariant cyfatebol ledled y DU gyfan (saith y cant).

5.74 Mae Tabl 5.8 yn crynhoi'r canlyniadau o ran manylion y gwariant ar hyfforddiant yn ôl rhanbarthau a maint y sefydliad

Tabl 5.8: Gwariant ar hyfforddiant yn ôl rhanbarth a maint, y gyfran a wariwyd ar elfennau tu allan i'r swydd, dadansoddiad o'r gwariant cyfan ar hyfforddiant (yn y swydd a'r tu allan i'r swydd) yn ôl yr elfennau allweddol

Canrannau rhesi	Sail heb ei bwysoli	Gwariant ar hyfforddiant	Y % a wariwyd ar Hyfforddiant y tu allan i'r swydd		Cyflogau hyfforddeion	Cyflogau hyfforddwyr	Ffioedd i ddarparwyr allanol	Arall
DU	12,614	£45.4bn	50	%	48	19	7	27
Cymru	1,234	£2.1bn	54	%	47	16	5	31
Rhanbarth								
Gogledd Cymru	281	£0.4bn	52	%	45	17	5	33
Canolbarth Cymru	153	£0.2bn	55	%	48	13	7	32
De ddwyrain Cymru	505	£1.2bn	57	%	48	15	5	31
De orllewin Cymru	295	£0.3bn	47	%	47	21	5	26
Maint								
2-4	226	£0.2bn	52	%	40	15	8	37
5-24	778	£0.6bn	55	%	43	18	6	32
25-49	146	£0.3bn	57	%	50	18	6	27
50-99	61	£0.3bn	47	%	53	15	4	27
100+	23	**	**	%	**	**	**	**

Sail: Sefydliadau'n cwblhau'r astudiaeth o fuddsoddiad mewn hyfforddiant

Mae'r golofn 'arall' yn cynnwys eitemau megis Gwariant ar ganolfannau hyfforddiant ac ar Reoli hyfforddiant.

**** yn dynodi nad yw'r ffigur yn cael ei ddangos oherwydd maint isel y sail*

5.75 Roedd y gyfran o wariant ar hyfforddiant y tu allan i'r swydd ar ei uchaf yn Ne ddwyrain Cymru (57 y cant) ac ar ei isaf yn Ne orllewin Cymru (47 y cant), mewn gwrthgyferbyniad uniongyrchol â 2013 (pan oedd y cyfrannau yn 45 y cant a 58 y cant yn y drefn honno).

5.76 Roedd sefydliadau o faint canolig gyda 5 i 24 a 25 i 49 o staff wedi gwario mwy ar hyfforddiant y tu allan i'r swydd (55 y cant a 57 y cant yn y drefn honno), o'i gymharu â sefydliadau llai gyda 2 i 4 o staff (52 y cant) a sefydliadau mwy gyda 50 i 99 o staff (47 y cant). Mae hwn yn batrwm gwahanol i hwnnw a welwyd yn 2013, pan oedd y gyfran o'r gwariant ar hyfforddiant cyfan a wariwyd ar hyfforddiant y tu allan i'r swydd wedi gostwng wrth i faint y sefydliad gynyddu.

5.77 Rodd cyfran y gwariant cyfan ar gyflogau hyfforddeion yn cynyddu gyda maint y sefydliad, o ddwy ran o bump (40 y cant) o sefydliadau gyda 2 - 4 o staff, i ddim ond ychydig dros hanner (53 y cant) y rheiny gyda 50 i 99 o staff.

5.78 Gwariwyd oddeutu £14 miliwn gan gyflogwyr yng Nghymru yn y 12 mis blaenorol ar ffioedd i golegau AB a Sefydliadau Addysg Uwch, sy'n gyfatebol â


13 y cant o'r cyfanswm ffioedd i ddarparwyr allanol (yn unol â 14 y cant yng Nghymru yn 2013, a'r ffigur o 15 y cant drwy'r DU yn 2015).

- 5.79 O'r rhanbarthau, talodd cyflogwyr yng Ngogledd Cymru'r gyfran fwyaf o'u gwariant cyfan ar ddarparwyr allanol i golegau AB a sefydliadau AU (20 y cant), ac yn dilyn hynny Dde orllewin Cymru (16 y cant); rheiny yng nghanolbarth a de ddwyrain Cymru a wariodd y gyfran isaf ar ffioedd i ddarparwyr AB a AU (pob un yn naw y cant).
- 5.80 Mae manylion y ffioedd a dalwyd i golegau AB neu i brifysgolion neu sefydliadau Addysg Uwch eraill ar gyfer hyfforddiant i'w gweld yn Nhabl A.5.12 yn Atodiad A.

Rhwystrau a chyfyngiadau ar hyfforddiant

- 5.81 Byddai oddeutu hanner y cyflogwyr a oedd wedi hyfforddi dros y 12 mis diwethaf wedi hoffi darparu mwy o hyfforddiant nag y gwnaethon nhw (49 y cant, yn uwch na 46 y cant ar draws y DU gyfan, er bod hynny yn gyfatebol gyda 50 y cant yng Nghymru yn 2013). Roedd cyflogwyr a hyfforddodd yn ne ddwyrain a de orllewin Cymru'n fwy tebygol o fod eisiau darparu mwy o hyfforddiant (pob un yn 50 y cant) o'i gymharu â'r rheiny yng Nghanolbarth Cymru (44 y cant), tra bo'r rheiny yng Ngogledd Cymru'n cyfateb gyda'r cyfartaledd (49 y cant).
- 5.82 Roedd y cyflogwyr lleiaf gyda 2 i 4 o gyflogeion yn llai tebygol o fod eisiau darparu mwy o hyfforddiant (46 y cant) na chyflogwyr gyda 5 neu fwy o gyflogeion (51 y cant).
- 5.83 Fel y gwelir yn Ffigur 5.4, y ddau reswm mwyaf cyffredin a roddwyd gan gyflogwyr sy'n hyfforddi yng Nghymru am beidio gallu darparu eu maint dewisol o hyfforddiant oedd:
- Diffyg arian ar gyfer hyfforddiant (52 y cant). Hwn hefyd oedd y rheswm mwyaf cyffredin yng Nghymru yn 2013, er ei fod wedi'i grybwyll wedyn gan fwy o gyflogwyr (62 y cant).
 - Yn methu sbario mwy o amser y staff ar gyfer hyfforddi (47 y cant, i lawr ychydig o 51 y cant yn 2013).


Ffigur 5.4 Rhwystrau i ddarparu rhagor o Hyfforddiant



5.84 Mae rhagor o wybodaeth am y gyfran o gyflogwyr sy'n hyfforddi nag a fyddai wedi hoffi darparu mwy o hyfforddiant dros y 12 mis blaenorol, a'r prif rwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud hynny, i'w gael yn Nhabl A.5.13 yn Atodiad A.

5.85 Roedd rhai cyflogwyr yng Nghymru wedi dewis peidio darparu unrhyw hyfforddiant neu ddatblygiad i'w staff yn y 12 mis blaenorol; roedd gan bron bob un (99 y cant) o'r busnesau yma lai na 25 o gyflogeion. Mae Ffigur 5.5 yn cyflwyno'r rhesymau a roddwyd gan gyflogwyr am beidio hyfforddi dros y 12 mis blaenorol.

Ffigur 5.5 Rhesymau am beidio darparu hyfforddiant yn y 12 mis blaenorol



5.86 Yn debyg i'r ffeithiau ar gyfer y DU gyfan, y rheswm mwyaf cyffredin o bell ffordd pam nad oedd cyflogwyr yng Nghymru'n darparu unrhyw hyfforddiant oedd y canfyddiad nad oeddent angen gwneud hynny am fod eu staff i gyd yn gwbl hyfedr (66 y cant). Roedd y rheswm yma'n fwy cyffredin ymysg y cyflogwyr lleiaf nad ydynt yn hyfforddi gyda 2 i 4 o gyflogeion (69 y cant).

5.87 Roedd y rhesymau eraill oedd yn arwydd o alw isel (i'r graddau bod hyfforddiant yn cael ei drin yn amlwg fel blaenoriaeth is na materion mwy argyfyngus o ddydd i ddydd) yn cynnwys sefyllfa lle nad yw hyfforddiant yn un o flaenoriaethau'r sefydliad (naw y cant), y rheolwyr yn rhy brysur i drefnu hyfforddiant (tri y cant), a chyflogeion yn rhy brysur i dderbyn hyfforddiant (tri y cant) neu i ddarparu hyfforddiant (dau y cant).

5.88 Crybwyllwyd y ffaith fod diffyg arian ar gael i hyfforddi fel rheswm gan naw y cant o gyflogwyr nad ydynt yn hyfforddi yng Nghymru, yn gyfatebol â 2013 (10 y cant), ond yn uwch na ffigur y DU yn 2015 o saith y cant. Fel yn y DU yn gyffredinol, roedd diffyg arian yn fwy tebygol o fod yn rhwystr i gyflogwyr yn y sector elusennol / gwirfoddol (21 y cant) na'r rheiny yn y sector preifat (wyth y cant)

5.89 Yn debyg i 2013 (ac fel y cafwyd ar draws y DU yn 2015) yn anaml y roddwyd 'cyflenwad gwael hyfforddiant' fel y rheswm am beidio hyfforddi:

- Dywedodd chwech y cant o gyflogwyr nad ydynt yn hyfforddi yng Nghymru nad oedd hyfforddiant ar gael yn y maes astudio yr oeddent ei eisiau.
- Dywedodd un y cant o gyflogwyr nad ydynt yn hyfforddi yng Nghymru nad oedd y cyrsiau yr oedd ganddynt ddiddordeb ynddynt ar gael yn lleol.

5.90 Roedd hi'n ymddangos bod cysylltiad cryf rhwng y bylchau mewn sgiliau y soniwyd amdanynt gan gyflogwyr yng Nghymru a'u gweithgareddau hyfforddi a'r rhesymau am beidio hyfforddi. Roedd cyflogwyr nad oeddent wedi sôn am fylchau mewn sgiliau yn llai tebygol o hyfforddi na'r rheiny a wnaeth (60 y cant o'i gymharu gyda 82 y cant). Ar ben hynny, ymysg cyflogwyr nad oeddent yn hyfforddi, roedd y rheiny nad oeddent yn gweld bod ganddynt fylchau mewn sgiliau ar amser y cyfweiliad yn llawer mwy tebygol o ddweud mai'r rheswm am beidio hyfforddi dros y 12 mis blaenorol oedd nad oedd ei angen am fod eu staff i gyd yn hollol hyfedr (68 yn gyfan o'i gymharu gyda 30 y cant o'r rheiny gyda bylchau mewn sgiliau) ac yn llai tebygol o roi nifer o resymau eraill, yn arbennig ddiffyg arian ar gyfer hyfforddi (wyth y cant, o'i gymharu gyda'r bylchau hynny mewn sgiliau).


5.91 Gellir gweld rhagor o ddata am y rhesymau dros beidio darparu hyfforddiant yn Nhabl A.5.14 yn Atodiad A.

5.92 Mae Ffigur 5.6 yn crynhoi'r gyfran o bob cyflogwr a fyddai wedi hoffi gwneud mwy o hyfforddiant neu, yn achos y cyflogwyr nad ydynt yn hyfforddi, unrhyw hyfforddiant dros y 12 mis blaenorol²⁶. Mae hefyd yn dangos y gyfran a oedd mewn 'cydbwysedd hyfforddi', neu mewn geiriau eraill doedd dim dymuniad i wneud mwy o hyfforddiant. Dim ond canlyniadau o 2015 a ddangosir, am fod y rhain i gyd yn debyg iawn i'r rheiny yn 2013.

²⁶Mae canlyniadau ar gyfer pobl nad ydynt yn hyfforddi wedi eu pennu o'u rhesymau am beidio hyfforddi, yn hytrach nag o gwestiwn uniongyrchol. Roedd y rheiny a atebodd nad oeddent wedi darparu unrhyw hyfforddiant am nad ystyriwyd hyfforddiant yn flaenoriaeth i'w sefydliad, am fod eu staff i gyd yn gwbl hyfedr neu am nad oedd ganddynt angen hyfforddiant, yn cael eu hystyried yn sefydliadau mewn cydbwysedd sgiliau ac sydd heb angen amlwg i roi hyfforddiant. Roedd y rheiny na roddwyd y rhesymau yma wedi eu categorïddio fel rhai oedd eisiau cael hyfforddiant. Yn ogystal, categorïddiwyd y cyflogwyr hynny a atebodd 'ddim yn gwybod' pan ofynnwyd iddynt a fyddent wedi hoffi hyfforddi fwy, fel rhai oedd ddim mewn cydbwysedd hyfforddiant.

5.93 Yn gyffredinol byddai ychydig dros ddwy ran o bump (44 y cant) o gyflogwyr yng Nghymru wedi hoffi gwneud mwy o hyfforddiant dros y 12 mis blaenorol, mwy na'r cyfartaledd yn y DU (42 y cant).

Ffigur 5.6 Diddordeb cyflogwyr mewn gwneud mwy o hyfforddiant dros y 12 mis diwethaf nag y gallent ei ddarparu



5.94 Roedd cyflogwyr yng ngogledd a de ddwyrain Cymru'n fwy tebygol o beidio bod mewn cydbwysedd hyfforddiant (46 y cant a 45 y cant yn y drefn honno). Roedd y tebygolrwydd na fyddent mewn cydbwysedd hyfforddiant (h.y. byddent wedi hoffi gwneud mwy o hyfforddiant dros y 12 mis blaenorol) wedi cynyddu hefyd gyda maint y sefydliad, o bron i ddwy ran o bump (38 y cant) o'r rheiny gyda 2 i 4 o staff, i dair ran o bump (62 y cant) o'r rheiny gyda 100 neu fwy o staff.

Cyfleoedd datblygu eraill

5.95 Mae hi werth nodi, er bod y bennod hon wedi trafod darparu hyfforddiant ffurfiol o fewn a'r tu allan i'r swydd, mae'n ffaith ymysg y cyflogwyr lle nad yw hyfforddiant ffurfiol wedi ei ddarparu yn y 12 mis diwethaf, bod y mwyafrif (64 y cant, yn gyfatebol â 23 y cant o'r holl gyflogwyr) wedi darparu cyfleoedd

dablygu eraill i'w staff yn ymdrin â: goruchwyliaeth i dywys cyflogeion drwy eu rolau gwaith, darparu cyfleoedd i staff dreulio amser yn dysgu drwy wyllo eraill yn gwneud eu rôl, neu ganiatáu i staff wneud tasgau sy'n mynd y tu hwnt i'w rôl waith dynn a darparu adborth ar ba mor dda roedden nhw wedi'i wneud.

- 5.96 Roedd y mwyafrif llethol (91 y cant) o gyflogwyr oedd yn hyfforddi wedi darparu'r gweithgareddau datblygu ehangach yma hefyd ochr yn ochr â hyfforddiant ffurfiol.
- 5.97 Mae'r data am y ffordd mae gweithgareddau datblygu ehangach yn cael eu darparu mewn ffordd wahanol yn ôl rhanbarth, sector a maint y cyflogwr yn 2015, 2013 a 2011, a natur y gweithgareddau datblygu, i'w cael yn Nhabl A.5.15 yn Atodiad A.

Casgliadau

- 5.98 Er bod y gyfran o gyflogwyr yng Nghymu a ddarparodd hyfforddiant yn 2015 wedi parhau'n gyson gyda 2013 a 2011, aeth cyflogwyr ati i hyfforddi *cyfran fwy o'u staff* yn 2015. Fodd bynnag, roedd cyfanswm nifer y diwrnodau hyfforddi yng Nghymru wedi parhau'n gyfatebol gyda 2013, am fod y cynnydd yn y nifer a hyfforddwyd yn gyfan gwbl wedi dod gyda gostyngiad bach yn y nifer o ddiwrnodau o hyfforddiant i bob person a hyfforddwyd. Roedd y cynnydd yn y nifer a hyfforddwyd wedi cyfrannu at gynnydd o wyth y cant yn y gwariant cyfan ar hyfforddiant yn 2015; ond, roedd y gwariant ar bob person a hyfforddwyd wedi parhau'n gyfatebol gyda 2013.
- 5.99 Roedd arwyddion o gyflogwyr yng Nghymru'n newid eu hagwedd tuag at hyfforddiant: er bod maint cyfan yr hyfforddiant wedi parhau'n weddol debyg, roedd symudiad tuag at hyfforddiant y tu allan i'r swydd, yn ogystal â chynnydd yn y gyfran o gyflogwyr oedd yn cyllido neu'n trefnu hyfforddiant a luniwyd i arwain at gymhwyster a gydnabyddir yn gendlaethol. Ar yr un pryd, roedd ymatebion yn dangos lefel uchel a chynyddol o hyfforddiant ar-lein ac e-ddysgu.
- 5.100 Byddai hanner y cyflogwyr yn hyfforddi yng Nghymru wedi hoffi darparu mwy o hyfforddiant dros y 12 mis diwethaf nag y gwnaethon nhw, yn unol â chyflogwyr ledled y DU gyfan. Roedd y rhwystrau mwyaf cyffredin i hyn yn 'fewnol' i'r sefyllfa (hyn yw, diffyg arian neu amser, diffyg angen ymysg y staff neu awydd am hyfforddiant, diffyg gwybodaeth am gyfleoedd) yn hytrach na rhwystrau

'allanol' (megis prinder darpariaeth hyfforddiant yn lleol neu hyfforddiant priodol).

5.101 Mae ymyriadau polisi'n ceisio ysgogi gweithgareddau hyfforddi'r cyflogwyr nid fel targed ynddo'i hyn ond oherwydd ei effaith ar sgiliau, cynhyrchiant a ffyniant economaidd. Mae'r ffordd y mae hyfforddiant yn cael ei asesu yn un elfen sy'n cyfrannu at berfformiad uchel o fewn gweithfannau, ac yn y bennod nesaf rydym yn archwilio Gwaith Perfformiad Uchel, yn ogystal â strategaethau marchnad y cynnyrch y mae cyflogwyr yn eu mabwysiadu.

6. Arferion gweithio perfformiad uchel a strategaethau marchnad y cynnyrch

Crynodeb o'r Bennod

- 6.1 Mae UKCES yn diffinio Gweithio Perfformiad Uchel (GPU) fel agwedd gyffredinol tuag at reoli sefydliadau sy'n anelu at gymell cyfranogaeth ac ymrwymiad mwy effeithiol gan y gweithiwr er mwyn cyrraedd lefelau uwch o berfformiad. **Roedd lleiafswm o gyflogwyr yng Nghymru (11 y cant) a fabwysiadodd 14 neu fwy o arferion GPU wedi eu categoraiddio felly fel cyflogwyr GPU.**
- 6.2 Mae Strategaethau Marchnad y Cynnyrch (SMC) wedi eu diffinio o fewn yr arolwg yn unol ag ymatebion cyflogwyr sector preifat i gyfres o gwestiynau sy'n archwilio strategaethau prisio, agweddau tuag at arloesi, a natur marchnadoedd y cynnyrch y mae sefydliadau'n gweithredu ynddynt. **Ar y cyd, mae'r ymatebion hyn yn cyfrif am ddwy ran o bump (40 y cant) o'r holl sefydliadau sector preifat yng Nghymru sydd â strategaethau marchnad y cynnyrch 'uchel' neu 'uchel iawn'.** Roedd hyn yn is na ffigur cyffredinol y DU o 46 y cant.
- 6.3 Roedd busnesau a fabwysiadodd arferion GPU a'r rheiny oedd wedi ceisio "strategaethau marchnad y cynnyrch uchel iawn" (h.y. rheiny sy'n flaenllaw yn eu diwydiant, yn cynnig cynhyrchion a gwasanaethau premiwm gyda graddfa uchel o addasu ar gyfer y cwsmer ac nad yw eu llwyddiant cystadleuol oll yn ddibynnol ar bris) **yn tueddu bod yn fwy gweithredol yn y farchnad lafur ac wedi cael profiad amlach o brinder sgiliau;** ond roeddent hefyd wedi ei chael hi'n haws llenwi eu swyddi gwag yn y ffaith fod cyfran lai o'u swyddi gwag yn anodd eu llenwi.
- 6.4 **Roedd cyflogwyr GPU yng Nghymru hefyd yn fwy tebygol o bennu bylchau mewn sgiliau yn eu gweithlu.** Roedd hynny yn nhermau'r gyfran o sefydliadau gydag o leiaf un bwlch mewn sgiliau a'r gyfran o'r gweithlu y teimlwyd nad oeddent yn gwbl hyfedr yn eu swyddi. Roedd y gwahaniaethau hyn yn debygol o fod yn adlewyrchiad o gyflogwyr GPU yn mabwysiadu arferion (megis asesiadau o anghenion hyfforddi) a fyddai'n helpu i ganfod bylchau mewn sgiliau yn eu gweithlu.
- 6.5 **Roedd y profiad o fylchau mewn sgiliau'n debyg ar draws y sefydliadau, beth bynnag fo eu strategaethau marchnad y cynnyrch.** Fodd bynnag,

roedd bylchau mewn sgiliau'n fwy tebygol o fod wedi eu hachosi gan resymau 'dros dro' (megis y staff yn newydd i'r rôl a/neu nad yw eu hyfforddiant yn gyflawn) mewn sefydliadau gyda strategaethau marchnad y cynnyrch uwch.

- 6.6 **Roedd perthynas glir rhwng sgôr SMC sefydliad a'i ddarpariaeth hyfforddiant**— roedd y rheiny oedd yn gweithredu ar ben uchaf y mynegai SMC yn fwy tebygol o fod wedi hyfforddi eu staff ac wedi hyfforddi cyfran uwch o'u staff. Roedd cyflogwyr gyda strategaethau marchnad y cynnyrch uwch hefyd yn fwy tebygol o fod wedi darparu hyfforddiant a arweiniodd at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol ac at gymwysterau sydd o lefel uwch na'r rheiny ar y pen isaf.

Cyflwyniad

- 6.7 Mewn penodau blaenorol mae'r adroddiad yma wedi edrych ar brofiadau cyflogwyr o brinder sgiliau a bylchau mewn sgiliau, yn ogystal â'u harferion mewn cyllido a threfnu hyfforddiant. Mae'r dadansoddiad yn y penodau yma wedi canolbwyntio'n fawr ar y ffordd mae'r sialensau yma wedi effeithio ar gyflogwyr mewn gwahanol rannau o Gymru, o wahanol feintiau ac mewn gwahanol sectorau diwydiannol.
- 6.8 Mae ffyrdd eraill o grwpio cyflogwyr i ddeall elfennau cyffredin a gwahaniaethau rhyngddynt. Yn y bennod hon rydym yn defnyddio dau gategori arall sy'n deillio o gyfres o gwestiynau arolwg yn ymwneud â chynllunio, trefnu a strategaethau perfformiad a ddefnyddir gan gyflogwyr. Mae'r categorïddio yma'n helpu i ddeall yn well beth allai ddylanwadu ar brofiadau cyflogwyr o brinder sgiliau a bylchau mewn sgiliau a beth sy'n eu gyrru i ariannu a threfnu hyfforddiant i'w cyflogeion. Dyma'r ddau gategori yma:

- P'un a yw'r cyflogwyr yn gyflogwyr Gwaith Perfformiad Uchel (GPU) neu beidio.
- Y Strategaethau marchnad y cynnyrch (SMC) y mae cyflogwyr yn eu mabwysiadu.

Gwaith Perfformiad Uchel

- 6.9 Nid yn unig y mae hi'n bwysig ystyried yr heriau sgiliau a wynebir gan gyflogwyr ac i ba raddau y maen nhw'n datblygu sgiliau'r gweithlu, ond mae'n bwysig hefyd i ddeall y ffyrdd y mae cyflogwyr yn sicrhau bod sgiliau'n cael eu harneisio a'u trefnu'n effeithiol yn y gweithlu. Os nad yw gweithwyr medrus yn cael eu rheoli a'u trefnu'n effeithiol yn y gweithle yna mae'n debygol y bydd eu

cynhyrchiad a'u cyfraniad at dyfiant economaidd yn gyfyngedig (UKCES, 2015²⁷). Un ffordd o asesu amgylchedd y gweithle yw drwy fesur arferion Gweithio Perfformiad Uchel (GPU). Mae UKCES yn diffinio gwaith perfformiad uchel fel 'agwedd gyffredinol tuag at reoli sefydliadau sy'n amcannu i ysgogi cyfranogaeth ac ymrwymiad mwy effeithiol gan y gweithiwr er mwyn cyrraedd lefelau uchel o berfformiad' (Belt a Giles, 2010).

- 6.10 Yn gyson gydag arolwg 2013, roedd ESS 2015 yn cynnwys cyfres o gwestiynau yn ymwneud â chyfres o 21 o arferion GPU cydnabyddedig. Yn unol â dadansoddiad o arferion GPU a wnaed gan UKCES²⁸, mae'n bosibl grwpio'r arferion GPU yn bump ffactor: cynllunio; trefnu; sgiliau; gwobrwyon; ac ymreolaeth. Mae Tabl 6.1 yn rhoi manylion y pum ffactor yma a'r arferion GPU unigol sy'n ffurfio pob grŵp.

Tabl 6.1 Arferion Gweithio Perfformiad Uchel (GPU) yn ôl y pum factor


Enw'r ffactor	Arferion GPU
Cynllunio	Cynllun hyfforddi, adolygiad blynyddol o berfformiad, cyllideb hyfforddiant, cysgodi gwaith, cynllun busnes, polisi cyfle cyfartal, asesiad o anghenion hyfforddi
Cyfundrefn	Buddsoddwyr mewn Pobl (BMP), ISO 9000, ymgynghoriad undebau llafur, ymgynghoriad cyflogaeth, gweithio mewn timau, proses i ganfod unigolion talentog
Sgiliau	Hyfforddiant o fewn a'r tu allan i'r swydd, adolygiad ffurfiol o berfformiad ar ôl hyfforddi
Gwobrwyon	Cynllun bonws, cyflog sy'n berthnasol i berfformiad, buddion hyblyg
Ymreolaeth	Amrywiaeth yn y tasgau, disgresiwn y tasgau, gweithio hyblyg.

- 6.11 Mae Ffigur 6.1 yn dangos y gyfran o gyflogaeth a fabwysiadodd bob arfer GPU unigol a'r gyfran a fabwysiadodd o leiaf un o'r arferion mewn perthynas â'r pum grŵp ffactor.

²⁷ UKCES (2015). Growth Through People: Evidence and Analysis. Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau'r Deyrnas Unedig.

²⁸ Brown, D. (2014). High Performance Working: a new segmentation of smaller workplaces. Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau'r Deyrnas Unedig.

Ffigur 6.1 Cyflogwyr yn mabwysiadu arferion Gweithio Perfformiad Uchel (GPU)



6.12 Yn gyffredinol, roedd 11 y cant o gyflogwyr yng Nghymru wedi mabwysiadu 14 allan o'r 21 o arferion GPU a oedd – yn unol â'r agwedd a gymerwyd yn ESS 2013 - wedi dosbarthu'r sefydliadau yma fel rhai cyflogwyr Gweithio Perfformiad Uchel (cyflogwyr GPU). Roedd y gyfran o gyflogwyr yng Nghymru a gategoreiddiwyd fel cyflogwyr GPU yn gyson gyda 2013, ac yn cyfateb gyda'r Ffigur ar gyfer y DU gyfan (12 y cant). Mae gweddill yr adran hon yn canolbwyntio ar y grŵp dethol yma o gyflogwyr GPU.

6.13 Wrth ystyried cyflogwyr GPU mae werth nodi bod:

- Cysylltiad cryf rhwng statws GPU a maint y sefydliad. Dim ond tri y cant o sefydliadau gyda llai na phump o weithwyr cyflogedig a fabwysiadodd 14 neu fwy o'r arferion GPU, ac roedd hyn yn cynyddu i 53 y cant o bob sefydliad gyda 100 neu fwy o weithwyr cyflogedig. Felly roedd y gyfran o'r gweithlu a ddefnyddiwyd gan sefydliadau GPU, yn anghyfartal o fawr mewn oddeutu dwy ran o bump o'r gweithlu.
- Roedd gwahaniaethau yn ôl y Rhanbarth: roedd cyflogwyr yn Ne ddwyrain Cymru'n fwy tebygol na'r holl ranbarthau eraill o fod yn


gyflogwyr GPU (15 y cant), ac yn dilyn hynny roedd Gogledd Cymru (11 y cant) a De orllewin Cymru (naw y cant), tra bo cyflogwyr yng Nghanolbarth Cymru'n lleiaf tebygol o fabwysiadu 14 neu fwy o arferion GPU (chwech y cant).

- Roedd cyflogwyr GPU yn anghyfartal o debygol o fod yn rhan o sefydliad ehangach ac, felly, gallai gael gafael ar yr adnoddau cysylltiedig a'r strwythurau rheoli y mae hyn yn yn ei ddarparu'n aml iawn (roedd 70 y cant o'r holl gyflogwyr GPU yn sefydliadau safleoedd amrywiol, a dim ond traean o'r holl gyflogwyr yng Nghymru yn gyffredinol oedd yn rhai safleoedd lluosog).
- Roedd proffil sector cyflogwyr GPU yn amrywio'n sylweddol. Roedd cymaint â thri ymhob deg o gyflogwyr yn y sector Addysg yn gyflogwyr GPU (30 y cant), a phumed rhan o gyflogwyr yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol (22 y cant). Ar y llaw arall, dim ond un y cant o gyflogwyr mewn Amaethyddiaeth a phump y cant mewn Adeiladu oedd yn gyflogwyr GPU (dau sector oedd yn tueddu cynnwys sefydliadau bach safle unigol).

6.14 Mae Tabl A.6.1 yn Atodiad A yn dangos y gyfran o gyflogwyr sy'n mabwysiadu 14 neu fwy o arferion GPU yn ôl y rhanbarth a'r sector.

6.15 Mae'r is-adrannau dilynol i'r bennod hon yn trafod gwahanol brofiadau cyflogwyr GPU a chyflogwyr nad ydynt yn GPU yn nhermau prinder sgiliau, hyfforddiant a bylchau sgiliau: mae Ffigur 6.2 yn crynhoi'r canfyddiadau yma. Heblaw ei fod yn dweud yn wahanol, mae'r canfyddiadau y sonir amdanynt yn yr adran hon yn gyson gyda'r canfyddiadau y sonir amdanynt yng Nghymru yn 2013.

Ffigur 6.2 Crynodeb o brofiad cyflogwyr o brinder mewn sgiliau, bylchau mewn sgiliau a hyfforddiant yn dibynnu ar categoreiddiad Gweithio Perfformiad Uchel (GPU)



Y berthynas rhwng GPU a phrinderau sgiliau

- 6.16 Roedd cyflogwyr GPU yng Nghymru, fel yn y DU i gyd, yn llawer mwy gweithgar yn y farchnad recriwtio nag oedd cyflogwyr nad ydynt yn GPU ac roeddent, o ganlyniad, yn fwy tebygol o fod wedi cael profiad o un swydd wag anodd ei llenwi o leiaf ac o leiaf un swydd wag lle mae prinder sgiliau (gwelwch y siart bellaf ar y chwith yn Ffigur 6.2). Ond yn nhermau dwysedd, roedd cyfran lai o swyddi gwag cyflogwyr GPU yn anodd eu llenwi (29 y cant, o'i gymharu gyda 39 y cant mewn cyflogwyr nad ydynt yn GPU).
- 6.17 Lle'r oedd gan gyflogwyr GPU swyddi gwag anodd eu llenwi, roedd cyfran fwy o'r rhain wedi'u hachosi gan brinder sgiliau (roedd 88 y cant o swyddi gwag anodd eu llenwi wedi'u hachosi, o leiaf yn rhannol gan brinder sgiliau gan gyflogwyr GPU o'i gymharu â 67 y cant mewn cyflogwyr nad ydynt yn GPU). Mae hyn yn awgrymu bod cyflogwyr GPU wedi cael galw mwy am sgiliau, cymwysterau a phrofiad wrth benodi na chyflogwyr nad ydynt yn GPU.

Y berthynas rhwng GPU a bylchau mewn sgiliau

- 6.18 Roedd gan gyfran fwy o gyflogwyr GPU yng Nghymru fylchau mewn sgiliau yn eu gweithlu (25 y cant) na chyflogwyr nad ydynt yn gyflogwyr GPU (12 y cant), er bod cyfran y gweithlu na ystyriwyd yn gwbl hyfedr yn eu swyddi yn debyg ar draws y ddau grŵp (5.0 y cant ymysg cyflogwyr GPU, a 5.5 y cant ymysg eu cydweithwyr nad ydynt yn GPU).
- 6.19 Gallai'r mynychdra mwyaf o fylchau mewn sgiliau ymysg cyflogwyr GPU adlewyrchu'r ffaith fod cyflogwyr GPU – trwy ddiffiniad - yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau a oedd yn debygol o'u gadael mewn lle gwell i ganfod bylchau mewn sgiliau (e.e. adolygiadau blynyddol o berfformiad, asesiadau o anghenion hyfforddi, asesu perfformiad yn ffurfiol ar ôl hyfforddi). Ond gallai'r tebygrwydd yn nwysedd y bylchau mewn sgiliau er gwaethaf y mynychdra uwch ymysg cyflogwyr GPU adlewyrchu'r ffaith fod cyflogwyr GPU yn fwy tebygol o ymdrin â'u bylchau mewn sgiliau drwy hyfforddiant. Tra bo cyflogwyr GPU a chyflogwyr nad ydynt yn GPU gyda bylchau mewn sgiliau wedi cymryd camau i ymdrin â'r bylchau hynny (89 y cant a 82 y cant yn y drefn honno), roedd cyflogwyr GPU yn fwy tebygol o fod wedi cynyddu hyfforddiant a/neu wedi cyflwyno cynllun mentora i staff (76 a 66 y cant o gyflogwyr GPU gyda bylchau mewn sgiliau yn y drefn honno o'i gymharu â 63 a 43 y cant o gyflogwyr nad ydynt yn GPU).

Y berthynas rhwng GPU a hyfforddiant

- 6.20 Roedd cyflogwyr GPU yng Nghymru'n llawer mwy tebygol na chyflogwyr nad ydynt yn GPU o fod wedi trefnu neu ariannu hyfforddiant i'w cyflogeion dros y 12 mis cyn yr arolwg (roedd 98 y cant wedi gwneud hynny, o'i gymharu gyda 62 y cant o gyflogwyr nad ydynt yn GPU, fel y gwelir yn Ffigur 6.2). Roedd cyflogwyr GPU wedi hyfforddi cyfran llawer mwy o'u gweithlu dros y cyfnod yma hefyd na sefydliadau nad ydynt yn GPU (77 y cant o'i gymharu gyda 54 y cant yn y drefn honno). Mae hyn yn awgrymu bod cyflogwyr GPU wedi cymryd rôl fwy gweithredol mewn datblygu sgiliau eu gweithlu.
- 6.21 Roedd trefnu neu ariannu hyfforddiant i staff yn un o'r 21 o arferion GPU a gydnabuwyd yn yr arolwg (ynghyd ag arferion eraill yn ymwneud â hyfforddiant, megis cael cynllun hyfforddi); felly nid yw'n syndod bod cyflogwyr GPU yn fwy tebygol o fod wedi trefnu neu ariannu hyfforddiant i'w gweithwyr cyflogedig. Ond, dylid nodi hefyd o ran gynharach yn yr adroddiad bod cyflogwyr GPU yn

fwy gweithgar yn y farchnad benodi ac felly'n debygol o fod â mwy o angen i hyfforddi recriwtiaid newydd. Yn yr un modd, roedd yr adran flaenorol ar fylchau mewn sgiliau'n awgrymu bod cyflogwyr GPU yn fwy tebygol o ganfod bylchau mewn sgiliau yn eu gweithlu ac felly'n gweld bod angen hyfforddi a datblygu sgiliau eu gweithlu.

- 6.22 Roedd cyflogwyr GPU hefyd yn fwy tebygol o fod wedi ariannu neu drefnu hyfforddiant tuag at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol ac at gymwysterau a oedd o lefel uwch. Yn benodol, roedd 72 y cant o gyflogwyr GPU a oedd wedi hyfforddi eu staff wedi trefnu neu ariannu hyfforddiant tuag at gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol dros y 12 mis cyn yr arolwg (o'i gymharu gyda 51 y cant o gyflogwyr nad ydynt yn GPU). Ymhellach, roedd cyfran fwy o gyflogwyr GPU (30 y cant) wedi hyfforddi eu staff i gymwysterau ar Lefel 4 neu'n uwch o'i gymharu gyda chyflogwyr nad ydynt yn GPU (17 y cant).


Strategaethau marchnad y cynnyrch

- 6.23 Mae strategaethau marchnad y cynnyrch (SMC) yn disgrifio'r ffyrdd y mae sefydliadau sector preifat yn dewis amrywio a lleoli'r gwasanaethau a'r cynhyrchion y maent yn eu darparu o fewn y marchnadoedd y maent yn gweithredu ynddynt. Mae cyflogwyr sy'n gweithredu strategaethau marchnad y cynnyrch 'uwch' yn cynnig gwell cyfle ar gyfer tyfiant busnes cynaliadwy a chynhyrchiad a ddylai, yn eu tro, greu galw mwy am sgiliau. Mae'r rhyng-berthynas rhwng SMC a sgiliau'r gweithlu'n thema o ddiddordeb polisi i'r llywodraeth oherwydd gallai argaeledd sgiliau'r gweithlu effeithio ar y strategaethau y gall cwmnïau eu ceisio (ac ar eu llwyddiant tymor canolig a thymor hir).
- 6.24 O fewn yr arolwg, gofynnwyd i **gyflogwyr sector preifat** roi sgôr i'w sefydliadau ar raddfa pum pwynt, o'i gymharu â sefydliadau eraill yn yr un diwydiannau, yn nhermau:
- i ba raddau y mae eu llwyddiant cystadleuol yn dibynnu ar bris
 - i ba raddau yr oedd y sefydliad yn tueddu arwain y gad yn eu diwydiant yn nhermau datblygu cynhyrchion, deunyddiau neu dechnegau newydd
 - i ba raddau yr oedd y sefydliad wedi cystadlu mewn marchnad cynhyrchion o 'ansawdd premiwm' yn hytrach na marchnad y cynnyrch 'o ansawdd safonol neu sylfaenol'

- i ba raddau yr oeddent yn cynnig nwyddau neu wasanaethau gyda maint sylweddol o addasu penodol yn unol â gofynion y cwsmer.

- 6.25 Mae Ffigur 6.3 yn dangos yr ymatebion cyffredinol i bob un o 'ddatganiadau safle' y farchnad cynhyrchion unigol yma, yn cynnwys y sgôr a roddwyd i bob ymateb.
- 6.26 Roedd yr ymatebion i'r datganiadau safle'n debyg iawn i 2013 a 2011. Roedd y prinder newydd yma dros amser yn ddisgwyliadwy o ystyried bod y 'datganiadau safle' a ofynnwyd yn yr arolwg wedi'u safoni yn y synnwyr y gofynnwyd i gyflogwyr gymharu eu cynhyrchion a'u gwasanaethau yn erbyn y rheiny a ddarparwyd gan eraill yn eu diwydiant (h.y. os cafwyd datblygiadau ar draws y diwydiant yn strategaethau marchnad y cynnyrch ni fyddai safle'r cyflogwyr unigol o fewn y diwydiant yn erbyn eu cystadleuwyr wedi newid o anghenraid).
- 6.27 Fodd bynnag, roedd symudiad bach ond arwyddocaol i ffwrdd oddi wrth sefyllfa lle mae cyflogwyr yng Nghymru'n hollol ddibynnol ar bris (gostyngiad dau bwynt yn y gyfran o gyflogwyr a ddarparodd 'sgôr' o un ar gyfer y datganiad yma).

Ffigur 6.3 Safleoedd Strategaeth Marchnad y Cynnyrch



Llunio Mynegai Marchnad y Cynnyrch cyfansawdd

6.28 I ganfod strategaethau marchnad y cynnyrch cyffredinol pob sefydliad, cafodd yr ymatebion i bedwar 'datganiad safle' marchnad y cynnyrch eu casglu at ei gilydd i gael sgôr SMC cyfansawddd, Yna cafodd y sgorau cyfansawddd yma eu trosi'n gategori-ddiad pum ochr yn amrywio o 'Isel iawn' i 'Uchel iawn' (gwelwch Dabl 6.2). Roedd sgôr cyfansawddd 'Uchel iawn' yn dangos bod y cyflogwr yn tueddu arwain y ffordd ac arloesi yn ei sector, yn tueddu peidio cystadlu ar brisiau a/neu yn tueddu cynnig gwasanaeth neu gynnyrch wedi ei addasu'n benodol ar lefel uchel a/neu bremiwm. Ar y llaw arall, roedd sgôr cyfansawddd 'isel iawn' yn awgrymu bod y cyflogwr yn tueddu peidio gwneud unrhyw rai o'r pethau yma.

Tabl 6.2 Sgorau Strategaeth Marchnad y Cynnrych cyfansawdd cyffredinol

Sgôr SMC wedi Agregu		% o sefydliadau sector preifat yng Nghymru	% o gyflogaeth sector preifat yng Nghymru
1 - 7	Isel iawn	6	3
8 - 10	Isel	15	9
11 - 13	Canolig	26	25
14 - 16	Uchel	27	31
17 - 20	Uchel iawn	13	20

Sail: Pob sefydliad yn y sector preifat (4,942)

Nodwch: Nid yw'r ffigurau'n adio i roi 100 y cant am fod yr ymatebion 'ddim yn gwybod' wedi eu heithrio (rhoddodd 13 y cant o sefydliadau sector preifat yr ymateb 'ddim yn gwybod').

Proffilio cyflogwyr gyda sgorau SMC cyfansawdd uwch ac is

6.29 Roedd cyflogwyr oedd ar ben 'Uchel iawn' y raddfa SMC yn tueddu bod yn fwy ar gyfartaledd na'r rheiny ar y pen 'Isel iawn'. Fodd bynnag, yn debyg i 2013, a ledled y DU gyfan, gwelwyd bod yr holl gategorïau SMC (o Isel iawn i Uchel iawn) wedi eu dominyddu gan sefydliadau bach gyda llai na 25 o gyflogeion, gan adlewyrchu'n eang faint proffil y sefydliadau sector preifat yn gyffredinol (gwelwch Dabl 6.3). Felly dylid nodi bod y ddadansoddiadau a gyflwynir yng ngweddill y bennod hon yn edrych ar wahaniaethau rhwng y grwpiau SMA, yn drafodaeth i raddau mawr am sefydliadau llai pa grŵp SMC bynnag yr oeddent yn perthyn iddo. Mae hyn yn golygu nad yw'r gwahaniaethau a gofnodwyd rhwng grwpiau SMC yn debygol o gael eu gyrru gan faint (yn unig).

Tabl 6.3 Sgiliau Strategaeth Marchnad y Cynnrych cyfansawdd yn gyffredinol yn ôl maint

Pob sector preifat		Isel iawn	Isel	Canolig	Uchel	Uchel iawn
Sail heb ei bwysoli:	4,942	241	690	1,263	1,434	743
	%	%	%	%	%	%
Maint						
2-4	55	72	64	55	49	45
5-24	37	26	33	38	41	41
25-49	4	2	2	4	5	8
50-99	2	*	1	2	3	3
100+	2	0	*	1	2	3

Sail: Pob sefydliad yn y sector preifat, yn ôl categoreiddiad SMC.


** yn dynodi Ffigur sy'n fwy na sero ond yn llai na 0.5

- 6.30 Roedd cyflogwyr gyda sgôr SMC 'Isel iawn' yn anghytbwys o debygol o fod yng Nghanolbarth Cymru, oedd yn cyfrif am 20 y cant o'r holl sefydliadau SMC 'Isel iawn' ond dim ond 13 y cant o'r holl sefydliadau sector preifat.
- 6.31 Roedd cyflogwyr yng Nghymru gyda sgôr SMC 'Uchel iawn' ychydig bach yn fwy tebygol o fod yn gweithredu yn y sector Gwasanaethau Busnes, oedd yn cyfrif am 20 y cant o'r holl sefydliadau SMC 'Uchel iawn' ond dim ond 16 y cant o'r holl sefydliadau sector preifat. Ar y llaw arall, roedd cyflogwyr gyda sgôr 'Isel iawn' yn anghytbwys o debygol o fod yn gweithredu yn y sector Amaethyddiaeth, oedd yn cyfrif am 30 y cant o'r holl sefydliadau SMC 'Isel iawn', ond dim ond 13 y cant o'r holl sefydliadau sector preifat.
- 6.32 Mae Tabl A.6.2 yn Atodiad A yn rhoi rhagor o fanylion am nodweddion cyflogwyr ymhob categori SMC yn nhermau rhanbarth a sector.
- 6.33 Mae is-adrannau dilynol y bennod hon yn trafod profiadau cyflogwyr yn unol â'u gwahanol safleoedd ar y raddfa SMC. Heblaw ei fod yn dweud fel arall, mae'r canfyddiadau a nodir yn yr adran hon yn gyson gyda'r canfyddiadau y soniwyd amdanynt yn 2013.

Y berthynas rhwng SMC a phrinder sgiliau

- 6.34 Fel y gwelwch yn Ffigur 6.4, roedd sefydliadau gyda sgôr SMC uwch yn fwy tebygol o fod yn weithgar yn y farchnad recriwtio. Cynyddodd mynychdra'r Sefydliadau gyda swyddi gwag o 11 y cant ymysg y rheiny gyda sgôr SMC 'Isel iawn' i 22 y cant ymysg y rheiny gyda sgôr SMC 'Uchel iawn'. Yn unol â'r cynnydd yma mewn gweithgareddau penodi, roedd cyflogwyr ar ben uchaf y mynegai SMC yn fwy tebygol hefyd o fod ag un swydd wag anodd ei llenwi o leiaf ac o leiaf un swydd wag gyda phrinder sgiliau, o'i gymharu gyda'r rheiny ar ben isaf y mynegai (gwelwch Ffigur 6.4).

Ffigur 6.4 Mynychdra'r swyddi gwag, anodd eu llenwi (SALI) a'r swyddi gwag gyda phrinder sgiliau (SgPS), yn ogystal â Dwysedd SALI, yn ôl categoreiddiad Strategaeth Marchnad y Cynnyrch



6.35 Wrth ystyried dwysedd y swyddi gwag anodd eu llenwi (h.y. nifer y swyddi gwag anodd eu llenwi fel cyfran o'r holl swyddi gwag) nid oedd unrhyw duedd llinoll ar draws y grwpiau SMC

6.36 Mae Tabl A.6.3. yn Atodiad A yn rhoi manylion llawn y gwahaniaethu mewn gweithgareddau penodi yn ôl categoreiddiad SMC.

Y berthynaas rhwng SMC a bylchau mewn sgiliau

6.37 Fel y mae Tabl 6.5 yn ei ddangos, cafodd sefydliadau gyda sgôr SMC Canolig i Uchel iawn fynychdra mwy o fylchau mewn sgiliau o'i gymharu gyda'r rheiny gyda sgôr isel neu isel iawn; ond doedd dim perthynas glir rhwng sgôr SMC a dwysedd y bylchau mewn sgiliau.

Tabl 6.5 Mynychdra a dwysedd bylchau mewn sgiliau yn ôl categoreiddiad Strategaeth Marchnad y Cynnyrch

	Isel iawn	Isel	Canolig	Uchel	Uchel iawn
<i>Sail heb ei Bwysoli</i>	241	690	1,263	1,434	743
	%	%	%	%	%
% o sefydliadau gyda bylchau mewn sgiliau	10	12	16	15	15
% o'r gweithlu gyda bylchau mewn sgiliau	6	6	7	5	4

6.38 Roedd tuedd eang o gyfran uwch o fylchau mewn sgiliau oedd yn digwydd dim ond, mewn achosion dros dro (h.y. roedd staff yn newydd i'r rôl a/neu doedd eu hyfforddiant ddim yn gyflawn) mewn sefydliadau gyda strategaethau marchnad y cynnyrch uwch. Yn benodol, roedd wyth y cant o fylchau mewn sgiliau mewn sefydliadau SMC 'Isel' oherwydd achosion dros dro, yn codi i 23 y cant mewn sefydliadau SMC 'Uchel iawn'. Gall gymryd amser i staff newydd gyrraedd hyfedredd llawn ac, o ystyried yr achosion dros dro yma, byddai rhywun yn disgwyl i gyfran fwy o fylchau mewn sgiliau gael eu datrys o roi amser iddynt mewn sefydliadau gyda strategaethau marchnad y cynnyrch uwch. Yn wir, roedd cyflogwyr gyda strategaethau marchnad y cynnyrch uwch yn llai tebygol o feio bylchau mewn sgiliau ar y ffaith nad oedd staff wedi derbyn yr hyfforddiant priodol.

Tabl 6.6 Prif achosion y bylchau mewn sgiliau (wedi rhoi hwb), yn ôl categoreiddiad Strategaeth Marchnad y Cynnyrch

	Isel iawn	Isel	Canolig	Uchel	Uchel iawn
<i>Sail heb ei Bwysoli</i>	34	116	265	299	142
	%	%	%	%	%
Achosion dros dro					
Mae staff yn newydd i'r rôl	70	70	61	67	68
Dim ond yn rhannol y mae eu hyfforddiant wedi ei gwblhau ar hyn o bryd	66	60	53	65	63
<i>Crynodeb: Bylchau mewn sgiliau oherwydd achosion dros dro yn unig</i>	14	8	16	16	23
Achosion eraill					
Does dim llawer o frwdfrydedd gan y staff	36	36	47	33	44
Maent wedi cael hyfforddiant ond nid yw eu perfformiad wedi gwella'n ddigonol	38	37	27	31	33
Cyflwyno arferion gweithio newydd	14	41	30	26	32
Nid yw staff wedi derbyn yr hyfforddiant priodol	39	44	34	26	20
Yn methu penodi staff gyda'r sgiliau gofynnol	40	32	42	32	30
Cyflwyniad technoleg newydd	19	18	17	18	18
Datblygiad cynhyrchion a gwasanaethau newydd	16	14	17	15	19
Problemau'n cadw staff	30	31	18	17	13

Sail: Pob sefydliad yn y sector preifat gyda bylchau mewn sgiliau; gan gadw golwg ar hyd at ddau fwch mewn sgiliau

Cadwyd llygad dilynol ar y canrannau sy'n cael eu dangos fel cyfran o'r holl fylchau mewn sgiliau


Dylid trin ffigurau mewn ffont italig yn ofalus oherwydd maint isel y sail

Y berthynas rhwng SMC a hyfforddiant

6.39 Fel y gwelwch yn Ffigur 6.5, roedd perthynas linol rhwng strategaethau marchnad y cynnyrch sefydliad a'u lefel o weithgareddau hyfforddi dros y 12 mis cyn yr arolwg. Wrth i'r sgôr cyfansawdd SMC gynyddu, roedd mynychdra'r sefydliadau oedd wedi darparu hyfforddiant i'w staff yn cynyddu hefyd.

6.40 Mae'r berthynas rhwng sgôr cyfansawdd SMC a chyfran y gweithlu a hyfforddwyd yn llai llinol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd y rheiny gyda sgorau SMC 'Canolig' i 'Uchel iawn' yn darparu hyfforddiant i gyfran fwy o'u gweithlu na'r rheiny gyda sgorau SMC 'Isel' neu 'Isel iawn'.

Ffigur 6.5 Mynychdra'r hyfforddiant fel cyfran o'r gweithlu a hyfforddwyd yn ôl categoreiddiad Strategaeth Marchnad y Cynnyrch



6.41 Fel y dywedwyd ym Mhennod 5, roedd perthynas gref rhwng maint y cyflogwr a'r gweithgareddau hyfforddi, gyda'r tebygolrwydd y byddai hyfforddiant yn cynyddu gyda maint y cyflogwr. Rydym wedi gweld hefyd yn y bennod hon bod cyflogwyr gyda sgorau SMC uwch yn tueddu bod yn gyflogwyr mwy. Ond, mae'n ymddangos bod y patrwm yma wedi ei yrru gan y lefel SMC yn hytrach nag yn ôl maint y sefydliad: gan edrych ar gyflogwyr gyda gwahanol sgorau SMC cyfansawdd ymhob band maint, roedd yn wir bron bob tro bod cyflogwyr gyda'r sgorau SMC uchaf yn fwyaf tebygol o hyfforddi, ac yn debygol o hyfforddi cyfran fwy o'u staff (gwelwch Dabl A.6.4 yn Atodiad A).

